Estyn

# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

2016-2017

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **2-3** | **Cynnwys** |
| **4-11** | **Rhagair** |
| **12-51** | **Adran 1: Cynnydd â pholisïau addysg allweddol dros y saith mlynedd diwethaf** |
| 14-17 | Y Cyfnod Sylfaen |
| 18-20 | Datblygu medrau llythrennedd |
| 21-23 | Datblygu medrau rhifedd |
| 24-27 | Datblygu medrau TGCh a medrau digidol ar draws y cwricwlwm |
| 28-34 | Mynd i'r afael ag effeithiau difreintedd |
| 35-41 | Datblygu'r Gymraeg |
| 42-45 | Cydweithio a dysgu rhwng ysgolion |
| 46-51 | Gwella arweinyddiaeth |
| **52-191** | **Adran 2: Adroddiadau sector** |
| 52-61 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 62-77 | Ysgolion cynradd |
| 78-91 | Ysgolion uwchradd |
| 92-95 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 96-103 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 104-111 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 112-121 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 122-127 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 128-137 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 138-143 | Gwasanaethau addysg llywodraeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 144-155 | Colegau addysg bellach |
| 156-165 | Dysgu yn y gwaith |
| 166-171 | Dysgu oedolion |
| 172-175 | Addysg gychwynnol athrawon |
| 176-183 | Cymraeg i Oedolion |
| 184-187 | Gyrfaoedd |
| 188-191 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |


## Canllaw i'r adroddiad

**Adroddiad eleni yw'r 25ain adroddiad blynyddol olynol i'w gyhoeddi yng Nghymru ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 fynnu llunio adroddiad.**

**Mae'r adroddiad yn cynnwys tair rhan:**

- **Rhagair y Prif Arolygydd**
- **Adran 1: adran thematig yn canolbwyntio ar gynnydd â pholisïau addysg allweddol dros y saith mlynedd diwethaf**
- **Adran 2: adroddiadau sector unigol am ganfyddiadau arolygu yn 2016-2017**

**Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith arolygu a nodiadau am y geiriau, ymadroddion a'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad.**

**Mae Atodiad 2 yn cynnwys dolenni i'r dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.**

**Am ragor o fanylion am yr adroddiad neu ganfyddiadau arolygu, ewch i:**

- **Cyflwyniad y Prif Arolygydd**
- **Offeryn data ar-lein Estyn**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **192-203** | **Atodiad 1: Trosolwg** |
| 195-197 | Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a disgrifwyr barn |
| 198-201 | Gweithgarwch dilynol |
| 201 | Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiwn i ddisgrifio'n harfarniadau |
| 202 | Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn |
| 204-212 | Atodiad 2: Cyfeiriadau |

# Rhagair



Mae diwedd cylch arolygu yn amser da i ystyried tueddiadau tymor hir. 2016-2017 oedd blwyddyn olaf ein cylch 2010-2017 a dechreuodd dull arolygu newydd ym Medi 2017. Mae edrych yn ôl dros y saith mlynedd diwethaf yn dangos faint y mae addysg wedi newid yng Nghymru ac yn parhau i newid. Y duedd fwyaf arwyddocaol yw newid mewn diwylliant addysgol, sydd bellach yn ddiwylliant o gydweithredu mwy. Gwelir hyn gliriaf yn y modd y mae cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu gyda chymorth y proffesiwn. Hefyd, bu newid yn y modd y mae gwella ysgolion a datblygu staff yn gynyddol seiliedig ar gydweithio rhwng ysgolion ac ar gonsortia awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, bu newid nodedig tuag at 'system o hunanwella'.

Dros y cylch arolygu saith mlynedd, cynhaliodd Estyn ryw 2,700 o arolygiadau. Cafodd yr holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu o leiaf unwaith. Arweiniodd yr arolygiadau hyn at dros 40,000 o farnau[1]. Hefyd, cynhaliom ryw 1,000 o ymweliadau dilynol a 100 o adolygiadau thematig cenedlaethol. Dros y saith mlynedd ac yn cynnwys pob sector, roedd 77% o farnau arolygu yn farnau da neu'n well (71% yn dda a 6% yn rhagorol) ac roedd 23% yn waeth na da (20% yn ddigonol a 3% yn anfoddhaol). Mae'r darlun cyffredinol hwn yn dangos bod llawer i ymfalchïo ynddo yn y system addysg yng Nghymru.

Mae edrych yn ôl dros y cyfnod hwn yn ein helpu i ddeall cryfderau ein system addysg a ble mae angen i ni gyfeirio ein hymdrechion a'n hadnoddau fwyaf. Ceir llawer o gryfderau mewn lleoliadau meithrin, ysgolion arbennig a gynhelir, ac mewn colegau addysg bellach, lle mae ansawdd addysg yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae amrywioldeb yn parhau'n her yn y rhan fwyaf o sectorau eraill. Ein huchelgais o hyd yw i bob darpariaeth fod yn dda neu'n well drwy rannu arfer orau o fewn darparwyr a rhwng darparwyr. Ym mhob sector, ceir darparwyr da a rhagorol[2], gan gynnwys mewn ardaloedd lle ceir tlodi cymharol.

---

[1] Cyhoeddwyd barnau arolygu ar gyfer 2016-2017 fel **ystadegau swyddogol** yn Hydref 2017. Gellir archwilio'r holl farnau arolygu ar gyfer cylch 2010-2017 gan ddefnyddio **offeryn data ar-lein** rhyngweithiol Estyn.

[2] Gweler y rhestr ar dudalen 10 o ddarparwyr a arolygwyd yn 2016-2017 y dyfarnwyd barn ragorol iddynt ar gyfer un neu ddau o'r barnau cyffredinol, perfformiad presennol a rhagolygon gwella.

Un prif ffocws polisi dros y cyfnod hwn fu gwella sylfeini addysg, gan gynnwys medrau craidd, a helpu mwy o ddisgyblion i fod yn barod i ddysgu. Ar ôl y saith mlynedd hyn, mae gennym ddull mwy systematig o gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cymhwyso ac ymarfer eu llythrennedd a'u rhifedd[3] ar draws y cwricwlwm, gan ddefnyddio fframweithiau cenedlaethol cytûn. Mae sylw mawr i bresenoldeb ac ymddygiad wedi arwain at welliannau yn y meysydd hyn hefyd.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol bellach wedi symud o'r rhagofynion hyn i raglen o ddiwygio[4] sy'n canolbwyntio ar drawsnewid y cwricwlwm ac ar bedwar amcan galluogi sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar y system addysg ysgolion. Mae gwella'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion yn mynd law yn llaw â gwella ansawdd addysgu. Mae gwella addysgu yn mynnu gwell cymorth, dysgu proffesiynol a datblygiad staff ar gyfer athrawon presennol, yn ogystal â recriwtio gwell ac addysg a hyfforddiant cychwynnol gwell.

Mae canfyddiadau arolygu a thystiolaeth ymchwil yn dangos bod arweinyddiaeth yn cael dylanwad mawr ar ansawdd addysg, gan gynnwys addysgu, ac felly croesewir sefydlu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol. Mae arweinwyr llwyddiannus yn pennu gweledigaeth a diwylliant cyffredin, a chonsensws ynglŷn â'r hyn y maent am ei gyflawni. Maent yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf – sef cyfoethogi profiadau dysgu plant a phobl ifanc. Cânt y gorau allan o'u staff drwy roi blaenoriaeth i ddysgu proffesiynol a thrwy ddiogelu staff rhag gweithgareddau diangen. Yn benodol, maent yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, ac ar gynorthwyo staff i arloesi. Maent yn creu'r amodau i staff weithio gyda'i gilydd, ac i drafod a rhannu syniadau yn agored gyda'u cydweithwyr, o fewn eu sefydliad a thu hwnt.


Bu newidiadau mawr yn y modd y caiff dysgu proffesiynol ei drefnu yn ystod y cyfnod saith mlynedd hwn. Bellach, mae consortia rhanbarthol yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran awdurdodau lleol. Yn gynyddol, mae'r consortia hyn yn darparu 'cymorth' i ysgolion, er eu bod yn rhoi gormod o bwyslais o hyd ar atebolrwydd ac ar 'herio' ysgolion. Mae consortia yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion ac erbyn hyn maent wedi dechrau defnyddio mwy ar arweinwyr ysgol ar secondiad i wneud hyn. Dyma a olygir gan 'system hunanwella' – system sy'n meithrin gallu, sy'n helpu i gynyddu perchenogaeth ar wella ysgolion ar lefel ysgol, ac sy'n symud arbenigedd ac arfer orau o amgylch y system. Mae addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yn newid yn sylweddol hefyd, gyda threfniadau achredu newydd[5] ar gyfer cyrsiau sy'n pwysleisio pwysigrwydd ysgolion a phrifysgolion yn gweithio gyda'i gilydd.

Fel y dangosir gan y siart isod, y meysydd addysg sydd gryfaf ar draws y rhan fwyaf o sectorau yw'r rheini'n ymwneud â lles dysgwyr, gofal, cymorth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu (gan gynnwys ethos a chydraddoldeb), tra bod safonau, addysgu a phrofiadau dysgu, a gwella ansawdd (gan gynnwys hunanarfarnu) yn gymharol wannach. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â chanfyddiadau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sy'n awgrymu bod tegwch yn nodwedd gref mewn addysg yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill.

---

[3] Gweler tudalennau 18-23 yr adroddiad hwn am fwy o fanylion.
[4] Gweler 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'
**http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy**
[5] Gweler **http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga**

# Gwahaniaethau rhwng dangosyddion ansawdd i bob sector ar gyfer 2010-2017




Rydym ni'n gwneud yn dda yn y meysydd hyn am ein bod yn cymryd lles a thegwch i ddysgwyr o ddifrif. Er enghraifft, mae llawer o sylw wedi'i roi i fynd i'r afael ag effaith difreintedd disgyblion dros y saith mlynedd diwethaf. Er hynny, er bod y bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion wedi cau o ran rhai mesurau, mae'n parhau'n fwlch rhy fawr yn gyffredinol.

Mae'r ysgolion sydd yn llwyddo fwyaf i godi safonau ar gyfer eu holl ddisgyblion ac sy'n cau'r bwlch tlodi yn annog mwy o ymgysylltiad â rhieni a gyda'r gymuned. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac yn creu diwylliant lle caiff addysg ei pharchu a'i gwerthfawrogi[6] . Maent yn darparu grwpiau anogaeth a rhaglenni dysgu teuluol ar gyfer rhieni a gofalwyr. Maent yn gweithio gydag asiantaethau allanol i gynnig gwasanaethau'n gysylltiedig â'r teulu i fodloni anghenion lles dysgwyr a'u teuluoedd na all yr ysgol ar ei phen ei hun eu bodloni. Mae rhai o'r ysgolion cymunedol hyn yn cynnig gofal ac addysg 'cofleidiol' cyn-ysgol eu hunain neu mewn partneriaeth â darparwyr meithrin. Mae trefniadau o'r fath yn galluogi darparwyr i weithio'n agos â'i gilydd, i hwyluso trosglwyddo o'r feithrinfa i'r ysgol, ac i nodi anghenion penodol plant yn gynnar a rhoi cymorth ataliol ar waith. Mae'r trefniadau hyn yn helpu darparwyr meithrin heb fod mewn ysgol i elwa ar yr arbenigedd addysgu a'r adnoddau sydd ar gael mewn ysgolion. Mae ymchwil yn dangos bod addysg gynnar o ansawdd uchel yn fuddiol iawn i ddatblygiad tymor hir dysgwyr.

---

[6] Cyhoeddom **'Mynd i'r afael â difreintedd disgyblion'** yn 2014 a oedd yn crynhoi saith adolygiad thematig.

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei gyflwyno i blant tair i saith oed mewn ysgolion cynradd a lleoliadau meithrin a ariennir. Mae llawer o gonsensws ynghylch buddion y Cyfnod Sylfaen. Mae arolygwyr yn canfod, yn yr ysgolion lle mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gymhwyso fel y bwriadwyd, fod disgyblion yn gwneud cynnydd da, yn dod yn ddysgwyr annibynnol hyderus, ac wedi'u paratoi'n dda ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn defnyddio dulliau addysgu mwy traddodiadol, ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn arbennig (ar gyfer plant pump i saith oed), yn enwedig ar ôl cyflwyno'r profion darllen a rhifedd. Rheswm arall pam nad yw'r Cyfnod Sylfaen wedi ymwreiddio mewn mwy o ysgolion oedd cyfleoedd dysgu proffesiynol annigonol i staff a phenaethiaid i ddeall arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn helpu i gyflawni dealltwriaeth well, cyhoeddom adroddiad yn ddiweddar ar **'Dysgu gweithredol a thrwy brofiad'** yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae canfyddiadau arolygu eleni yn ddigon tebyg i ganfyddiadau ar gyfer y cylch yn gyffredinol. Mae saith o bob deg ysgol gynradd a arolygwyd eleni yn dda neu'n rhagorol, sy'n debyg i'r llynedd, tra bod hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn dda neu'n rhagorol, sef fymryn yn well na'r llynedd. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, trafodais resymau posibl pam y mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd yn well ar gyfartaledd na'r rheini ar gyfer ysgolion uwchradd. Un o'r prif wahaniaethau rhwng addysg gynradd ac uwchradd yw'r effaith a gaiff arholiadau allanol ar addysg uwchradd. Fe wnaeth trefniadau bandio a chategoreiddio a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn, y rôl 'her' sy'n ofynnol gan y consortia rhanbarthol sydd newydd eu ffurfio, a dangosyddion perfformiad newydd, bob un ohonynt gyfrannu at system atebolrwydd sydd â chysylltiad cryf â chanlyniadau arholiadau. Perygl y dull hwn yw y gall polisi cofrestru ar gyfer arholiadau a'r cyngor a roddir i ddisgyblion ar ba gymwysterau i'w hastudio gael eu gyrru gan bwysau atebolrwydd.

O ganlyniad i'r diwylliant hwn, mae rhai ysgolion uwchradd yn canolbwyntio gormod ar addysgu technegau arholiadau yn hytrach na darparu addysg eang sy'n well i fuddiannau tymor hir dysgwyr. Mae'r ysgolion gorau yn datblygu gwybodaeth, medrau ac agweddau dysgwyr at ddysgu drwy gipio'u diddordeb ac ymrwymiad drwy brofiadau dysgu difyr. Maent yn datblygu hyder dysgwyr fel eu bod yn datblygu'n unigolion cyflawn, yn barod ar gyfer astudiaeth bellach a chyflogaeth, a chyfrannu at gymdeithas, yn ogystal â gwneud yn dda mewn arholiadau. Mae'r ffaith y gall ysgolion sy'n 'addysgu at y prawf' gyflawni llwyddiant cymharol mewn arholiadau yn codi cwestiynau hefyd ynghylch a yw cymwysterau presennol yn archwilio'r medrau cywir, a ph'un a ydynt yn gwobrwyo dealltwriaeth ehangach a meddwl beirniadol dysgwyr yn ddigonol. Nes ymlaen eleni, bydd Estyn yn adrodd ar fanylebau'r arholiadau newydd, gan gynnwys y cymwysterau TGAU a geir yng Nghymru'n unig ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg, yn ogystal ag ar newidiadau i Fagloriaeth Cymru ac i Safon Uwch.

Dros y saith mlynedd diwethaf, bu newidiadau mawr i lywodraethu ac ariannu colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae uno wedi arwain at nifer lai o ddarparwyr mawr. Yn 2010, roedd 22 o sefydliadau addysg bellach a 78 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Erbyn hyn, mae 13 ac 19 o brif ddarparwyr, yn y drefn honno. Yn aml, mae'r timau arweinyddiaeth newydd yn deillio o'r uno hwn wedi elwa ar gryfderau'r sefydliadau cyfansoddol, ac wedi adeiladu ar fanteision y màs critigol mwy a ddarparwyd gan y sefydliadau mawr hyn. O ganlyniad, mae deilliannau arolygu wedi gwella'n gyffredinol yn y sectorau hyn dros y cylch arolygu.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiadau gan yr Athro Hazelkorn a'r Athro Weingarten i ddiben addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn ogystal â chan yr Athro Reid i ddatblygu gweithgarwch ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Dylai cryfhau'r cyswllt rhwng addysg uwch ac addysg bellach helpu dysgwyr Cymru i gael y medrau a'r wybodaeth lefel uwch sydd eu hangen i fodloni anghenion cyflogaeth byd-eang yng nghyd-destun technolegau sy'n newid yn gyflym. Mae polisi ac arfer addysg ar gyfer sectorau ôl-orfodol yn dechrau rhoi ystyriaeth well i ddatblygiadau mewn addysg orfodol (ysgol) hefyd, er enghraifft mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol.

At ei gilydd, mae rhaglen diwygio addysg gydlynol yn bodoli ar gyfer addysg orfodol, sy'n mynd i'r afael â'n prif heriau ac yn osgoi peryglon canlyniadau anfwriadol yn deillio o waith diwygio tameidiog. Mae angen dull cydweithredol a chynhwysol i sicrhau llwyddiant tymor hir, ond mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb mawr ar ysgolion a staff. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r proffesiwn wedi dangos gwydnwch i gynnal perfformiad tra'n derbyn ystod eang o newidiadau. Yn ddiweddar, fe wnaeth Estyn, Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, a chymdeithasau ac undebau proffesiynol weithio gyda'i gilydd i gytuno ar ganllaw baich gwaith[7] ar gyfer athrawon, sy'n cydnabod disgwyliadau cynyddol.

Mae newidiadau i addysg yn genedlaethol yn cynnwys arolygu, a dyna pam y gofynnais i'r Athro Donaldson adolygu canlyniadau diwygio addysg i Estyn. Ym Medi 2017, cyflwynom ddull arolygu newydd gyda'r bwriad o annog mwy o ddeialog gyda staff a dysgwyr, a darparu profiad dysgu proffesiynol cadarnhaol. Hefyd, fe wnaethom fireinio'r fframwaith arolygu fel ei fod yn canolbwyntio ar beth sydd bwysicaf. Bydd Estyn yn parhau i nodi a rhannu arfer dda. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn defnyddio ein harolygiadau, ein hymweliadau dilynol a'n hadolygiadau thematig ar gyfer 2016-2017, ac yn rhoi trosolwg hefyd o'r saith mlynedd diwethaf. Trwy gydol yr adroddiad, ceir dolenni at astudiaethau achos o arfer effeithiol.

Ar bob lefel, mae gwelliant yn dechrau gydag hunanarfarnu gonest a chynllunio gwelliant yn systematig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella ar gyfer pob sector addysg a arolygwn. Mae pennod ar wahân yn ystyried yn fanwl y cynnydd a wnaed gyda mentrau sydd wedi bod yn ganolog i bolisi addysg yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Mae'r bennod hon yn cynnwys cwestiynau hunanarfarnu a fydd, yr wyf yn gobeithio, yn fuddiol i staff a llywodraethwyr.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

[7] https://hwb.gov.wales/resources/resource/e625e664-e86d-4995-9c7c-5c47a3fba954/cy

Darparwyr a arolygwyd yn 2016-2017 y dyfarnwyd barn ragorol iddynt ar gyfer naill ai un neu ddau o'r barnau cyffredinol, sef perfformiad presennol a rhagolygon gwella, neu farn ragorol ar gyfer maes arolygu os cawsant eu harolygu o dan y fframwaith arolygu newydd.

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

| | |
|---|---|
| **Lleoliadau nas cynhelir** | Gofal Plant Gogerddan<br>Blynyddoedd Cynnar Llandogo |
| **Cynradd** | Ysgol Gynradd Parcyrhun<br>Ysgol Gynradd Saron<br>Ysgol Gynradd Bynea<br>Ysgol Gymraeg Casnewydd<br>Ysgol Comins Coch<br>Ysgol Gynradd Parc Hendredenny<br>Ysgol Gynradd Llanrhidian<br>Ysgol Gynradd Palmerston<br>Ysgol Cynwyd Sant<br>Ysgol Bodfeurig<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro<br>Ysgol Pencae<br>Ysgol Gynradd Talysarn<br>Ysgol Gynradd Bontnewydd<br>Ysgol Babanod Ton Pentre<br>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansannor<br>Ysgol Gymraeg Aberystwyth |
| **Uwchradd** | Ysgol Gyfun Bryntirion<br>Ysgol Uwchradd Fitzalan<br>Ysgol Glan-y-Môr<br>Ysgol Gyfun Bryngwyn<br>Ysgol Gyfun Dŵr y Felin<br>Ysgol Gyfun Y Pant |
| **Arbennig a gynhelir** | Ysgol Arbennig Greenfield<br>Ysgol Heol Goffa<br>Ysgol Tŷ Coch<br>Ysgol Arbennig Pen Coch |
| **Annibynnol** | Coleg Unedig y Byd, Coleg Iwerydd Cyf<br>Tŷ Oakleigh<br>Ysgol Rougemont |
| **Darparwyr ôl-16** | Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Sir Benfro |



# Adran: 1



# Cynnydd gyda pholisïau addysg allweddol dros y saith mlynedd diwethaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol, rydym yn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r meysydd allweddol canlynol sydd wedi bod wrth wraidd polisi addysg, yn enwedig ar gyfer ysgolion, dros y saith mlynedd diwethaf.

- Y Cyfnod Sylfaen
- Datblygu medrau llythrennedd
- Datblygu medrau rhifedd
- Datblygu medrau TGCh a medrau digidol ar draws y cwricwlwm
- Mynd i'r afael ag effeithiau anfantais
- Datblygu'r Gymraeg
- Cydweithredu a dysgu rhwng ysgolion
- Gwella arweinyddiaeth

# Y Cyfnod Sylfaen




Mae ymchwil yn awgrymu nad yw plant yn elwa o addysgu ffurfiol eang hyd nes eu bod yn chwech neu saith oed, ac mae fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn mynd ati i ddarparu dull gweithredol a thrwy brofiad o ddysgu. Mae ymagwedd y Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i'r plentyn fod yn ganolog i bob dysgu, ac arwyddocâd lles plant. Mae'n hyrwyddo cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan y plentyn a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a ddylai gael eu cynnal mewn amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored.

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddom nifer o arolygon thematig am lythrennedd, Cymraeg, a dysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen, ac am effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Llythrennedd a'r Cyfnod sylfaen** (Estyn, 2011a)

**Dysgu yn yr awyr agored: arfarniad o ddysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen** (Estyn, 2011b)

**Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir** (Estyn 2013a)

**Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen** (Estyn, 2013b)

**Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir** (Estyn, 2015a)

**Dysgu gweithredd a thrwy brofiad** (Estyn, 2017a)

## Cryfderau

Mewn ysgolion a lleoliadau sydd wedi ymrwymo i arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen, mae plant yn dangos mwy o gymhelliant a mwynhad o'u dysgu. Mae rhyw dri chwarter o ysgolion wedi datblygu mannau dysgu awyr agored defnyddiol. Lle bo modd, mae'r mannau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol ag ystafelloedd dosbarth er mwyn annog symud yn rhydd i'r awyr agored ac i helpu i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion a'u gallu i wneud penderfyniadau. Mae dulliau dysgu gweithredol a'r defnydd o'r amgylchedd dysgu awyr agored yn helpu disgyblion, yn enwedig bechgyn, i ymgysylltu mwy â'u dysgu. Mae'r ysgolion a'r lleoliadau hyn yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda ar draws yr holl feysydd dysgu. Gwnânt hyn mewn modd creadigol a llawn dychymyg, gan wneud y dysgu yn fywiog ac yn hwyl. Er enghraifft, wrth astudio thema dŵr, mae plant yn defnyddio barddoniaeth, drama a cherddoriaeth i blotio cwrs afon gan ddefnyddio geirfa benodol, fel 'ystumio'. Caiff yr ymgysylltu gweithredol hwn effaith gadarnhaol ar eu hysgrifennu, pan fyddant yn barod i ysgrifennu, am eu bod wedi meithrin dealltwriaeth o'r modd y mae afonydd yn datblygu a bod ganddynt eirfa amrywiol i'w defnyddio.

Mae rôl yr oedolyn yn ffactor pwysig wrth wneud yn siŵr bod plant yn datblygu medrau yn y Cyfnod Sylfaen sy'n eu paratoi i fod yn ddysgwyr llwyddiannus yn y dyfodol. Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae arweinwyr ysgol a'u staff yn deall natur eu rôl yn llwyr, mae plant yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau annibynnol ac wrth ddod yn ddysgwyr ystyriol, gwydn a chwilfrydig. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae staff yn gweithredu fel hwyluswyr sy'n cynorthwyo plant gyda'u dysgu, ond heb or-reoli. Maent yn gwybod pa bryd i ymyrryd er mwyn dwyn y dysgu yn ei flaen, a pha bryd i sefyll yn ôl. Defnyddiant fedrau holi effeithiol i ymestyn y dysgu ac i ddatblygu medrau meddwl plant. Maent yn annog plant i ddatrys problemau eu hunain ac i gymryd risgiau yn eu dysgu. Gwnânt yn siŵr bod cydbwysedd priodol rhwng tasgau wedi'u hysgogi gan y plentyn a thasgau dan gyfarwyddyd oedolyn, a bod y dysgu'n digwydd drwy brofiadau uniongyrchol, dan do ac yn yr awyr agored.

Galluogodd Grant Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gynnig hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen i leoliadau nas cynhelir, a chymorth gan athro cymwys am 10% o'r amser y maent yn gweithredu. Fe wnaeth y cymorth hwn helpu staff lleoliadau i ymgyfarwyddo ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen a gwella eu darpariaeth. Mae'r trefniant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd a rhifedd mewn lleoliadau nas cynhelir er 2010. Yn ddiweddar, bu newidiadau i'r cyllid ac, er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod y cyllid yn dal i gael ei ddefnyddio i gynorthwyo ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau, mae ymglymiad athrawon cymwys yng ngwaith lleoliadau wedi lleihau.

**Ysgol Feithrin Brynteg**

Trwy ganolbwyntio ar lythrennedd disgyblion o oed ifanc, mae athrawon ym Meithrinfa Brynteg yn sicrhau y daw dysgwyr yn siaradwyr ac ysgrifenwyr hyderus.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

## Meysydd i'w gwella

At ei gilydd, mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn anghyson ar draws ysgolion, a rhwng ysgolion a lleoliadau. Ar y cychwyn, fe wnaeth bron pob ysgol groesawu'r Cyfnod Sylfaen ac aeth y rhan fwyaf ohonynt ati i ad-drefnu eu dosbarthiadau meithrin a derbyn yn effeithiol er mwyn hwyluso cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Er bod ymrwymiad cadarn yn gyffredinol i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae ffurfioldeb wedi cynyddu'n fwy diweddar.

Mae rhyw chwarter o ysgolion yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn dda. Mewn rhyw dri chwarter o ysgolion, nid yw penaethiaid yn llwyr ddeall egwyddorion ac addysgeg arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen. Nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod y cyflwyno'n canolbwyntio ar ddysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad. O ganlyniad, nid yw llawer o blant yn datblygu medrau gweithio annibynnol da. Maent yn gorddibynnu ar gymorth oedolion ac yn bryderus ynghylch gwneud camgymeriadau a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Mewn tua un o bob deg ysgol, mae'n ymddangos bod plant yn gallu ysgrifennu'n gywir, ond mae hyn oherwydd bod oedolion yn 'sgaffaldio' eu gwaith yn drwm, ac nid yw disgyblion yn gallu ysgrifennu i'r un lefel ar eu pennau'u hunain, na siarad yn wybodus am eu gwaith. Mewn llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, nid oes adnoddau ar gael bob amser i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion arbrofi gyda'u dysgu a defnyddio medrau yn annibynnol. Nid yw'r diffyg 'darpariaeth barhaus' hwn yn caniatáu i blant ymarfer medrau y maen nhw'n dechrau eu datblygu nac yn caniatáu iddynt edrych eto ar ddysgu blaenorol.

**Darpariaeth Barhaus:** Mae'r term hwn yn cyfeirio at adnoddau sydd ar gael yn barhaus i ddisgyblion eu defnyddio'n annibynnol yn yr ystafell ddosbarth dan do a'r ystafell ddosbarth awyr agored. Dylai'r adnoddau gyfateb i ddiddordebau'r disgyblion a'u cyfnod datblygu cyffredinol, a rhoi'r cyfle iddynt ymarfer, cyfnerthu ac ymestyn eu dysgu. Yn gyffredinol, mae athrawon yn neilltuo rhannau o'r ystafell ddosbarth i gefnogi meysydd dysgu gwahanol, fel chwarae rôl, adeiladu, darllen a datblygiad creadigol. Mae ysgolion yn cyfeirio at yr ardaloedd hyn fel darpariaeth barhaus. Lle mae disgyblion yn dewis yn rhydd yr ardal maent am weithio ynddi, a beth maent am wneud yno, gelwir hyn yn 'ddysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn'.

Canfu rhyw dri chwarter o ysgolion fod addasu eu hymarfer a'u darpariaeth yn fwy heriol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Er bod y rhan fwyaf wedi rhoi cynnig ar ddulliau dysgu gweithredol a dulliau dysgu drwy brofiad yn y lle cyntaf, mae llawer ohonynt wedi mynd yn ôl at ddulliau sy'n fwy ffurfiol bellach. Mae graddau'r ffurfioldeb yn amrywio o lythrennedd a rhifedd rhagnodedig ac ar wahân am sawl bore'r wythnos, i gywasgu cyfleoedd dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad i un prynhawn yr wythnos. Fe wnaeth dychwelyd fel hyn i arferion blaenorol gyflymu ar ôl cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac yn enwedig ar ôl dyfodiad profion cenedlaethol ar gyfer darllen a rhifedd.

Mewn llawer o ddosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, nid oes fawr o ddarpariaeth barhaus, neu nid oes darpariaeth barhaus o gwbl, ac nid oes gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'i buddion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r rhan fwyaf o blant yn gweithio'n oddefol gydag oedolion, a dim ond ychydig ohonynt sy'n dysgu'n annibynnol ar unrhyw un adeg. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn cyflwyno dysgu â ffocws i grwpiau o blant. Dim ond yn achlysurol y maent yn rhyngweithio gyda phlant sy'n ymwneud â thasgau wedi'u hysgogi gan y plentyn i ymestyn eu dysgu neu i herio'u meddwl. Nid yw plant yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i weithio yn yr awyr agored. Mae systemau i asesu disgyblion yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, ac nid ydynt yn helpu staff i nodi'r camau nesaf y mae angen i ddisgyblion eu cymryd yn eu dysgu.

## Cwestiynau i ddarparwyr

- Pa mor dda y mae pob un o'n staff yn deall arfer dda y Cyfnod Sylfaen?
- Pa mor dda ydyn ni'n coleddu addysgeg y Cyfnod Sylfaen ac yn sicrhau cyflwyno llwyddiannus ym mhob dosbarth y Cyfnod Sylfaen?
- A yw staff yn defnyddio dysgu gweithredol yn dda i ysgogi'r holl blant yn y Cyfnod Sylfaen a'u cymell i ddysgu?
- A oes cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau parhaus, gweithgareddau uwch a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn, neu a yw gweithgareddau dan gyfarwyddyd yn gor-reoli?
- A yw profiadau dysgu yn gyffrous ac yn hwyl?
- A yw staff yn cyflwyno sesiynau llythrennedd a rhifedd yn unol ag arfer dda y Cyfnod Sylfaen?
- A yw plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu'u medrau mewn ardaloedd awyr agored ar draws yr holl feysydd dysgu?
- A ydyn ni'n arfarnu pa mor dda y mae athrawon yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ansawdd y dysgu?

## Cwestiynau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

- Pa mor dda ydyn ni'n cynorthwyo datblygu arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn arfarnu effaith y cymorth a ddarparwn?
- A oes gan ein sefydliad y wybodaeth a'r arbenigedd i gynorthwyo arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen?

# Datblygu medrau llythrennedd




Mae medrau llythrennedd da yn hanfodol i sicrhau y gall pobl ifanc gyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Mae angen medrau llythrennedd wedi'u datblygu'n dda ar ddisgyblion er mwyn manteisio'n llwyddiannus ar y cwricwlwm cyfan. Mae gwella medrau llythrennedd disgyblion wedi bod yn flaenoriaeth yng Nghymru trwy gydol cylch arolygu 2010-2017.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion i godi safonau llythrennedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau dros y saith mlynedd diwethaf. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys maes dysgu iaith, llythrennedd a chyfathrebu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a), a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013a). Yn ogystal, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Brofion Darllen Cenedlaethol i ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn 2013, a chyrsiau TGAU newydd ar gyfer Saesneg a Chymraeg ym Medi 2015.

Mae Estyn wedi adrodd ar safonau a darpariaeth mewn llythrennedd ym mhob arolygiad ers 2010.

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddom nifer o arolygon thematig am lythrennedd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen** (Estyn, 2011a)
**Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion** (Estyn, 2012a)
**Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3** (Estyn, 2012b)
**Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim** (Estyn, 2015b)

## Cryfderau

Dros y cylch arolygu hwn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi gwella ac, yn gyffredinol, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig llafaredd a darllen. Rhoddir arfarniad o safonau mewn llythrennedd yn adrannau sector yr adroddiad hwn. Yn 2010, dim ond dwy o bob pum ysgol gynradd, ac un o bob wyth ysgol uwchradd, wnaeth gynllunio'n systematig i ddatblygu darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Erbyn 2017, roedd hyn wedi cynyddu i ryw saith o bob deg ysgol gynradd ac uwchradd.

Yn yr ysgolion gwell, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn flaenoriaeth allweddol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn ysgogi ac yn cefnogi dull cydlynus a chyson o ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod athrawon a staff cymorth yn manteisio ar ddysgu proffesiynol sy'n eu helpu i gael dealltwriaeth gadarn o sut i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol, o flwyddyn i flwyddyn. Defnyddiant strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a medrau llafar disgyblion, ac maent yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, ceir llawer o brofiadau dysgu dychmygus i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd mewn sefyllfaoedd go iawn perthnasol a chymhellol. Mae arweinwyr ac athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus, a lle bo'n briodol, maent yn rhoi strategaethau a rhaglenni ymyrryd targedig ar waith i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn caffael medrau llythrennedd da iawn ac yn cymhwyso'r rhain yn hyderus ar lefel gyson uchel ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Un nodwedd nodedig mewn ysgolion sy'n llwyddiannus o ran codi safonau mewn llythrennedd yw pwyslais ar weithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda rhieni, y gymuned leol a gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, mae'r ysgolion yn cynnig gweithdai sy'n datblygu dealltwriaeth rhieni o ddull yr ysgol o addysgu llythrennedd. Mae hyn yn galluogi rhieni i gynorthwyo dysgu'u plant gartref, a chaiff effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion. Gwelir y dull hwn yn amlach mewn ysgolion cynradd yn hytrach nag ysgolion uwchradd.

## Meysydd i'w gwella

Mae safon ysgrifennu disgyblion mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau'n wannach nag agweddau eraill ar eu llythrennedd. Mewn rhai ysgolion, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig neu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mewn ysgolion eraill, mae sillafu ac atalnodi gwan, a chamgymeriadau esgeulus, yn parhau'n nodwedd o waith disgyblion am nad ydynt yn cael eu hannog i brawfddarllen eu gwaith er mwyn gwella ei gynnwys a'i gywirdeb.

### Ysgol Cynwyd Sant

Mae **Ysgol Cynwyd Sant** yn cynllunio gweithgareddau dysgu creadigol cyffrous i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch **yr astudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Uwchradd Fitzalan

Mae'r cwricwlwm yn **Ysgol Uwchradd Fitzalan** wedi'i deilwra yn unol â photensial, cynnydd a gallu pob dysgwr. Mae natur hyblyg y cwricwlwm yn golygu y gall staff ymateb i anghenion dysgwyr trwy gydol y flwyddyn.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **astudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Mewn tair o bob deg ysgol, nid yw arweinwyr ac athrawon yn cydlynu strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn dda. O ganlyniad, nid yw'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cynyddol, wedi'u cynllunio i ddisgyblion ddatblygu ac ehangu'u medrau. Hefyd, mae'r ysgolion hyn yn tueddu i beidio â chynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Er enghraifft, nid ydynt yn darparu digon o her i alluogi disgyblion mwy abl i gyrraedd eu potensial. Mewn ysgolion eraill, er bod cynlluniau ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, nid yw athrawon yn gweithredu'r rhain yn ddigon da yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, ychydig o effaith a gaiff y cynlluniau o ran codi cyrhaeddiad llythrennedd disgyblion, neu ddim effaith o gwbl. Mae codi safonau mewn llythrennedd yn parhau'n flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ysgolion.

## Cwestiynau i ddarparwyr:

- A oes strategaeth ysgol gyfan a ddeellir yn glir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm ac o flwyddyn i flwyddyn?
- A yw ein huwch arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i wella medrau llythrennedd disgyblion?
- Pa mor dda ydyn ni'n cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy ddull sy'n integreiddio gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu?
- A yw ein cynlluniau cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'u medrau llythrennedd mewn cyd-destunau ystyrlon, go iawn ar draws y cwricwlwm?
- Pa mor dda ydyn ni'n sicrhau dilyniant wrth i ddisgyblion gaffael medrau llythrennedd?
- A oes cyfleoedd gwerthchweil ar gyfer dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau y gall pob aelod o staff addysgu llythrennedd yn dda?
- A ydyn ni'n cefnogi rhieni i'w galluogi i helpu eu plant gaffael medrau llythrennedd da?
- Pa mor dda ydyn ni'n cefnogi pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai y mae angen help ychwanegol arnynt, i ddatblygu medrau llythrennedd da?

# Datblygu medrau rhifedd



Mae rhifedd yn un o fedrau hanfodol bywyd sy'n galluogi dysgwyr i gymhwyso ffeithiau, medrau a rhesymu rhifiadol i broblemau go iawn. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwella medrau rhifedd disgyblion yn flaenoriaeth allweddol wrth gyflwyno nifer o fentrau a datblygiadau fel: datblygiad mathemategol fel un o'r saith maes dysgu a gyflwynwyd yn y Cyfnod Sylfaen (2010), y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013a) Profion Rhifedd Cenedlaethol i ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 (Llywodraeth Cymru, 2013a), dau gwrs TGAU newydd (mathemateg a mathemateg-rhifedd) (2015), a sefydlu'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg yn 2016.

Mae Estyn wedi adrodd ar safonau a darpariaeth ar gyfer rhifedd ym mhob arolygiad er 2013. Yn flaenorol, roeddem yn adrodd drwy eithriad.

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddom ddau arolygiad thematig ar rifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, a dau ar fathemateg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin**
(Estyn, 2013c)
**Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: adroddiad interim**
(Estyn, 2014a)
**Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4** (Estyn, 2015c)
**Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3** (Estyn, 2015d)

## Cryfderau

Dros gylch arolygu 2010-2017, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd wedi gwella'n gyffredinol mewn ysgolion, yn enwedig ers cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013a). Tuag at ddiwedd y cylch, mewn dwy ran o dair o ysgolion cynradd a dwy ran o bump o ysgolion uwchradd, mae'r ddarpariaeth i helpu i sicrhau bod disgyblion yn defnyddio ac yn adeiladu ar eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda neu'n well. Rhoddir arfarniad o safonau mewn rhifedd yn adrannau sector yr adroddiad hwn.

Mewn ysgolion uchel eu perfformiad, mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio ysgol gyfan i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion yn systematig wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn sicrhau bod strategaethau i ddatblygu rhifedd yn nodwedd gadarn yng nghynlluniau gwella'r ysgol ac adrannau, ac maent yn dyrannu amser, hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi datblygu rhifedd. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r agweddau rhifedd ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013a) i gynhyrchu eu systemau eu hunain ar gyfer datblygu a monitro cynnydd disgyblion. Gwnânt yn siŵr bod disgyblion yn meistroli medrau rhif sylfaenol yn drwyadl yn eu sesiynau mathemateg, ac mae ganddynt strategaethau effeithiol i gofio ffeithiau rhif hanfodol yn gyflym a chywir. Maent yn addasu cynlluniau gwaith fel bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'r medrau rhifedd y maent wedi'u dysgu mewn sesiynau mathemateg i ystod o gyd-destunau go iawn a heriol ar draws y cwricwlwm.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae gan ysgolion drefniadau cadarn i sicrhau dilyniant wrth ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws dosbarthiadau a chyfnodau allweddol, a rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd. Mae'r ysgolion hyn yn mynd ati'n rheolaidd i arfarnu pob agwedd ar eu gwaith rhifedd, a cheir tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Hefyd, mae'r trefniadau hunanarfarnu hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata profion a deilliannau rhaglenni dal i fyny i gefnogi disgyblion â medrau rhifedd gwannach. Defnyddir y wybodaeth hon i nodi cyfyngiadau cyffredin mewn medrau rhifedd disgyblion a chamddealltwriaethau cyffredin disgyblion ar draws yr ysgol, a rhennir y rhain gyda staff er mwyn helpu i gynllunio gwersi.

Mae arweinwyr mewn ysgolion llwyddiannus yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i staff addysgu a staff cymorth i ddatblygu'u gwybodaeth, eu medrau a'u hyder i wella medrau rhifedd disgyblion. Lle bo'n briodol, mae'r cyfleoedd dysgu hefyd yn cynnwys gwella medrau a dealltwriaeth fathemategol staff. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhannu arfer dda ac yn trafod a chytuno methodolegau cyson y byddant yn eu defnyddio ar gyfer rhifedd ar draws yr ysgol. Hefyd, mae ganddynt berthnasoedd gweithio gwerthfawr rhwng ysgolion cynradd clwstwr a'u hysgol uwchradd partner. Mae'r ysgolion lleol hyn yn cyfranogi mewn gweithgareddau ar y cyd, fel rhannu'u profiadau a'u syniadau am strategaethau addysgu effeithiol ar gyfer cyfrifiadau pen ac ysgrifenedig. Mae'r math hwn o gydweithio yn helpu i gefnogi cysondeb a dilyniant mewn medrau rhifedd disgyblion wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Gan weithio o fewn ysgolion a rhyngddynt, mae'r cydlynwyr rhifedd mwyaf gwybodus a brwdfrydig yn aml yn cynhyrchu adnoddau "sut i wneud" ar gyfer staff i gynorthwyo eu cynllunio unigol. Mae'r lefel hon o gymorth yn helpu pob aelod o staff i ddeall eu rôl ac i fod yn glir ynghylch sut gallant gyfrannu at ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Mae'n arwain at ddull mwy cyson gydag addysgu prosesau rhifiadol, ac mae'n helpu i ddatblygu hyder a rhuglder rhifiadol disgyblion.

### Ysgol San Sior

Yn **Ysgol San Sior**, mae fferm yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu sy'n datblygu dysgwyr annibynnol ac yn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

### Ysgol Gynradd Oldcastle, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae ymyrraeth fathemateg **Ysgol Gynradd Oldcastle** wedi trawsnewid y pwnc i'r dysgwyr is eu cyflawniad ac wedi codi safonau i bawb. Yr ysgol hefyd yw'r ysgol gyntaf yng Nghymru i ddefnyddio system newydd i gynorthwyo therapi iaith a lleferydd disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

## Meysydd i'w gwella

Mewn rhyw draean o ysgolion cynradd a thair rhan o bump o ysgolion uwchradd, ceir diffygion yn y modd y mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer a sicrhau bod disgyblion yn defnyddio ac yn datblygu'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cynllunio yn arwynebol ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu a defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau go iawn ar draws y cwricwlwm. Fel arfer, nid yw rhaglenni ymyrraeth i gynorthwyo disgyblion sy'n cael yr anawsterau mwyaf gyda rhifedd yn cael eu monitro na'u harfarnu yn ddigon da, ac nid yw disgyblion mwy galluog yn cael eu herio.

Lle ceir diffygion yn ansawdd yr addysgu i ddatblygu rhifedd, mae hyn yn aml oherwydd nad yw'r wybodaeth fathemategol a'r hyder gan athrawon i fynd i'r afael â chamddealltwriaethau disgyblion. Ym mhob ysgol, lle ceir diffyg gwybodaeth fathemategol berthnasol ymhlith athrawon i ddatblygu rhifedd disgyblion yn effeithiol, cynnydd cyfyngedig a wneir gan ddisgyblion, ac mewn ychydig o achosion maent yn drysu mwy.

Er bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn darpariaeth ac wrth ddatblygu rhifedd disgyblion dros y cylch arolygu hwn, mae codi safonau mewn rhifedd yn parhau'n flaenoriaeth.

## Cwestiynau i ddarparwyr:

- Pa mor dda ydyn ni'n sicrhau bod disgyblion yn meistroli medrau rhif pwysig yn eu sesiynau mathemateg?
- A ydyn ni'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer dull cyffredin, parhad a dilyniant wrth ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm?
- Pa mor llwyddiannus yw'r cysylltiadau rhwng ein cydlynwyr rhifedd ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ac adrannau mathemateg ysgolion uwchradd o ran sicrhau parhad a dilyniant mewn rhifedd disgyblion?
- A oes digon o gyfleoedd addas a heriol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau datrys problemau a'u medrau rhesymu rhifiadol mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm?
- Pa mor effeithiol yw ein huwch arweinwyr o ran cynllunio i godi safonau rhifedd mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm?
- A yw systemau i olrhain cynnydd medrau rhifedd disgyblion yn ddibynadwy ac a yw athrawon yn eu defnyddio'n effeithiol at ddibenion cynllunio, yn enwedig i ddisgyblion sy'n gysylltiedig â rhaglenni ymyrraeth?
- A ydyn ni fel arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn ddigon trwyadl?
- A yw gweithdrefnau ar gyfer arfarnu strategaethau rhifedd yn gadarn, ac a ydynt yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwelliant?

### Ysgol Uwchradd Elfed

Mae **Ysgol Uwchradd Elfed** wedi creu swyddi Cyfarwyddwyr Dysgu ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, ac i gynorthwyo staff i atgyfnerthu'r rhain ar draws y cwricwlwm. Bellach, ceir mwy o hyder o ran cynllunio a chyflwyno gweithgareddau effeithiol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

# Datblygu medrau TGCh a medrau digidol ar draws y cwricwlwm




Mae gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi bod yn nod i ysgolion ers cyhoeddi'r 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' yn 2008 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b). Datblygwyd y fframwaith gyda'r nod o ddarparu arweiniad ynglŷn â pharhad a dilyniant mewn meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr o 3 i 19 oed a thu hwnt. Nodwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru fel medrau y mae angen eu hymgorffori ym mhrofiad dysgwyr ar draws eu holl ddysgu. Daeth llythrennedd a rhifedd yn statudol drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013a), ond parhaodd TGCh yn anstatudol ac roedd llawer o ysgolion yn ei hystyried yn llai o flaenoriaeth.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer 'Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes', (Llywodraeth Cymru, 2015), datblygwyd fframwaith cymhwysedd digidol (FfCD) yn ystod 2015-2016. Mae'r FfCD yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau digidol y gellir eu cymhwyso i ystod eang o bynciau a senarios. Ers Medi 2016, bu disgwyl i ysgolion a lleoliadau ymgyfarwyddo â'r FfCD a chynllunio ar gyfer ei roi ar waith. Mae'r cyfnod cynllunio yn cynnwys pennu'r weledigaeth gan uwch arweinwyr, adolygu'r medrau sydd eu hangen ar yr holl staff, trefnu hyfforddiant a'i gyflwyno er mwyn datblygu mwy o ddealltwriaeth a hyder.

Mae Estyn wedi adrodd ar safonau a darpariaeth ar gyfer TGCh ym mhob arolygiad er 2016. Yn flaenorol, roeddem yn adrodd drwy eithriad.

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddom ddau adroddiad thematig ar TGCh.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd** (Estyn, 2013d)
**TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd** (Estyn, 2014b)

## Cryfderau

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni TGCh sylfaenol, fel ar gyfer prosesu geiriau ac i greu cyflwyniadau, ar draws y cwricwlwm. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd ac mewn mwyafrif o ysgolion cynradd, mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant mewn medrau TGCh disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn yr ysgolion sy'n defnyddio TGCh yn dda, caiff hyn effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu drwy gymell ac ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i ennyn brwdfrydedd disgyblion ac i godi'u hunan-barch. Mae'r athrawon yn cydnabod gwerth TGCh i ysbrydoli disgyblion a gwella eu dealltwriaeth, yn ogystal â'r potensial sydd gan TGCh i helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau dysgu annibynnol. Mae'r diwylliant cadarnhaol hwn yn helpu disgyblion i ddod yn grewyr digidol gweithgar yn ogystal â defnyddwyr cymwys.

Mewn ysgolion sydd wedi creu amodau'n llwyddiannus lle caiff dysgu digidol ei ymgorffori'n llawn mewn pynciau a thestunau ar draws y cwricwlwm, mae gan arweinwyr ar draws yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer TGCh a phenderfyniad i fanteisio ar ei photensial. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn gwneud datblygiadau mewn TGCh yn flaenoriaeth ysgol gyfan er mwyn galluogi disgyblion i gyfathrebu'n effeithiol a chydweithio'n ehangach, gan gynnwys ar raddfa fyd-eang, ac i ddatblygu'u creadigrwydd. Yn ogystal, maent yn cynorthwyo athrawon i ddefnyddio offer TGCh yn well i gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr, ac i roi mynediad i ddisgyblion i gyd-destunau digidol ystyrlon ar draws ystod o bynciau a fydd yn annog dysgu annibynnol.

Mae'r ysgolion hyn wedi dysgu am beth sy'n gweithio'n dda o'u profiad nhw o roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith (Llywodraeth Cymru, 2013a). Maent wedi archwilio'u darpariaeth TGCh, a medrau staff, ei fapio yn erbyn y FfCD i nodi unrhyw fylchau, ac wedi cysoni'u cynlluniau gwaith â'r Fframwaith. Maent wedi targedu adnoddau yn ofalus, gyda ffocws cryf ar ddatblygu arbenigedd staff. Maent yn galluogi disgyblion i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth ddigidol a defnyddio'u gwybodaeth i gynorthwyo dysgu staff, yn ogystal â'u cyfoedion. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu ysgolion i ddod yn gymunedau dysgu lle cynyddir gwybodaeth broffesiynol athrawon a'u galluogi i ddefnyddio'u medrau digidol eu hunain i wella'r addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

## Meysydd i'w gwella

Er gwaethaf datblygiadau sylweddol mewn technoleg dros y cylch arolygu, nid yw cynnydd disgyblion mewn TGCh wedi datblygu ar yr un gyfradd. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn dda ar draws y cwricwlwm, ac yn aml mae eu medrau TGCh wedi'u cyfyngu i ystod gul o gymwysiadau.

Mae'r cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig mewn llawer o ysgolion uwchradd a thraean o ysgolion cynradd. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg gwybodaeth a hyder ymhlith athrawon. Nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh yn gynyddol yn cael eu cynllunio'n ddigonol, ac mae diffyg gweledigaeth glir ynglŷn â TGCh gan uwch arweinwyr. O ganlyniad, nid yw'r ysgolion hyn yn darparu cyd-destunau perthnasol i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm i gymhwyso'r medrau y maent yn eu datblygu mewn gwersi TGCh.

Mae disgwyliadau'r FfCD ar gyfer ysgolion gryn dipyn yn uwch nag ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm ar hyn o bryd, ac eto nid oes digon o ysgolion cynradd neu uwchradd wedi cynnal archwiliadau o ba mor dda y caiff TGCh ei datblygu ar draws eu cwricwlwm. Nid yw ysgolion ychwaith wedi archwilio cymhwysedd digidol staff, fel eu bod yn gallu cynllunio hyfforddiant i sicrhau bod y wybodaeth a'r hyder ganddynt i gyflwyno'r FfCD.

Ar hyn o bryd, nid yw canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn rhoi'r medrau sydd eu hangen ar athrawon dan hyfforddiant i gyflwyno'r ehangder a'r ystod o TGCh a fynnir gan ysgolion. Y meysydd TGCh gwannaf mewn ysgolion, fel defnyddio cronfeydd data a thaenlenni, yw'r meysydd hefyd yr ymdrinnir â nhw waethaf mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon.


## Cwestiynau i ddarparwyr:

- A oes gan uwch arweinwyr ddigon o ddealltwriaeth o'r FfCD a digon o ymrwymiad iddo? Pa mor dda y mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei gyfleu i'r holl staff?
- A ydyn ni wedi nodi aelod o staff i arwain a chefnogi gweithredu'r FfCD? A yw'r medrau a'r profiad angenrheidiol gan yr aelod staff hwn?
- A ydyn ni wedi cynnal archwiliad o'r canlynol:
    - cymhwysedd staff yn erbyn y FfCD er mwyn nodi anghenion hyfforddi?
    - cyfleoedd a ddarperir i gymhwyso medrau digidol yn ystyrlon ar draws y cwricwlwm presennol ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n datblygu?
    - seilwaith yr ysgol (cyflymder y rhyngrwyd a gallu Wi-Fi) a chaledwedd i fesur p'un a ydynt yn ddigonol ar gyfer y FfCD?
- A oes gennym gynllun tair blynedd gyda chostau ynghlwm ar gyfer rhoi'r FfCD ar waith sy'n cynnwys:
    - hyfforddiant staff, yn dilyn archwiliad trwyadl o'u gofynion hyfforddi unigol?
    - nodi disgyblion fel hyfforddwyr a'u hyfforddi, fel y bo'n briodol?
    - sicrhau bod y seilwaith a'r galedwedd yn addas i'r diben?

## Cwestiynau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

- A ydyn ni'n darparu digon o hyfforddiant i staff ysgolion ar y FfCD a sut i'w roi ar waith mewn ystafelloedd dosbarth?
- Pa gyngor a chymorth gallwn ni eu darparu i ysgolion wrth gynnal archwiliadau o gymhwysedd staff, seilwaith, caledwedd a'u cwricwlwm?

# Mynd i'r afael ag effeithiau anfantais



Dros y saith mlynedd diwethaf, mae lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wedi bod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Mae wedi ariannu nifer o fentrau a strategaethau i wella cyrhaeddiad a lles dysgwyr, fel y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a'r grant datblygu disgyblion. Nod datblygiadau eraill yn ystod y cyfnod hwn, sy'n cynnwys cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013a), yw gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn tlodi fel rhan o'r ddarpariaeth i bob disgybl.

Mae Estyn wedi arfarnu safonau, cynnydd a lles dysgwyr sy'n byw mewn tlodi ym mhob arolygiad er 2010, ac effeithiolrwydd y grant datblygu disgyblion er 2014(1).

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddom gyfres o adroddiadau thematig ar yr agwedd hon ar waith ysgolion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill** (Estyn, 2011c)
**Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion** (Estyn 2012c)
**Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol** (Estyn, 2013e)
**Difreintedd disgyblion** (Estyn, 2014c)


## Cryfderau

At ei gilydd, mae ysgolion ledled Cymru yn rhoi ffocws cryfach erbyn hyn ar leihau effaith tlodi nag ar ddechrau'r cylch arolygu. Mae'r gwaith hwn yn gwella deilliannau'n raddol i ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ym mhob cyfnod addysg. Er enghraifft, fe wnaeth cyfran y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a gyflawnodd bum gradd A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg gynyddu o flwyddyn i flwyddyn o 22% yn 2011 i bron i 36% yn 2016, er bod canlyniadau yn 2017 yn is, yn disgyn i 29%. Roedd y canlyniadau ar gyfer disgyblion nad oeddent yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is hefyd yn 2017 nag yn 2016 (Llywodraeth Cymru, 2017g).

Mae cyrhaeddiad a lles disgyblion difreintiedig ar eu cryfaf mewn ysgolion sy'n mynd i'r afael ag effaith tlodi gyda dyfalbarhad a dycnwch dros y tymor hir. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio tlodi fel esgus ar gyfer tangyrhaeddiad, ond yn hytrach mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion a staff ym mhob agwedd ar eu gwaith. Gwna arweinwyr yn siŵr bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu'n well i'r holl ddisgyblion. Mae ychydig o ysgolion yn teilwra'r cwricwlwm a chymorth i fodloni anghenion unigol dysgwyr difreintiedig yn arbennig o dda, ac mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd cadarn.

Yn ystod y cylch arolygu presennol, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella'n gyflymach na phresenoldeb disgyblion eraill mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2017e; Llywodraeth Cymru, 2017i).

**Ffigur 1.1:**
Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (PYDd)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017e, 2017i)

### Ysgol Uwchradd Fitzalan

Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn gryfder sylweddol yn **Ysgol Uwchradd Fitzalan**. Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn eithriadol o dda. Caiff hyn effaith sylweddol ar safonau a lles disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Bynea

Arweiniodd disgyblion yn **Ysgol Gynradd Bynea** brosiect i ddatblygu pentref dysgu awyr agored. Datblygodd dysgwyr amrywiaeth o fedrau, o ddylunio modelau pensaernïol i gyllidebu a gosod archebion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o swyddogion lles addysg ac yn gweithio'n dda â rhieni i bwysleisio pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn datblygu cynlluniau gwobrau defnyddiol i ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, mae diwylliant yr ysgol yn meithrin gwydnwch ymhlith dysgwyr ac mae'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn ddifyr a deniadol.

Mae ysgolion llwyddiannus yn ymyrryd yn gynnar, a hyd yn oed cyn i blentyn ymuno â'r ysgol mewn ychydig o achosion, i ddarparu cymorth amserol ac effeithiol, gan gynnwys hynny a ddarperir gan bartneriaid fel Dechrau'n Deg. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn strategol i wella eu darpariaeth. Er enghraifft, maent yn cyflogi staff i arwain a chydlynu pob agwedd ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion difreintiedig ac yn arfarnu effaith eu gweithredoedd, fel eu bod yn gwybod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.

Mae arweinwyr llwyddiannus yn deall na all ysgolion ar eu pennau'u hunain oresgyn yr holl heriau a ddaw yn sgil tlodi ac anfantais gymdeithasol. Gweithiant yn galed i feithrin perthnasoedd â rhieni, y gymuned leol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion disgyblion a'u teuluoedd. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn ar gyfer gweithio gyda theuluoedd a chymunedau lleol yn gryfach mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd.

## Meysydd i'w gwella

Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae angen codi safonau o hyd ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion am nad yw plant sy'n byw mewn tlodi yn cyflawni gystal â'u cyfoedion o hyd. Er enghraifft, nid yw'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac eraill wedi lleihau rhyw lawer ar gyfer y gyfran sy'n cyflawni pum gradd A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

### Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville

Mae **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville** wedi datblygu partneriaethau â busnesau lleol a mudiadau cymunedol i gynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cynyddu dyheadau disgyblion a rhieni.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**


### Ysgol Gynradd Talysarn

Mae **Ysgol Gynradd Talysarn** wedi helpu rhieni i oresgyn rhwystrau o ran cefnogi dysgu eu plant. Mae prosiect arall wedi datblygu medrau dwyieithog disgyblion a'u rhieni.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 1.2:**
Canran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn ôl cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim 2011-2017




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017g)

Eto, er gwaethaf rhai gwelliannau, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn bryder ym mhob cyfnod. Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 25% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 yn mynychu am lai na 90% o'r amser (9% o ddisgyblion eraill) a dim ond 45% sy'n mynychu am 95% neu fwy (65% o ddisgyblion eraill) (Llywodraeth Cymru, 2017e). Erbyn cyfnod allweddol 4, mewn ysgolion uwchradd, mae gan ryw 40% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim bresenoldeb o lai na 90% (16% o ddisgyblion eraill) a dim ond 35% sy'n mynychu am 95% neu fwy o'r amser (60% o ddisgyblion eraill) (Llywodraeth Cymru, 2017i). Ni fydd ysgolion yn llwyddo i leihau'r bwlch perfformiad hyd nes bod y sefyllfa hon yn gwella.

| | Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim | Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim |
|---|---|---|
| **Cyfnod allweddol 2 (cynradd)** | Mae 25% yn mynychu am lai na 90% o'r amser (cyfwerth â cholli dros 2 dymor ysgol gynradd)<br><br>Mae 45% yn mynychu 95% neu fwy (cyfwerth â thros 1 tymor ysgol gynradd) | Mae 9% o ddisgyblion yn colli llai na 90%<br><br>Mae 65% yn mynychu 95% neu fwy |
| **Cyfnod allweddol 4 (uwchradd)** | Mae cyfradd presenoldeb 40% yn llai na 90%<br><br>Mae 35% yn mynychu am 95% o'r amser neu fwy | Mae cyfradd presenoldeb 16% yn llai na 90%<br><br>Mae 60% yn mynychu am 95% o'r amser neu fwy |

Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn destun pryder ym mhob sector. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae tua 25% o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 yn mynychu am lai na 90% o'r amser (9% ar gyfer disgyblion eraill) a 45% o ddisgyblion yn unig sy'n mynychu am 95% neu fwy (65% ar gyfer disgyblion eraill) (Llywodraeth Cymru, 2017e).

Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfradd presenoldeb tua 40% o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn llai na 90% (16% ar gyfer disgyblion eraill) a 35% o ddisgyblion yn unig sy'n mynychu am 95% neu fwy o'r amser (60% ar gyfer disgyblion eraill). Mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn llwyddo i leihau'r bwlch mewn perfformiad oni bai fod y sefyllfa hon yn gwella (Llywodraeth Cymru, 2017i).

**Ffigur 1.3: Presenoldeb dros un flwyddyn ysgol**

**Presenoldeb 98% = 4 diwrnod yn absennol o'r ysgol**

**Presenoldeb 95% = 10 diwrnod yn absennol o'r ysgol**

**Presenoldeb 90% = 4 wythnos yn absennol o'r ysgol**

**Presenoldeb 85% = 5½ wythnos yn absennol o'r ysgol**

**Presenoldeb 80% = 7½ wythnos yn absennol o'r ysgol**

**Ffigur 1.4: Presenoldeb dros 5 mlynedd (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11)**

**Presenoldeb rhwng 85% a 90% = cyfwerth â thua hanner blwyddyn yn absennol o'r ysgol**

**Presenoldeb 80% = cyfwerth â thua blwyddyn yn absennol o'r ysgol**

Er 2014, mae Estyn wedi adrodd ar ba mor dda y mae ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Bellach, mae bron pob ysgol yn targedu'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r gyfran sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r grant i wella deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn wedi parhau ar ryw ddwy ran o dair o ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn aml, mae ysgolion llai llwyddiannus yn mabwysiadu llawer o'r strategaethau a ddefnyddir gan eu cymheiriaid mwy llwyddiannus, fel rhaglenni i wella medrau llythrennedd disgyblion. Ond nid ydynt yn addasu neu'n teilwra cyflwyno'r strategaethau hyn yn ddigon da i fodloni anghenion penodol eu disgyblion, nac yn arfarnu'r gwahaniaeth y mae'r mentrau hyn yn ei wneud i ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, mae gormod o ysgolion uwchradd yn defnyddio'r cyllid ar gyfer rhaglenni 'dal i fyny' yng nghyfnod allweddol 4 yn hytrach na datblygu medrau disgyblion trwy gydol holl gyfnodau eu haddysg uwchradd.

Mae'r diffyg cynnydd cymharol o ran lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn darparu achos cryf dros yr angen i ddiwygio addysg a'r cwricwlwm yn barhaus.

## Cwestiynau i ddarparwyr:

- A yw dysgwyr sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol ac yn cyflawni gystal ag y dylent? Os nad ydynt, beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau deilliannau gwell?
- Pa mor effeithiol ydyn ni'n monitro presenoldeb ac yn rhoi strategaethau ar waith i wella presenoldeb? A yw ein disgwyliadau mewn perthynas â phresenoldeb yr holl ddisgyblion yn ddigon uchel?
- Pa mor effeithiol y caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio mewn modd cynaliadwy i wella cyflawniad a lles disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi?
- A ydyn ni'n gwneud defnydd effeithiol o ymchwil berthnasol i wella cyflawniad a lles disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi?
- Pa mor dda ydyn ni'n ymgysylltu â theuluoedd, y gymuned a gwasanaethau arbenigol? Pa wahaniaeth y mae'r ymgysylltiad hwn yn ei wneud i ddeilliannau disgyblion?
- A oes gennym strategaeth ysgol gyfan i wella cyflawniad a lles dysgwyr sydd dan anfantais oherwydd tlodi?
- Pa mor dda ydyn ni'n monitro ac yn arfarnu darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi a'r safonau y maent yn eu cyflawni? Pa mor dda ydyn ni'n defnyddio canfyddiadau arfarnu i fireinio, addasu a gwella darpariaeth?

## Cwestiynau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A oes gan ein sefydliad ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio strategaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag effeithiau anfantais?
- Sut ydyn ni'n arfarnu effaith y cymorth a ddarparwn?

(1) Fe wnaeth y grant datblygu disgyblion ddisodli'r grant amddifadedd disgyblion o Ebrill 2017.

# Datblygu'r Gymraeg




Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o strategaethau gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae ei 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2010a) yn amlinellu ei huchelgais fod 'pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf'. Mae'r strategaeth hon, sy'n gysylltiedig ag 'Iaith fyw Iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17') (Llywodraeth Cymru, 2012a), yn ymrwymo i wella darpariaeth Gymraeg. Mae Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn adeiladu ar 'Cymwys am Oes' (Llywodraeth Cymru, 2014b) wrth gydnabod datblygiad Cymru fel 'cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith'. Mae Cymraeg yn orfodol i bob disgybl hyd at 16 oed ac mae 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes' (Llywodraeth Cymru, 2015a) yn ei wneud yn flaenoriaeth 'bod pob dysgwr yn gallu meithrin ei sgiliau iaith Gymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau'.

Mae Estyn wedi adrodd ar safonau a darpariaeth ar gyfer Cymraeg ym mhob arolygiad er 2010.

Yn ystod y cylch hwn, cyhoeddom gyfres o adroddiadau thematig am ystod eang o agweddau ar addysg cyfrwng Cymraeg. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir** (Estyn, 2013a)
**Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen** (Estyn, 2013f)
**Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog** (Estyn, 2014d)
**Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol** (Estyn, 2016a)
**Addysgu a dysgu cyfrwng Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach** (Estyn, 2017b)
**Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** (Estyn, 2017c)

## Cryfderau

Yn y Cyfnod Sylfaen ym mron pob ysgol gynradd a lleoliad cyfrwng Cymraeg, ceir pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg drwy ei defnyddio'n gyson bob dydd ar draws yr holl feysydd dysgu. Mewn llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da ac yn datblygu geirfa plant yn dda. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymreig cryf a chyfoethogi iaith plant. At ei gilydd, mae safonau disgyblion mewn Cymraeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad, gwrando a darllen yn effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau, pa iaith bynnag y maent yn ei siarad gartref.

Yn y mwyafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae disgyblion yn cychwyn yn dda wrth ddysgu siarad a gwrando yn Gymraeg. Mae agwedd gadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddysgu'r iaith, ac maent yn gwneud cynnydd da yn ystod sesiynau grŵp cyfan.

Mae llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a meistrolaeth disgyblion ar yr iaith. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn pennu targedau uchelgeisiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau Cymraeg o un flwyddyn i'r nesaf. Gwneir cynnydd da neu well gan ddisgyblion wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg mewn llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Maent yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda yn Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n dilyn y nifer fwyaf o gyrsiau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu defnyddio'u Cymraeg yn well i drafod ac ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol. Mae disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cyflawni ychydig yn well o ran dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cynnwys Cymraeg, Saesneg neu fathemateg, na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, pa iaith bynnag sy'n cael ei siarad gartref.

### Ysgol Gymraeg Y Fenni

Mae **Ysgol Gymraeg y Fenni** wedi gwella medrau llefaredd disgyblion trwy edrych eto ar weithdrefnau asesu, strategaethau addysgu a'r cyfleoedd gaiff disgyblion o fewn y cwricwlwm.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

### Ysgol Gyfun Gwynllyw

Mae **Ysgol Gyfun Gwynllyw**, Torfaen, yn ymdrechu i greu unigolion cwbl ddwyieithog sy'n ymfalchïo yn eu hunaniaeth fel Cymry. Mae'r staff yn pwysleisio bod siarad Cymraeg yn rhan annatod a naturiol o fywyd yr ysgol, a chaiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn yr ysgol a thu hwnt.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**


**Ffigur 1.5:**
Canran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg – yr holl ddisgyblion




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017l)

Mae hyn yn wir ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim hefyd.

**Ffigur 1.6:**
Canran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg – disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017l)

Mae safonau Cymraeg mewn llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn gwella, gyda'r niferoedd sy'n cyflawni cymwysterau yn Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn cynyddu dros 12 pwynt canran rhwng 2010 a 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, mae mwyafrif o ddisgyblion wedi ennill eu cymhwyster yn y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith.

Mae safonau'n rhagorol mewn ychydig iawn o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy ystod eang o weithgareddau anffurfiol, yn ogystal â thrwy ddull sydd wedi'i gynllunio'n dda ar draws y cwricwlwm. Caiff cyfran sylweddol o amser cwricwlwm ei neilltuo i ddarpariaeth Gymraeg, ac anogir disgyblion gan bron pob athro i ddatblygu'u defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi Cymraeg ac mewn pynciau eraill hefyd. Mae llawer o ddisgyblion yn cofrestru ar gyfer cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymarfer eu medrau Cymraeg yn ddigonol y tu allan i wersi neu mewn lleoliadau mwy cymdeithasol.

O fan cychwyn isel, bu cynnydd yn nifer y gweithgareddau dysgu Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf. Mae targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfran y gweithgareddau dysgu a gynhelir gan ddysgwyr 16-19 oed trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi cael eu bodloni mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac mewn dysgu yn y gwaith.

Mae cyrsiau Cynllun Sabothol iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd a chapasiti darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol am fedrau ieithyddol eu gweithlu addysgu wedi cael ei defnyddio'n briodol i lywio datblygiad proffesiynol parhaus a rhaglenni hyfforddi. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi'u teilwra'n dda i wella medrau addysgu cyfrwng Cymraeg ymarferwyr.

Yn ystod y cylch arolygu, barnwyd bod safonau mewn tri chwarter o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion yn dda neu'n well. Darparodd y rhain addysgu da, a darparodd pob un ohonynt brofiadau dysgu da neu well ar gyfer eu dysgwyr. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar yn datblygu ei rôl yn dda fel llais cenedlaethol i'r sector ac mae wedi gwneud cynnydd o ran gwella a chysoni dulliau o ddatblygu'r cwricwlwm, casglu data, datblygiad proffesiynol ac asesu. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi canolbwyntio ar helpu darparwyr i gynyddu darpariaeth mewn meysydd targed allweddol, yn enwedig cynyddu darpariaeth ddwys a dilyniant gwell rhwng lefelau.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau lleol i gyflawni ei strategaethau cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Adolygodd Estyn effeithiolrwydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) awdurdodau lleol yn 2015 (Estyn, 2016a). Canfuom fod y CSCAau yn darparu fframwaith defnyddiol i awdurdodau lleol gynllunio'u darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Yn y nifer fach o awdurdodau lleol lle gwneir cynnydd da yn erbyn targedau, ceir ymrwymiad cadarn gan arweinwyr strategol, aelodau etholedig ac uwch swyddogion i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr awdurdodau lleol hyn, rhoddir pwyslais uchel ar gyflawni'r CSCAau, ac mae gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth strategol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal.

**Ysgol Gyfun Treorci**

Mae **Ysgol Gyfun Treorci** yn cysylltu'r Gymraeg â threftadaeth a diwylliant i gyfoethogi a chyflymu dysgu disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

## Meysydd i'w gwella

Ceir gwendidau yn y ffordd y mae llawer o CSCAau awdurdodau lleol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd araf a wneir yn erbyn llawer o'r targedau yn strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2016a). Er enghraifft, mae cyfran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros ar ryw 22% dros y chwe blynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017m). Ledled Cymru, er gwaetha'r cynnydd bach yng nghyfran y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg ym Mlwyddyn 9, nid yw rhyw 13% o ddysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 6 yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7 (Llywodraeth Cymru, 2015b). Nid yw'r dysgwyr hyn yn cael y cyfle i ddatblygu'u medrau Cymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae canran y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi parhau ar ryw 24% o gyfanswm nifer y disgyblion dros y saith mlynedd diwethaf. Yn yr un cyfnod, mae'r ganran mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi aros ar ryw 20% (Llywodraeth Cymru, 2017n).

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, nid yw datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth strategol. Nid oes lle blaenllaw i addysg Gymraeg mewn cynlluniau strategol, nid yw cynnydd yn cael ei graffu'n drylwyr ar lefel ddigon uchel, ac mae gwelliannau yn erbyn targedau yn araf. Mewn lleiafrif o awdurdodau, mae'r wybodaeth sydd ar gael i rieni yn gyfyngedig ac nid yw'n esbonio'r ddarpariaeth tymor hwy o'r blynyddoedd cynnar i gyfnod allweddol 4. Ceir diffyg dulliau systematig o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ychydig o awdurdodau. Mae'r awdurdodau hyn yn tueddu bod yn adweithiol ac yn araf i ymateb i gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn gorfod dal i fyny â'r galw.

Mewn ychydig o leoliadau meithrin cyfrwng Cymraeg, nid oes gan ymarferwyr ddisgwyliadau digon uchel o fedrau siarad plant. Yn y lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr yn ddigon hyderus yn aml yn eu medrau Cymraeg eu hunain, ac nid ydynt yn gwneud digon o ymdrech i ddefnyddio'r iaith yn gyson yn ystod sesiynau. Nid yw ychydig o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu digon o gymorth neu hyfforddiant i wella medrau iaith yr ymarferwyr hyn na'u dealltwriaeth o fethodoleg addysgu iaith. O ganlyniad, mae'r cynnydd a wneir gan blant yn y lleoliadau hyn, o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg, yn rhy araf.

Mae safonau Cymraeg yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu mewn traean o ysgolion cynradd a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes digon o amser yn cael ei neilltuo i addysgu Cymraeg. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn adeiladu ar y Gymraeg y maent yn dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, ac nid ydynt yn defnyddio'r iaith yn hyderus y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol. Nid yw'r hyder gan lawer o athrawon i addysgu Cymraeg, ac nid oes digon o gyfleoedd iddynt wella eu medrau.

Mae cryn amrywiaeth yn y pwyslais a roddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol ar gynyddu cyfran y dysgwyr sy'n dilyn pynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n gweld hyn fel blaenoriaeth. Er bod hanner yr awdurdodau lleol yn olrhain nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, dim ond ychydig iawn sy'n gosod targedau ar gyfer ysgolion unigol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu dilyn.

Nid yw dwy ran o dair o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymarfer eu Cymraeg yn ddigon aml y tu allan i wersi Cymraeg ac nid yw'r hyder ganddynt i siarad yr iaith. Mae'r cynllunio ar gyfer dilyniant ar adegau trosglwyddo pwysig rhwng cyfnodau allweddol yn wan. Mae hyn yn ddiffyg pwysig yn y mwyafrif o ysgolion ledled Cymru.

Mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, o gymharu â'r nifer sy'n astudio'u cyrsiau TGAU priodol, wedi gostwng er 2011. Nid yw targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015 ar gyfer y ddau gymhwyster Safon Uwch wedi'u bodloni (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Mae rhy ychydig o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn parhau â'u hastudiaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach ac mewn dysgu yn y gwaith. Yn y mwyafrif o golegau addysg bellach, nid yw arweinwyr wedi datblygu'u cynlluniau yn ddigon da i gynyddu a gwella darpariaeth Gymraeg. Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwystr sylweddol rhag ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y mwyafrif o golegau. Er gwaethaf mwy o gyfleoedd, nid yw llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn gwneud digon i annog dysgwyr dwyieithog i ymgymryd â hyfforddiant neu asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag agweddau ar eu hyfforddiant yn Gymraeg yn isel iawn o hyd.

Mae recriwtio staff sy'n hyderus ac yn gallu addysgu eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn her mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru. Mae denu arbenigwyr Cymraeg â chymwysterau da yn her benodol i lawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Nid yw bron i chwarter o athrawon sy'n cael eu cyflogi i addysgu Cymraeg wedi'u hyfforddi i addysgu'r pwnc.

Ym mhob un o'r tair canolfan addysg athrawon yng Nghymru, nid yw'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer athrawon dan hyfforddiant cyfrwng Saesneg, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae ansawdd yr hyfforddiant yn rhy amrywiol ym mhob un o'r tair canolfan. O ran llawer o'r ddarpariaeth ar gyfer pynciau uwchradd, mae dwy o'r tair canolfan yn cyflogi staff rhan-amser i gynorthwyo hyfforddeion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.


## Cwestiynau i ddarparwyr:

- A yw disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol ac yn mwynhau dysgu Cymraeg?
- Pa mor dda yr addysgir Cymraeg?  A yw athrawon Cymraeg yn gymwys i wneud hynny?
- A yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'u defnydd o Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu allan i wersi Cymraeg?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg ac mewn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm?
- A yw disgyblion yn parhau i ddatblygu'u medrau Cymraeg pan fyddant yn trosglwyddo rhwng y gwahanol gyfnodau allweddol a chyfnodau addysg statudol?
- A yw cynlluniau'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i wneud a chynnal cynnydd da mewn Cymraeg?
- A ydyn ni'n cynllunio'n strategol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm?
- A oes gennym ddealltwriaeth gywir o'r hyn sydd ei angen i godi safonau a gwella darpariaeth ar gyfer Cymraeg?
- A oes gennym ethos sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a buddion bod yn ddwyieithog?

## Cwestiynau i awdurdodau lleol

- I ba raddau y mae'r CSCAau yn flaenoriaeth strategol?
- I ba raddau ydyn ni'n gweithio gyda darparwyr i esbonio buddion addysg cyfrwng Cymraeg a buddion dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion a rhieni?
- I ba raddau ydyn ni'n gweithio gyda darparwyr i osod targedau i gynyddu cyfran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ac yn dilyn meysydd pwnc penodol trwy gyfrwng y Gymraeg?

# Cydweithio a dysgu rhwng ysgolion



Er 2010, bu ymdrech gynyddol ar lefel leol a chenedlaethol i annog cydweithio a datblygu system o hunanwella. Cafwyd mentrau gan Lywodraeth Cymru i annog arfer o gydweithio. Er enghraifft, roedd hyn yn nod penodol y Prosiect Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol (2013 i 2016) ac roedd ymhlyg yn Her Ysgolion Cymru (2014 i 2017). Cefnogwyd y cyfeiriad hwn gan adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014 (OECD, 2014). Dywedodd yr adroddiad mai cydweithio rhwng ysgolion yw 'un o'r dewisiadau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu cyfalaf proffesiynol ac yn enwedig cyfalaf cymdeithasol ymhlith athrawon ac arweinwyr (OECD, 2014 tud.77.). Dywedodd yr adroddiad hefyd:

> *'Mae cydweithio rhwng ysgolion yn darparu ffordd o ddosbarthu gwybodaeth a strategaethau o amgylch y system; mae'n darparu ffordd arall o gefnogi ysgolion sy'n cael trafferth yn hytrach nag ymyrraeth o'r brig i lawr; ac mae'n datblygu cyfrifoldeb ar y cyd ymhlith yr holl ysgolion ar gyfer llwyddiant pob myfyriwr.' (OECD, 2014 tud.77.)*

Yn Chwefror 2014, cyhoeddwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014a) a sefydlodd gonsortia rhanbarthol i herio a brocera cymorth sy'n briodol i anghenion pob ysgol. Yn Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymwys am Oes - cynllun addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2014b). Mae'r cynllun yn cynnwys y nod strategol i arweinwyr addysg ar bob lefel weithio gyda'i gilydd mewn system o hunanwella, gan ddarparu cymorth a her i'w gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol. Atgyfnerthir hyn yn 'Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol' a gyhoeddwyd yn Hydref 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017a). Cefnogwyd yr amcan hwn ymhellach yn adroddiad asesiad polisi cyflym OECD yn 2017 gan ailddatgan:

> *'mae mwy o gydweithio ac ymddiriedaeth ymhlith rhanddeiliaid yn hanfodol i wireddu amcan y wlad o gael system ysgol sy'n hunanwella'. (OECD, 2017, tud.49)*

Mae Estyn wedi adrodd ar ba mor dda y mae ysgolion yn gweithio gydag eraill wrth arfarnu arweinyddiaeth ac ansawdd ac effaith partneriaethau strategol ym mhob arolygiad er 2010.

Rhwng 2013 a 2015, cyhoeddom gyfres o adroddiadau thematig yn ystyried gwerth cydweithio.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau thematig.

**Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd** (Estyn, 2013g)
**Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion** (Estyn, 2015e)
**Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** (Estyn, 2016b)
**Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod** (Estyn, 2017d)

## Cryfderau

Mae bron pob ysgol yn gysylltiedig â rhyw fath o weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill. Dim ond rhyw un o bob deg ysgol sydd ddim yn gweithio gydag ysgolion heblaw am y rheini yn eu clwstwr. Ar ddechrau'r cylch, roedd y gwath partneriaeth hwn yn tueddu i gynnwys cymorth bugeiliol i helpu disgyblion i bontio rhwng ysgolion ac i ehangu darpariaeth y cwricwlwm. Bellach, mae llawer mwy o enghreifftiau o ysgolion yn cydweithio i wella agweddau eraill ar ddarpariaeth, fel prosiectau llythrennedd a rhifedd, gwella'r addysgu a datblygu arweinyddiaeth.

Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, ceir cydweithio effeithiol rhwng staff o fewn yr ysgol a gyda staff o ysgolion eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol, ac mae staff yn myfyrio ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn barod i rannu'u harfer gydag eraill, a dysgu gan eraill. Mae arweinwyr yn nodi'r materion y mae angen eu gwella, ac yn mynd ati i chwilio am arfer effeithiol. Dangosant ymrwymiad cryf i gydweithio a datblygu ffyrdd o weithio sy'n gwneud rhannu cyfrifoldeb dros ddysgu proffesiynol yn bosibl. Mae adeiladu diwylliant o gydweithio rhwng ysgolion yn golygu ymrwymiad go iawn i fod yn agored i ddysgu oddi wrth eraill, ac mae'n fwyaf effeithiol pan fydd ymarferwyr yn cael cyfle i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nod penodol. Mae trefniadau dysgu llwyddiannus rhwng ysgolion yn mynnu ymddiriedaeth a thryloywder hefyd. Mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n gweithio gyda'i gilydd amcanion strategol dynodedig a meini prawf llwyddo manwl ar gyfer cydweithio o'r fath. Rhaid i ffocws y cydweithio fod ar yr effaith ar ddisgyblion.

Mae ysgolion uchel eu perfformiad yn gweithio'n agos gyda'u hysgolion clwstwr cysylltiedig, rhwydweithiau o ddarparwyr eraill, ac ysgolion eraill. Mae hyn yn eu helpu i ddeall y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at arfer effeithiol ac i asesu ansawdd eu haddysgu a'u dysgu yn gywir. Maent yn elwa o weithio gydag ysgolion eraill ar weithgareddau fel craffu ar y cyd ar waith disgyblion neu arsylwadau ar y cyd o wersi gydag ymgynghorwyr o'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r gweithgareddau hyn ar y cyd yn helpu staff i fyfyrio ar eu harfer a meithrin eu hyder.

### Ysgol Bodfeurig

Mae **Ysgol Bodfeurig** yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol leol arall, ac mae'r ddau uwch dîm arwain yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd fel cymuned dysgu proffesiynol ymroddedig. Enghreifftiau rhagorol o hyn yw'r ffordd y mae'r ddwy ysgol yn cynllunio profiadau dysgu, y ffordd y maent wedi datblygu strwythurau asesu ar gyfer dysgu ac yn arfarnu gwaith ei gilydd.

I gael mwy o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu ar gyfer **Ysgol Bodfeurig.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gyfun Tredegar

Mae **Ysgol Gyfun Tredegar** wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd lleol i sicrhau arfer gyson o ran dysgu ac addysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym ac maent yn elwa'n sylweddol ar barhad a dilyniant effeithiol mewn dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu ar gyfer **Ysgol Gyfun Tredegar.**

Ceir enghreifftiau o ddysgu llwyddiannus iawn rhwng ysgolion sydd wedi datblygu dros gyfnod o ganlyniad i benderfyniad arweinwyr ysgol i gynorthwyo ei gilydd ac ysgolion ei gilydd. Er enghraifft, mae traddodiad hir o gydweithio gan ysgolion arbennig yng Nghymru. O ystyried y gwasgariad daearyddol eang, eu natur arbenigol a'r ffaith eu bod yn fach o ran nifer, maent wedi teimlo angen i gynorthwyo ei gilydd. Nid yw llawer o'r adnoddau, y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael yn gyffredinol i ysgolion prif ffrwd ar faterion yn ymwneud ag addysgu, y cwricwlwm ac asesu yn hawdd i'w cymhwyso i'w hamgylchiadau nhw bob amser. Mae llawer iawn o'r arbenigedd yn gysylltiedig ag arfer yn y sector yn yr ysgolion arbennig eu hunain. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff ysgolion arbennig yn agored iawn i gydweithio. Mae'r cydweithio hwn yn ymestyn i ddarparu cyngor ac arweiniad i ysgolion prif ffrwd er mwyn datblygu'u harbenigedd wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer yr ysgolion ffederal, ac yn y mwyaf llwyddiannus o'r trefniadau hyn, mae staff o'r ysgolion gwahanol yn gweithio'n arbennig o dda â'i gilydd, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

## Meysydd i'w gwella

Yn aml, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn gallu nodi p'un a yw dysgu rhwng ysgolion wedi cael effaith ar safonau, na sut. Mae hunanarfarnu effeithiol yn canolbwyntio ar fusnes craidd addysgu a dysgu, a chynnydd disgyblion. Heb y ffocws hwn, mae diffyg dealltwriaeth glir gan ysgolion o gryfderau a gwendidau mewn darpariaeth. Mae datblygu dull myfyriol ac arfarnol yn ei gwneud yn bosibl gwybod a derbyn pan fo angen newid. Mae'r cydweithio gorau rhwng ysgolion yn seiliedig ar nodi angen yn glir, rhesymu â dadleuon cadarn o'i blaid, ac amcanion manwl. Mae angen i bob gweithgarwch cydweithio gael ei arfarnu o ran yr effaith ar y busnes craidd ac i fod yn fuddiol i'r ddwy ochr.

Mae meysydd penodol i'w gwella. Nid yw'r rhan fwyaf o unedau cyfeirio disgyblion yn cydweithio'n ddigon da gydag ysgolion cynradd nac ysgolion uwchradd yn eu hardal. Dim ond lleiafrif o ysgolion clwstwr cynradd ac uwchradd sy'n gweithio'n effeithiol ar gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. Mae cydweithio rhwng cyfnodau gwahanol, sectorau gwahanol (ac eithrio cydweithio cynradd ac uwchradd) a rhwng ysgolion cyfrwng iaith gwahanol yn llai cyffredin.

Ym mhob achos bron, mae ysgolion sy'n cael eu rhoi mewn categori statudol (angen gwelliant sylweddol neu angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt) yn cael trafferth cyfranogi mewn perthnasoedd cydweithio effeithiol. Mae'r ysgolion hyn yn ei chael hi'n anodd manteisio ar weithio gydag eraill am fod yr arweinyddiaeth yn aneffeithiol ac nid yw wedi creu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac agoredrwydd. Mewn llawer o achosion, mae'r arweinwyr a'u staff wedi mynd yn fewnblyg ac nid oes ganddynt olwg realistig ar ddeilliannau eu hysgolion ac ansawdd eu haddysgu a dysgu. Maent yn ei chael hi'n anodd nodi'r meysydd gwannaf a blaenoriaethau er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant cynaliadwy.

### Ysgol Plas Brondyffryn

**Ysgol Plas Brondyffryn** yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer awtistiaeth yng ngogledd Cymru. Mae'n gweithio'n agos â rhieni, gofalwyr ac ysgolion a cholegau i rannu ei harbenigedd trwy gymorth, arweiniad ac amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Yn aml, mae arweinwyr yr ysgolion hyn yn defnyddio cefndiroedd disgyblion i esgusodi perfformiad gwael am nad ydynt wedi ymweld ag ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg sy'n perfformio'n well o lawer. Yn ogystal, pan gaiff ysgol ei rhoi mewn categori, gall gael ei llethu gan faint y cyngor a gynigir a nifer y bobl sy'n rhoi'r cyngor hwnnw.

Ym mhob consortiwm rhanbarthol, ceir ymagwedd strategol at newid diwylliant ac i wneud yn siŵr bod ymrwymiad cryf i system hunanwella, a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o system hunanwella. Maent wedi sefydlu strwythurau i annog a chynorthwyo ysgolion i weithio mewn partneriaeth. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn y consortia gwahanol yn amrywio ac mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn beth yw cryfderau, gwendidau ac effaith y gwahanol strategaethau. Canfu arolygiad o'r consortia rhanbarthol yn 2016 eu bod i gyd yn gweithio tuag at system hunanwella, er nad oes dealltwriaeth gyffredin eto ar draws consortia o beth mae hyn yn ei olygu. Mae'r ymgynghorwyr her mwyaf effeithiol yn deall amgylchiadau penodol ac anghenion datblygiadol eu hysgolion. Consortia â dulliau cadarn o nodi'r arfer orau sydd yn y sefyllfa orau i greu parau cydweithio addas ac i frocera gweithio effeithiol rhwng ysgolion. Canfyddiad arall yn yr arolygiadau cychwynnol o gonsortia oedd nad yw dysgu rhwng ysgolion yn cael ei fonitro na'i arfarnu'n ddigon gofalus i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn cael yr effaith a fwriadwyd, ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr ysgol sy'n darparu'r cymorth.

## Cwestiynau i ddarparwyr:

- A oes gennym ddiwylliant yn ein hysgol sy'n cefnogi cydweithio?
- Sut ydyn ni'n addasu arfer o ysgolion eraill i gydweddu â'n cyd-destun ni?
- A ydyn ni'n glir ynglŷn â ffocws unrhyw ddysgu arfaethedig rhwng ysgolion?
- Sut bydd y gwaith hwn yn cefnogi ein blaenoriaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol?
- Sut byddwn ni'n adnabod â phwy i weithio? Pwy neu beth all ein helpu ni i wneud hynny? Beth yw'r deilliannau gofynnol, a sut byddwn ni'n arfarnu effaith?
- Beth yw'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith hwn (amser, staff ac ati)?
- Beth allwn ni ei wneud i feithrin medrau a chapasiti arwain i greu cynnydd parhaus?
- A oes gennym arfer y gallem ei rhannu? Sut rhown ni wybod i eraill am yr arfer hon?

## Cwestiynau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

- A ydyn ni'n gwybod ble mae'r arfer sy'n deilwng o'i hefelychu?
- Ble mae angen cymorth, cymorth o ba natur fydd yn fwyaf priodol, a sut caiff ei effaith ei arfarnu?
- Sut ydyn ni'n cynorthwyo datblygiad proffesiynol athrawon ac arweinwyr i greu diwylliant dysgu a system hunanwella?
- Sut byddwn ni'n sicrhau nad yw'r ysgolion sy'n darparu'r lefelau cymorth mwyaf i ysgolion eraill o dan unrhyw anfantais?
- Os nad yw gweithgarwch dysgu penodol rhwng ysgolion wedi cael yr effaith ofynnol, a allwn ni nodi pam? Beth oedd y rhwystrau a sut gallwn ni ddysgu o'r rhain?

# Gwella arweinyddiaeth



Mae canfyddiadau arolygu ac adroddiadau thematig i gyd yn awgrymu'n gryf mai arweinyddiaeth lwyddiannus yw'r ffactor allweddol wrth gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer dysgwyr. Dros y cylch arolygu, cafodd bron pob darparwr a oedd ag arweinyddiaeth dda neu ragorol, farnau da neu ragorol yn gyffredinol (perfformiad presennol a rhagolygon gwella).

**Ffigur 1.7**

**Cwestiwn Allweddol 3: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

| Perfformiad presennol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 4% | 0% | 0% | 0% |
| Da | 3% | 62% | 4% | 0% |
| Digonol | 0% | 6% | 16% | 2% |
| Anfoddhaol | 0% | 0% | 1% | 2% |

84% o ddarparwyr – yr un radd ar gyfer Perfformiad presennol ac Arweinyddiaeth

O'r 75% o ddarparwyr â barnau Da neu Ragorol yng Nghwestiwn Allweddol 3, cafodd 92% farnau Da neu Ragorol ar gyfer perfformiad presennol hefyd.

**Ffigur 1.8**

### Cwestiwn Allweddol 3: Arweinyddiaeth a rheolaeth

Rhagolygon gwella

| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 7% | 1% | 0% | 0% |
| Da | 0% | 66% | 1% | 0% |
| Digonol | 0% | 1% | 20% | 0% |
| Anfoddhaol | 0% | 0% | 0% | 4% |

97% o ddarparwyr – yr un radd ar gyfer Rhagolygon ac Arweinyddiaeth

O'r 75% o ddarparwyr â barnau Da neu Ragorol yng Nghwestiwn Allweddol 3, cafodd 99% farnau Da neu Ragorol ar gyfer rhagolygon gwella hefyd.

Yn ystod y cylch arolygu, cyhoeddodd Estyn yr adroddiadau thematig canlynol:

**Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd** (Estyn, 2013g)
**Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion** (Estyn, 2015f)
**Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** (Estyn, 2016b)

Yn ystod y cylch, canolbwyntiodd arolygiadau ar effaith pedair agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth ar safonau a lles disgyblion: arweinyddiaeth strategol, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth, a rheoli adnoddau.

## Cryfderau

Mae ansawdd cyffredinol arweinyddiaeth wedi bod yn dda neu'n well mewn rhyw dri chwarter o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd. Nid yw'r cyfrannau hyn wedi newid fawr ddim dros y cylch arolygu.

Lle mae arweinyddiaeth yn arbennig o lwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn fedrus iawn ac yn hyderus. Mae eu prif ffocws ar wella ansawdd dysgu ac addysgu, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, eu staff a'u disgyblion. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad strategol yr ysgol, ac maent yn rhannu hon yn llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Maent yn bresenoldeb gweladwy, yn modelu ymddygiadau proffesiynol ac yn pennu'r naws ar gyfer gwaith yr ysgol.

Mae'r arweinwyr mwyaf llwyddiannus yn arweinwyr newid effeithiol, ac yn fedrus o ran rheoli pobl a llwyth gwaith y rheini y maent yn eu rheoli, ac o ran cael cymorth gan randdeiliaid. Maent yn dangos rheidrwydd moesol cryf i wella eu hysgol eu hunain a chynorthwyo ysgolion eraill. Maent yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn glir, bod gwerthoedd proffesiynol yn cael eu meithrin, a bod gwella addysgu, dysgu a lles pob disgybl wrth wraidd eu gwaith.

Er 2010, mae llawer o arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r disgwyliad cynyddol i weithio ar y cyd a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell i'w staff. Hefyd, mae arweinwyr llwyddiannus yn deall pwysigrwydd datblygu gallu i arwain o'r tu mewn i'w sefydliadau eu hunain. Maent yn datblygu arweinwyr ar bob lefel yn effeithiol, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt arwain newid yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r arweinwyr mwyaf llwyddiannus yn arbennig o effeithiol o ran annog eu staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a mentora sy'n eu galluogi i archwilio dulliau o wella addysgu a chynorthwyo â rhannu arfer orau. Maent yn rhannu arfer effeithiol ac yn cynorthwyo, hyfforddi a mentora arweinwyr llai profiadol, yn enwedig mewn ffederasiynau ac yn y nifer gynyddol o ysgolion pob oed.

Mae gan yr arweinwyr mwyaf llwyddiannus weithdrefnau cadarn ar gyfer casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a thystiolaeth arall sy'n rhoi golwg glir iddynt o gryfderau a meysydd i'w gwella. Defnyddiant y dystiolaeth hon yn wrthrychol i ddadansoddi a nodi blaenoriaethau. Mae dadansoddi trwyadl yn eu galluogi i gael golwg strategol o'r hyn y mae angen ei wella, a sut gellir cyflawni'r gwelliannau gofynnol. Gwnânt ddefnydd effeithlon o adnoddau i dargedu meysydd i'w gwella, gan gynnwys grantiau penodol a chymorth gan ddarparwyr eraill. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y profiadau gorau posibl.

Mae gwaith llywodraethwyr wedi gwella dros y cylch arolygu. Ar ddechrau'r cylch, roedd llywodraethwyr yn gwybod am berfformiad cymharol eu hysgol mewn rhyw dri chwarter o ysgolion. Erbyn diwedd y cylch, mae hyn wedi cynyddu i bedair o bob pum ysgol. Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr mewn ysgolion llwyddiannus yn derbyn dadansoddiadau clir a gonest o ba mor dda y mae'r sefydliad yn perfformio. Maent yn deall ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio unrhyw danberfformiad. Er 2010, mae llawer o lywodraethwyr wedi gwella eu dealltwriaeth o sut gellir mesur effeithiolrwydd darpariaeth a dwyn arweinwyr i gyfrif yn fwy cadarn nag y gwnaethant ar ddechrau'r cylch arolygu.

### Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansannor

Yn **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansannor**, mae amcanion strategol clir, rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer staff a llywodraethwyr, a phrosesau rheoli perfformiad effeithiol wedi arwain at safonau gwell ar draws yr ysgol.

Darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd

Mae staff yn **Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd** yn defnyddio strategaeth gwella sydd wedi'i datblygu'n dda i helpu i gyflwyno addysgu o ansawdd da.

Darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

## Meysydd i'w gwella

Mewn chwarter o ysgolion cynradd a phedair o bob deg ysgol uwchradd, mae angen gwella arweinyddiaeth. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg cyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Nid yw arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o ddysgu proffesiynol lle caiff staff drafodaethau agored a gonest am eu harfer eu hunain a'i heffaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion. Nid oes gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn o sut beth ddylai addysgu o ansawdd da ac arfer broffesiynol fod. O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid yw arweinwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rôl i gynorthwyo athrawon i wella eu harfer.

Trwy gydol y cylch, yr agwedd wannaf ar arweinyddiaeth fu hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mewn traean o ysgolion cynradd a hanner yr ysgolion uwchradd, nid yw arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol yn brosesau parhaus, yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu. Nid yw'r arweinwyr hyn yn arfarnu deilliannau nac yn mesur effaith darpariaeth yn ddigon da. Yn yr achosion hyn, ceir gorddibynnu ar ddadansoddiadau data ar draul casglu tystiolaeth uniongyrchol drwy wrando ar ddysgwyr a chraffu ar eu gwaith. Nid yw'r arweinwyr hyn yn sicrhau bod gweithgareddau arfarnol yn asesu ansawdd addysgu a'i effaith ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Er enghraifft, maent yn craffu ar waith disgyblion heb ganolbwyntio ar gynnydd a safonau. O ganlyniad, nid yw hunanarfarnu yn arwain at gynllunio gwelliant ysgol sy'n fanwl gywir ynglŷn â beth sydd angen ei wella. Hefyd, mae'r diffygion mewn hunanarfanu yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi agweddau penodol ar arfer broffesiynol sydd angen eu gwella ar lefel ysgol gyfan neu lefel unigol. O ganlyniad, nid yw athrawon yn cael digon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i fodloni'u hanghenion neu i wella ansawdd eu gwaith.

Yn yr ychydig achosion lle mae arweinyddiaeth yn anfoddhaol, nid oes disgwyliadau uchel gan arweinwyr ohonyn nhw eu hunain, eu staff na'u disgyblion. Nid ydynt yn darparu digon o gyfeiriad nac yn cyfleu gweledigaeth o gydgyfrifoldeb ar gyfer gwella safonau, cynnydd a lles disgyblion. Nid yw'r arweinwyr hyn yn sefydlu dealltwriaeth glir yn eu hysgol o sut beth yw addysgu ac arfer broffesiynol effeithiol. Nid yw atebolrwydd a chyfathrebu yn gadarn. Mae'r addysgu yn wan ac mae staff yn anghyson yn y ffordd y maent yn ymateb i faterion yn ymwneud â lles disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn cael cymorth i wella addysgu a dysgu.

Yn 2016, wrth gydnabod pwysigrwydd gwella ansawdd arweinyddiaeth ysgolion, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i sefydlu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.

### Ffederasiwn Ysgol Bryngwyn ac Ysgol Glan-y-Môr

Mae arweinyddiaeth ffederasiwn **Ysgol Bryngwyn** ac **Ysgol Glan-y-Môr** wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at sicrhau safonau uchel a lefelau cadarn o les disgyblion. Mae wedi galluogi'r ddwy ysgol i wneud gwelliannau cyflym i lawer o agweddau ar eu darpariaeth. Mae uwch arweinwyr wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth gynllunio'r trosglwyddo i weithio fel ffederasiwn ac maent wedi rheoli heriau sylweddol y broses hon yn eithriadol o dda.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Cwestiynau i ddarparwyr:

- Pa mor glir yw ein gweledigaeth strategol ar gyfer sut gallwn ni wella safonau a deilliannau ar gyfer disgyblion?
- Sut ydyn ni'n cyfleu ein disgwyliadau o'n hunain, staff a disgyblion?
- Sut ydyn ni'n gwneud yn siŵr fod gwerthoedd proffesiynol cadarn gan staff a'u bod yn arddangos ymddygiadau priodol, yn seiliedig ar wella addysgu a dysgu?
- A oes gennym ddealltwriaeth glir a chyd-ddealltwriaeth o sut beth yw addysgu a dysgu effeithiol?
- A yw gweithgareddau hunanarfarnu yn canolbwyntio ar effaith addysgu ar ddysgu disgyblion, ac a ydynt yn rhoi golwg glir o gryfderau a meysydd i'w gwella?
- A yw rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn glir, yn deg ac yn dryloyw?
- A yw ein cynlluniau gwella yn seiliedig ar beth sydd angen ei wella yn union? A yw'r cynlluniau yn dweud yn glir pa gamau y byddwn yn eu cymryd a sut byddwn ni'n mesur llwyddiant?

## Cwestiynau i gonsortia rhanbarthol

- Sut ydyn ni'n defnyddio arfer orau mewn arweinyddiaeth i gefnogi gwella systemau?
- Sut ydyn ni'n cynorthwyo datblygiad proffesiynol arweinwyr i greu diwylliant dysgu a system o hunanwella?
- Sut gallwn ni gefnogi arweinyddiaeth ysgol orau i sicrhau gwelliant yn yr addysgu a deilliannau dysgwyr?
- Sut ydyn ni'n arfarnu effaith strategaethau i wella ansawdd arweinyddiaeth ysgol?



# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu addysg a ariennir ar gyfer plant tair oed ac ychydig iawn o blant pedair oed mewn lleoliadau heb fod mewn ysgolion yn ogystal ag mewn ysgolion. Nid yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn, ond maent yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn darparu addysg gynnar a ariennir sydd o ansawdd da, gan gynnwys cynnig cyngor a chymorth gan athro cymwys. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoliadau sy'n cynnig addysg, o ryw 737 yn 2010 i ryw 613 eleni.

Eleni, fe wnaethom arolygu 90 o leoliadau. Dros y cylch arolygu 2010-2017, cynhaliom 789 o arolygiadau. Mae hyn yn cynnwys 15 o arolygiadau peilot ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) rhwng 2015 a 2017. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau. Mewn lleoliadau bach, lle ceir llai na chwech o blant a ariennir ar gyfer addysg ran-amser, mae arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol.

# Deilliannau:
# Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed


## Safonau

Trwy gydol y cylch arolygu, mae safonau wedi bod yn gyson dda neu'n well mewn rhyw naw o bob deg lleoliad lle'r arolygom safonau. Mae lleoliadau wedi cynnal safonau da mewn llythrennedd a rhifedd, a bu gwelliant graddol o ran safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac mewn Cymraeg.


Bob blwyddyn, yn y rhan fwyaf o leoliadau cyfrwng Saesneg ac mewn llawer o leoliadau cyfrwng Cymraeg, mae llawer o blant yn datblygu'u medrau siarad yn dda. Maent yn siarad yn rhydd â'i gilydd ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion yn eu deall. Mae llawer o blant yn gwrando'n astud ar storïau. Maent yn gwybod sut i ddal llyfrau yn gywir ac yn dangos diddordeb yn y lluniau a'r testun. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o offer yn hyderus i wneud marciau gyda mwy a mwy o reolaeth. Yn gynyddol, maent yn datblygu'u medrau gwneud marciau yn dda mewn gwahanol gyd-destunau, fel pan fyddant yn 'ysgrifennu' rhestri a bwydlenni mewn caffi chwarae rôl. Mae ychydig o blant mwy abl yn ysgrifennu llythrennau y gellir eu hadnabod. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'u henwau wrth fewngofnodi pan fyddant yn cyrraedd.

Trwy gydol y cylch arolygu, mae llawer o blant yn cyfrif i ddeg yn hyderus. Maent yn cyfrif gwrthrychau yn gywir, fel faint o olwynion sydd ar gerbydau gwahanol. Mae llawer ohonynt yn siarad am faint a phwysau yn naturiol yn eu chwarae, er enghraifft pan ddônt o hyd i gorynnod mawr a bach tu allan. Maent yn didoli ac yn cydweddu teganau ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn syml yn hyderus. Lle ceir arfer gadarn, mae plant yn datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau yn dda. Er enghraifft, mae plant yn awgrymu beth sydd ei angen ar froga i gadw'n fyw mewn tywydd poeth. Mae medrau meddwl plant wedi gwella ar draws y cylch arolygu.

**Ffigur 2.1:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.2:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)



Mewn nifer gynyddol o leoliadau, mae plant yn arbrofi ag ystod gynyddol o adnoddau TGCh yn gymwys, ond dim ond ychydig o blant sy'n defnyddio'r offer yn hyderus i'w helpu i ddysgu. Dros y cylch, mae safonau mewn Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wedi gwella. Ond eto, mewn gormod o leoliadau, mae defnydd plant o'r Gymraeg yn gyfyngedig i sesiynau byr dan arweiniad oedolyn ac mae safonau Cymraeg yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu yn fynych. Mewn rhyw draean o leoliadau cyfrwng Cymraeg lle'r ydym wedi adrodd ar safonau, mae arolygwyr wedi nodi diffygion o ran plant yn datblygu Cymraeg llafar.


## Lles

Dros y cylch arolygu, rydym wedi gweld lleoliadau yn cynnig mwy o ddewis o weithgareddau a phlant yn magu hyder wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae plant yn penderfynu'n rheolaidd ym mha ran o'r lleoliad y maent eisiau chwarae a dysgu, a pha adnoddau y byddant yn eu defnyddio. Mae llawer o blant yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae plant yn deall y rheolau ac yn dilyn y drefn ddyddiol yn dda. Maent yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr, fel dysgu cymryd eu tro wrth ddyfrhau blodau mewn ardal awyr agored.


Ar draws y sector, mae llawer o blant bellach yn datblygu'u medrau hunangymorth yn dda, fel pan fyddant yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn dysgu i wisgo dillad awyr agored a ffedogau. Yn gynyddol, mae plant yn ymgymryd â chyfrifoldebau priodol, fel rhannu platiau adeg byrbryd a helpu i dacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae lles yn ddigonol, mae gormod o blant yn methu canolbwyntio, nid ydynt yn gwrando ar gyfarwyddiadau nac yn eu dilyn, ac mae ganddynt fedrau hunangymorth a medrau penderfynu gwael.

**Ffigur 2.3:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.4:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles
(Cylch arolygu 2010-2017)




# Darpariaeth:
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn gyson dda neu'n well mewn bron i naw o bob deg lleoliad dros y cylch arolygu. Bu gwelliannau yn ansawdd y cynllunio a'r profiadau a gynigir wrth i ymarferwyr ganolbwyntio mwy ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mewn gormod o leoliadau, fodd bynnag, nid yw gweithgareddau wedi'u cynllunio yn helpu plant i wneud cynnydd yn systematig neu nid ydynt yn herio plant mwy abl yn ddigonol. Bu gwelliant yn amrywiaeth ac ansawdd adnoddau TGCh mewn lleoliadau, ond yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon gofalus i blant ddefnyddio'r adnoddau hyn yn bwrpasol.


Yn gynyddol, mae ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn defnyddio caneuon, ymadroddion syml a chyfarchion i helpu plant i ddysgu Cymraeg fel rhan o'u trefn arferol. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon gofalus i helpu plant i ddatblygu'u medrau iaith yn gynyddol nac i ymestyn plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Mae defnydd ymarferwyr o ymweliadau ac ymwelwyr i ddod â'r dysgu yn fyw ac i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau plant wedi gwella dros y cylch. Er enghraifft, mae plant yn datblygu'u hyder a'u chwilfrydedd pan fyddant yn mynd â rhestr siopa i archfarchnad leol i brynu cynhwysion i wneud cacennau ar gyfer digwyddiad codi arian.

**Ffigur 2.5:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.6:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg lleoliad. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr wedi gwella o ran gofyn cwestiynau sy'n datblygu medrau meddwl plant. Maent yn camu i mewn yn fwy medrus i helpu plant i ddysgu wrth iddynt chwarae, ac yn defnyddio strategaethau cyson i gynorthwyo ymddygiad da. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn llai llwyddiannus o ran darparu cyfleoedd i blant ddatrys problemau. Mewn ychydig o leoliadau eleni, mae oedolion wedi tueddu arwain gormod o weithgareddau a chaiff hyn effaith negyddol ar annibyniaeth, medrau meddwl a medrau datrys problemau plant. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle ceir arfer gadarn, mae ymarferwyr yn creu ethos Cymreig cyfoethog ac yn modelu Cymraeg llafar o safon uchel. Dros y cylch arolygu, fodd bynnag, nid yw safon Cymraeg llafar sy'n cael ei fodelu yn ddigon cywir mewn ychydig o leoliadau. Mae asesu cynnydd plant yn effeithiol a chysylltu hyn â'r cynllunio yn parhau yn faes i'w ddatblygu. Mewn gormod o leoliadau, mae'r systemau a ddefnyddir yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, ac nid ydynt yn helpu ymarferwyr i ddeall pa fedrau y mae angen i blant eu dysgu nesaf.

Mae bron pob lleoliad yn darparu safonau gofal uchel ac mae ganddynt drefniadau addas i gadw plant yn ddiogel. Mae dysgu am fwydydd iach a hylendid da wedi dod yn rhan fuddiol o'r drefn ddyddiol yn y rhan fwyaf o leoliadau, a bu gwelliannau mewn cyfleoedd i blant wneud penderfyniadau, ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu'u medrau hunangymorth. Mae llawer o leoliadau yn darparu adegau hudolus sy'n ysbrydoli ymdeimlad o synnu a rhyfeddu at y byd o'u hamgylch. Mae hyn yn arbennig o gadarn yn yr awyr agored, er enghraifft pan fydd plant yn ymhyfrydu wrth godi'r radisys y maent wedi'u tyfu. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth awyr agored wedi gwella dros y cylch arolygu, gydag ychydig iawn o leoliadau yn datblygu mannau awyr agored bywiog eithriadol. Fodd bynnag, mae cynllunio'n ofalus i ddatblygu medrau plant yn yr awyr agored yn dal yn faes pwysig i'w ddatblygu yn y sector.

Eleni, ceir pryderon yn ymwneud â diogelu mewn ychydig iawn o leoliadau. Yn y lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg yn ddigon trylwyr, nid yw polisïau'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, ac nid oes dealltwriaeth ddigon da gan ymarferwyr o'r gweithdrefnau i'w dilyn ac nid ydynt ychwaith yn dilyn y rhain yn briodol.

## Meithrinfa Ddydd Mrs Tiggywinkles

Mae'r ddarpariaeth awyr agored yn **Meithrinfa Ddydd Mrs Tiggywinkles** yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ymarfer ac atgyfnerthu ystod o fedrau. Mae hyn yn eu helpu i gyflawni deilliannau da yn y Cyfnod Sylfaen.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae safonau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn bron i naw o bob deg lleoliad dros y cylch arolygu. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn lleoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn gyffredinol dda, mae systemau i arfarnu safonau ac i nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella yn rhy gymhleth yn aml ac yn cymryd gormod o amser i fod yn effeithiol, ac nid yw arweinwyr yn deall diben arfarnu'u gwaith yn ddigon da. Mae hwn yn parhau'n faes pwysig i'w ddatblygu yn y sector.

Lle ceir arweinyddiaeth dda, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar y safonau a gyflawnir gan blant. Maent yn adeiladu timau cadarn, yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn helpu ymarferwyr i wella trwy drafodaethau gonest am reoli perfformiad. Maent yn croesawu cyngor gan bartneriaid, ac mae eu pwyllgorau rheoli yn eu cynorthwyo'n dda. Lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae gweledigaeth uchelgeisiol gan arweinwyr i gyflawni'r safonau uchaf o ran arfer yn y Cyfnod Sylfaen, gan bennu disgwyliadau uchel ac ysbrydoli ymarferwyr, rhieni a phlant. Ar draws y sector, nid yw arweinwyr llai llwyddiannus yn canolbwyntio'n ddigon da ar beth mae'r plant yn ei ddysgu. Nid oes ganddynt weledigaeth ac nid ydynt yn helpu ymarferwyr i wella nac yn eu cynnwys digon wrth gynllunio a hunanarfarnu.


**Meithrinfa Ddydd Plas Gogerddan**

Mae arweinyddiaeth strategol yn Gofal **Plant Gogerddan** wedi ymgorffori dysgu awyr agored yn narpariaeth y feithrinfa. O ganlyniad, bu gwelliannau yn hyder a datblygiad iaith y plant.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.7:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.8:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn datblygu partneriaethau effeithiol. Dros gyfnod, mae'r cyfathrebu gyda rhieni a phartneriaethau gydag ysgolion wedi gwella. Mae llawer o leoliadau'n gwneud defnydd da yn gynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol, gan gynnwys rhieni mwy yn nysgu eu plant. Bu cynnydd mewn partneriaethau adeiladol gyda'r gymuned leol, gyda mwy o leoliadau'n gwahodd ymwelwyr i siarad â'r plant a threfnu teithiau i'r ardal leol er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mewn llawer o leoliadau, mae ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant i ddatblygu'u dealltwriaeth o arfer y Cyfnod Sylfaen, gan arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Dim ond ychydig o ymarferwyr sy'n ymweld â lleoliadau eraill i ddysgu oddi wrth rai eraill. Ers dechrau'r cylch arolygu, mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau y mae lleoliadau'n eu darparu wedi gwella, gyda ffocws cryfach ar ddarparu adnoddau i ddatblygu medrau penodol. Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm wedi darparu'r rhain yn aml fel rhan o'u pecyn cymorth. Lle mae pwyllgorau cyllid sefydledig gan leoliadau, yn gyffredinol mae'r rhain yn rheoli cyllid y lleoliad yn dda. Nid yw cyllid yn cael ei reoli'n ddigon gofalus i sicrhau atebolrwydd mewn ychydig iawn o leoliadau. Eleni, mewn mwyafrif o leoliadau a arolygwyd, mae'r awdurdod lleol yn parhau i gynnal y Grant Datblygu Disgyblion y Cyfnod Sylfaen er mwyn darparu hyfforddiant ac adnoddau.



## Meithrinfa Llandogo Early Years

Mae staff ym **meithrinfa Llandogo Early Years** yn monitro chwarae'r plant yn ofalus i asesu pa fedrau sydd gryfach a pha rai y mae angen eu datblygu'n ychwanegol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Sunflower Tots

Yn **Sunflower Tots**, mae'r cydlynydd gofal plant yn monitro staff yn rheolaidd er mwyn rhoi dealltwriaeth dda iddi o gryfderau'r cylch chwarae a meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn ei galluogi i nodi'r adnoddau a'r hyfforddiant newydd sydd eu hangen i wella'r ddarpariaeth.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

# Gweithgarwch dilynol: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn ychydig iawn o leoliadau, lle mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr yn eithriadol o dda ac yn datblygu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli dan do ac yn yr awyr agored. Mae angen ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar ryw bedwar o bob deg lleoliad, ac fe wnaethom roi ychydig iawn o leoliadau yn y categori gwelliant â ffocws.

Mae'r lleoliadau y mae angen eu monitro gan yr awdurdod lleol, yn tueddu i fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer arfarnu a gwella eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu effeithiol a chynnwys yr holl ymarferwyr yn adeiladol wrth asesu pa mor dda y maent yn dod yn eu blaen. Mewn llawer o'r lleoliadau hyn, mae angen i ymarferwyr fireinio'u cynlluniau i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau plant yn effeithiol a gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn gwneud cynnydd da. Lle mae angen monitro gan Estyn ar leoliadau, nid yw gweithdrefnau ar gyfer gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes dealltwriaeth ddigon cadarn gan arweinwyr o ddiben cynllunio ac asesu. Nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod y rhain yn datblygu'r ystod lawn o fedrau plant ar lefel briodol. Mewn ychydig o'r lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr yn ddigon medrus yn helpu plant i ddysgu dilyn cyfarwyddiadau a datblygu'u medrau siarad, ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i blant weithio yn yr awyr agored. Mae angen gwelliant â ffocws ar dri lleoliad eleni. Mae hyn yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn y lleoliadau hyn, nid yw arweinwyr yn darparu synnwyr digon cryf o gyfeiriad, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar beth a sut mae'r plant yn dysgu ac nid ydynt yn cymhwyso polisïau'r lleoliad yn drwyadl.

**Ffigur 2.9:**
Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017




Dros y cylch arolygu yn gyffredinol, nodom arfer ragorol mewn rhyw un o bob deg lleoliad. At ei gilydd, canfu arolygwyr yr arfer gryfaf mewn arweinyddiaeth, partneriaethau â rhieni, a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae angen ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar ryw draean o leoliadau a arolygwyd. Mae angen gwelliant â ffocws ar ychydig iawn o'r lleoliadau arolygwyd. Yn gyffredinol, o ran lleoliadau y mae angen ymweliadau arnynt gan yr awdurdod lleol, mae arnynt angen mwy o amser i fireinio'r ffordd y maent yn cynllunio i ddatblygu medrau plant, neu i ymgorffori'u gweithdrefnau hunanarfarnu. Yn y lleoliadau y mae angen eu monitro gan Estyn, ceir prosesau sydd heb eu datblygu'n ddigonol ar gyfer nodi a mynd ar drywydd blaenoriaethau ar gyfer gwella ac ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae hyn yn arwain at wendidau mewn safonau a darpariaeth. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn gwneud cynnydd da ac yn dod allan o gategori gweithgarwch dilynol yn gyflym. Mae hyn yn cynnwys ychydig iawn o leoliadau y nodwyd y llynedd fod angen gwelliant â ffocws arnynt. Yn y lleoliadau hyn, canolbwyntiodd arweinwyr yn dda ar yr argymhellion gyda chymorth cadarn gan y pwyllgor rheoli, a gwnaethant ddefnydd da o gyngor gan asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol. Bob blwyddyn, nid yw ychydig iawn o leoliadau yn gwneud digon o gynnydd tra'u bod yn cael eu monitro gan yr awdurdod lleol ac maent yn symud i'r categori angen monitro gan Estyn. Mae ychydig iawn o leoliadau y nodwyd yn flaenorol fod angen monitro gan Estyn arnynt yn gwneud cynnydd araf hefyd, ac mae angen gwelliant â ffocws arnynt.





**Ffigur 2.10:**
Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol (Cylch arolygu 2010-2017)



# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2017, roedd 1,298 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 160 yn llai nag yn Ionawr 2011 pan oedd 1,458 o ysgolion cynradd (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae nifer y disgyblion cynradd wedi cynyddu o 259,189 yn Ionawr 2011 i 276,940 yn Ionawr 2017, sy'n debyg i nifer y disgyblion y llynedd (Llywodraeth Cymru, 2017d).

Dros y cylch arolygu 2010-2017, cynhaliwyd 1,484 o arolygiadau craidd o ysgolion cynradd. Yn 2016-2017, fe wnaethom gwblhau 186 o arolygiadau. Cynhaliom beilot o'r trefniadau arolygu newydd mewn wyth ysgol. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

# Deilliannau: Ysgolion cynradd

## Safonau


Dros y cylch arolygu, mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw saith o bob deg ysgol gynradd. Mewn ychydig iawn o ysgolion y ceir safonau rhagorol. Mae ystod y barnau wedi aros tua'r un fath trwy gydol y cyfnod.

Rhwng 2010 a 2017, gwelsom welliannau mewn perfformiad, yn enwedig bechgyn a disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mewn rhyw draean o ysgolion, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'r hyn y gallent ei gyflawni nac yn defnyddio'u medrau ar lefel uchel.


Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, bu gwelliant graddol ym medrau llythrennedd disgyblion a'u gallu i gymhwyso'r rhain ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando da a dônt yn gyfathrebwyr hyderus, yn enwedig yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn pan fyddant yn cael cyfleoedd da i ryngweithio gydag oedolion yn ystod dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn. Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud i fodel o losgfynydd ffrwydro. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion ystod eang o destunau y maent yn eu defnyddio'n dda wrth ddatblygu'u hysgrifennu eu hunain. Yn yr ysgolion gorau, maent yn ysgrifennu'n fedrus ac yn helaeth ar draws amrywiaeth eang o genres, gan gynnwys hunangofiant, barddoniaeth, adroddiadau ac erthyglau papur newydd. Er enghraifft, mae disgyblion mewn un ysgol yn defnyddio geirfa ddifyr a dychmygus mewn cerdd sy'n disgrifio'r synau a wneir gan ddeinosor. Mewn rhyw dri chwarter o ysgolion, nad ydynt yn cymhwyso arfer y Cyfnod Sylfaen yn gyson, mae gormod o dasgau sydd

**Ffigur 2.11:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.12:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)



wedi'u gor-strwythuro yn cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n greadigol ac yn annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sy'n gwella o lythrennau a seiniau, a defnyddiant hyn yn dda i ddatgodio testunau. Mae llawer yn deall beth maent yn ei ddarllen, gallant drafod trywydd plot, a gwneud rhagfynegiadau syml ynghylch beth allai ddigwydd nesaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar y medrau llefaredd y maent wedi'u datblygu yn y Cyfnod Sylfaen. Mewn rhyw wyth o bob deg ysgol, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cymhwyso'u dealltwriaeth o nodweddion mathau gwahanol o destunau yn dda wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn trefnu'u brawddegau yn rhesymegol ac yn defnyddio geirfa llawn dychymyg wrth ysgrifennu hud i droi athro yn ystlum. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, mae disgyblion yn cael anhawster ysgrifennu'n greadigol ac nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. Mae gormod o ddisgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol mewn sillafu ac atalnodi. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw safonau llawysgrifen a chyflwyno yn ddigon da. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn fanwl am y plot a'r cymeriadau mewn stori, a defnyddiant fedrau darllen lefel uwch, fel rhesymu a dod i gasgliad, yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae brwdfrydedd disgyblion ar gyfer llenyddiaeth, eu gwybodaeth am wahanol awduron a storïau, a'u gallu i fynegi hoffter ynghylch llyfrau, awduron neu genres penodol, wedi dirwyio dros y cylch. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i ysgrifennu'n estynedig neu'n greadigol.

Mae medrau rhif sylfaenol disgyblion wedi gwella yn ystod y cylch arolygu. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion defnyddio'u gallu i gofio ffeithiau rhif yn dda i gwblhau cyfrifiadau syml yn ystod gwersi mathemateg dynodedig. Mae gallu disgyblion i ddatrys problemau a chymhwyso'u medrau mewn pynciau eraill yn parhau heb ei ddatblygu'n ddigonol.

Yn y chwarter o ysgolion sy'n cymhwyso egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau derbyn yn datblygu'u dealltwriaeth o rif yn dda wrth gyfrif cyfarpar ar gyfer picnic. Ym Mlwyddyn 1, maent yn datblygu'u dealltwriaeth o fesur ac yn cofio bondiau rhif syml wrth gyfuno cynhwysion i ddilyn rysáit mewn "cegin fwd". Mewn ychydig o ysgolion yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu'r gallu i gymhwyso'u medrau rhifedd ar lefel uchel mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn benodol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ac yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn gwersi gwyddoniaeth. Er enghraifft, maent yn mesur yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol ac yn defnyddio meddalwedd cronfa ddata i gofnodi a dadansoddi'u canfyddiadau. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd pwnc eraill. Er enghraifft, mewn addysg grefyddol, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datrys problemau aml-gam yn systematig i weithio allan prisiau prydau bwyd gwahanol ac i gyfrifo disgowntiau canran i'r cwsmer wrth greu bwydlenni cosher. Mewn gormod o achosion, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael anhawster datrys problemau go iawn mwy cymhleth, ac yn gyffredinol nid yw disgyblion o bob oed yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

## Ysgol Gynradd Parcyrhun

Mae staff yn **Ysgol Parcyrhun** wedi creu cronfa o gemau gwahaniaethol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu bob dydd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence


Mewn ychydig o dan ddwy ran o dair o ysgolion, ceir diffygion pwysig mewn safonau TGCh. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio prosesu geiriau, cyhoeddi bwrdd gwaith a meddalwedd cyflwyno yn dda i gyflwyno gwybodaeth. Maent yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein, chwilio'r rhyngrwyd i gynorthwyo'u hastudiaethau a llunio barnau defnyddiol ar werth y wybodaeth a gânt. Yn 2016-2017, roedd gwelliant bach mewn defnydd disgyblion o gronfeydd data a thaenlenni. Eto nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau a fynnir gan y cwricwlwm cenedlaethol o hyd. Mewn ychydig o ysgolion, yn enwedig y rhai sydd wedi dechrau addasu'u haddysgu i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD), mae disgyblion yn datblygu medrau mewn rheoli data a chodio syml. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu robotau syml o gitiau adeiladu ac yn ysgrifennu rhaglenni i'w symud o amgylch drysfa.

Nid yw safonau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi gwella llawer dros y cylch arolygu. Derbyniodd rhyw draean o ysgolion argymhellion i wella safonau Cymraeg. Mewn llawer o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau yn ystod y cyfnod meithrin a derbyn, ond nid ydynt yn adeiladu ar y medrau hyn wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Prin y byddant yn defnyddio Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig, ac nid yw'r medrau ganddynt i ymateb i gwestiynau syml y tu allan i gyd-destun gwers.


## Lles

Mae safonau lles wedi bod yn gyson dda neu'n well mewn saith o bob deg ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd ac oedolion gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd, a gwnânt ddewisiadau synhwyrol ynglŷn â beth maent yn ei fwyta yn ystod amser byrbryd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio'n dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn datblygu medrau bywyd a medrau cymdeithasol da. Pan gânt y cyfle, mae'r medrau i weithio'n annibynnol gan lawer o'r disgyblion. Yn yr

**Ffigur 2.13:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1:2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.14:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1:2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



ysgolion gorau, mae disgyblion yn ymgymryd â rôl sylweddol i gynllunio beth maent yn dysgu a sut. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae tasgau gor-strwythuredig a osodir gan athrawon yn cyfyngu ar ddatblygu gallu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac mae hyn yn rhwystro'r cynnydd a wnânt.

Dros y cylch arolygu, bu cynnydd nodedig mewn cyfleoedd i ddisgyblion fynegi'u barnau ar waith eu hysgol. Yn ychwanegol at gynghorau ysgol ac eco-bwllgorau, mae ystod eang o grwpiau eraill o ddisgyblion yn eu galluogi i gyfrannu at waith yr ysgol erbyn hyn. Er enghraifft, mae mwy a mwy o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn arsylwadau o wersi a gwnânt gyfraniadau defnyddiol at gynlluniau i wella ymgysylltiad disgyblion. Er enghraifft, mae 'siryfion' dysgu yn gofyn am farnau disgyblion ar bynciau fel darllen a gwaith cartref. Mewn rhyw draean o ysgolion, mae oedolion yn cyfeirio gwaith grwpiau, fel y cyngor ysgol, yn ormodol ac yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion a datblygiad eu medrau arwain.

Mae presenoldeb wedi gwella yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn 2010-2011, cyfartaledd presenoldeb disgyblion oedd 93.3% ac roedd hyn wedi codi i 94.9% yn 2016-2017 (Llywodraeth Cymru, 2017e).

# Darpariaeth: Ysgolion cynradd

Ar draws y cylch arolygu, mae darpariaeth wedi bod yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol.

## Profiadau dysgu

Dros y saith mlynedd diwethaf, bu newidiadau yn ansawdd ac ystod y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Ar ôl rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith, roedd mwyafrif o athrawon yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn unig. Fe wnaeth hyn gyfyngu ar ystod profiadau dysgu disgyblion a chyfyngu ar ddatblygu medrau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae'r duedd hon wedi gwella tuag at ddiwedd y cylch, ac ar hyn o bryd mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu ystod ehangach o fedrau disgyblion ar draws y rhan fwyaf o bynciau a meysydd dysgu. Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm drwy brofiadau uniongyrchol 'go iawn' a pherthnasol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau o amgylch creu 'parti stryd 1945' lle caiff disgyblion gyfleoedd i greu amserlenni a rhestri, trosi unedau o fetrig i imperial, a gweithio o fewn cyllideb.

Yn fwy diweddar, mae nifer gynyddol o athrawon wedi annog disgyblion i gyfrannu syniadau at destunau ac i awgrymu syniadau ar gyfer ymweliadau ac ymwelwyr. Mae hyn yn helpu disgyblion i gymryd perchenogaeth dros eu dysgu ac yn cynnal eu diddordeb. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cynlluniau cwricwlwm rhy anhyblyg yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon ymateb i


### Ysgol Gymraeg Casnewydd

Mae **Ysgol Gymraeg Casnewydd** yn datblygu medrau meddwl disgyblion drwy athroniaeth ac yn annog creadigrwydd trwy weithgareddau drama byrfyfyr.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.15:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.16:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Ceir diffygion yn y ddarpariaeth cwricwlwm mewn rhyw draean o ysgolion eleni. Mae hyn yn uwch na'r llynedd. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r cynllunio'n adeiladu'n systematig ar fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu. Ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol neu ar y lefel briodol wrth weithio ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn rhifedd a TGCh. Mewn rhyw dri chwarter o ysgolion, mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n anghyson, ac mae'n rhy ffurfiol yn aml, yn enwedig ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol ac i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mewn rhyw chwech o bob deg ysgol cyfrwng Saesneg, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu medrau llefaredd Cymraeg disgyblion mewn gwersi Cymraeg, mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ac yn ystod gweithgareddau anffurfiol.

## Addysgu

Mae ansawdd yr addysgu wedi amrywio dros y cylch, ond mae'n dda neu'n well mewn rhyw saith o bob deg ysgol. Lle ceir addysgu da neu well, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio'n dda â'i gilydd i greu amgylchedd gweithio cadarnhaol i'r holl ddisgyblion ac i wneud dysgu'n hwyl. Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n ennyn diddordeb ac yn herio disgyblion o bob gallu, er enghraifft drwy sefydlu cloddfa archaeolegol i ddisgyblion ddarganfod arteffactau sy'n berthnasol i destun. Maent yn strwythuro'r dysgu yn dda ac mae gwersi'n mynd yn eu blaen ar rediad cyflym. Defnyddiant dechneg holi fedrus i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion ac i ymyrryd ar adegau priodol er mwyn darparu cymorth effeithiol. Ar draws y cylch, mae athrawon wedi darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio.

Lle ceir diffygion yn yr addysgu, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn briodol, yn enwedig y rhai mwy abl. Nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion, ac yn aml ceir gor-gyfarwyddo yn y dysgu ac nid yw'n rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol nac i herio'u meddwl eu hunain.

Dros y cylch arolygu, mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae athrawon wedi gweithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu, er enghraifft, drwy sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wybod i gyrraedd eu nodau dysgu. Mae ansawdd yr adborth i ddisgyblion wedi parhau'n amrywiol dros y cylch. Caiff rhyw un o bob pum ysgol argymhellion i sicrhau bod adborth yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

### Ysgol Pencae

Yn **Ysgol Pencae**, caiff medrau Cymraeg a Saesneg disgyblion eu datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt fynd i'r ysgol uwchradd. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cael cyfle i ddysgu Ffrangeg a Mandarin hefyd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yn **Ysgol Gymraeg Aberystwyth**, bu athrawon profiadol o'r ysgol yn gweithio gyda disgyblion, athrawon dan hyfforddiant a sefydliadau lleol i ddatblygu cyfres o weithgareddau ar thema'r awdur, T.Llew Jones.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Dros y cylch arolygu, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu systemau defnyddiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi bylchau yn y dysgu nac i ddarparu digon o her i'r holl ddisgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn gyson dda neu'n well mewn dros naw o bob deg ysgol ar draws y cylch arolygu. Mae'r ysgolion hyn yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo byw'n iach, er enghraifft, drwy annog disgyblion i redeg y filltir ddyddiol a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu strategaethau effeithiol i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da. Trwy gydol y cylch, bu trefniadau addas ar gyfer diogelu disgyblion gan bron bob ysgol.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae staff yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Defnyddiant ystod o raglenni ymyrryd i gynorthwyo'r disgyblion hyn ac i fonitro'u cynnydd yn ofalus. Dros y saith mlynedd, mae llawer o ysgolion wedi datblygu dulliau arloesol i gefnogi ac annog iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys drwy weithio gyda gwasanaethau arbenigol. Er enghraifft, mae sesiynau therapi gyda theganau adeiladu yn gwella medrau canolbwyntio disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion sy'n agored i niwed siarad ag oedolion am eu teimladau a'u pryderon. Lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn llai effeithiol, mae'r pryderon yn ymwneud â diogelu disgyblion neu am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol.

### Ysgol Gymunedol Doc Penfro

Yn **Ysgol Gymunedol Doc Penfro**, cyflwynwyd nifer o strategaethau sy'n annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain ac asesu eu gwaith eu hunain yn well.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Palmerston

Yn **Ysgol Gynradd Palmerston**, mae 'Dydd Gwener Adborth' yn rhoi llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain ac i ymateb y sylwadau gan athrawon a'u cyfoedion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Yr amgylchedd dysgu

Ceir ethos croesawgar a chynhwysol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae ffocws clir gan y rhan fwyaf ar adnabod, parchu a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu dulliau buddiol o ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o werthoedd a'u hawliau fel plant.

Gwna naw o bob deg ysgol ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd ffisegol i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion, dan do a thu allan. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd â lle cyfyngedig neu heriau o ran gosodiad yr adeilad yn gwneud defnydd da o'r holl fannau sydd ar gael i wella dysgu disgyblion. Yn gyffredinol, mae argymhellion yn canolbwyntio ar wella mynediad i'r ddarpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen, a'r defnydd ohoni.



### Ysgol Gynradd Parc Hendredenny

Yn **Ysgol Gynradd Parc Hendredenny**, mae'r holl staff yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu i nodi bylchau yn nysgu'r disgyblion. Defnyddir ymyriadau targedig yn ddi-oed i helpu i gau'r bylchau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Talysarn

Yn **Ysgol Gynradd Talysarn**, ceir cymorth arbennig o effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad unigolion, ac mae'n hyrwyddo'u hymdeimlad o hunanwerth.

Darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion cynradd

## Arweinyddiaeth

Dros y cylch arolygu, mae ansawdd yr arweinyddiaeth wedi bod yn dda neu'n well mewn bron i dri chwarter o ysgolion.

Ym mron pob ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran pennu effeithiolrwydd ysgol. Ceir heriau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion ffydd ac ysgolion bach mewn ardaloedd gwledig. Mewn ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well, ceir gweledigaeth addysgol y mae dealltwriaeth dda ohoni, ac ymdrech i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu ethos tîm ac yn sicrhau bod staff yn rhannu gwerthoedd craidd grymus er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau posibl i'r holl ddisgyblion. Ceir trefniadau cadarn i ddosbarthu cyfrifoldebau arwain. Mae prosesau rheoli perfformiad yn codi safonau disgyblion drwy wella ansawdd yr addysgu, er enghraifft drwy nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol.

Mae llywodraethu ysgolion wedi gwella dros y cylch arolygu. Bellach, mae gan bron yr holl lywodraethwyr ysgolion lefel hyfforddiant sylfaenol o leiaf sy'n eu helpu i ymgymryd â'u dyletswyddau gyda mwy a mwy o hyder. Mae dealltwriaeth addas gan y rhan fwyaf ohonynt o gryfderau eu hysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mewn ysgolion lle mae llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad i gryfhau eu rolau ac i ddatblygu'u medrau, maent yn cynorthwyo ac yn herio ysgolion i wella, er enghraifft, trwy reoli perfformiad penaethiaid. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn cyflawni'u rôl fel ffrind beirniadol yn ddigon da, ac nid ydynt yn dylanwadu digon ar hunanarfarnu neu gynllunio gwelliant.


### Ysgol Comins Coch

Yn **Ysgol Comins Coch**, mae cydweithio rhwng y staff a dosbarthu arweinyddiaeth yn meithrin diwylliant dysgu proffesiynol sydd wedi cael effaith sylweddol ar addysgu a dysgu.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.17:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.18:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Bu blaenoriaethau cenedlaethol pwysig i arweinwyr ysgol fynd i'r afael â nhw yn ystod y cylch arolygu. Mae llawer o arweinwyr ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her hon. Er enghraifft, maent wedi gwneud trefniadau effeithiol i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith. Maent yn sicrhau bod ffocws ysgol gyfan, cryf ar ddatblygu medrau disgyblion. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir trefniadau cadarn i ddatblygu medrau darllen cynnar disgyblion a darparant gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau ysgrifennu mewn gwaith testun. Mewn gormod o achosion, fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod eu hysgol yn gweithredu addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn ddigon da. Er enghraifft, daw'r dysgu yn rhy ffurfiol yn rhy gyflym, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2, ac nid yw disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol effeithiol. Y rheswm am hyn yn aml yw pryderon ynghylch canlyniadau profion cenedlaethol disgyblion neu oherwydd eu bod yn 'paratoi' disgyblion ar gyfer addysg fwy ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Hefyd, ceir diffyg dealltwriaeth ymhlith llawer o arweinwyr ynglŷn ag arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen.

Caiff llawer o'r arweinwyr ysgol mwyaf effeithiol ddylanwad cadarnhaol y tu hwnt i'w hysgolion eu hunain. Er enghraifft, maent yn darparu cymorth i ysgolion llai llwyddiannus trwy rannu'u profiad ac arfer orau. Mae'r arweinwyr hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu system o hunanwella. Mae ganddynt yr hyder i ddewis y blaenoriaethau gwella priodol a'r dewrder i fabwysiadu blaenoriaethau lleol fel eu bod yn cydweddu ag anghenion yr ysgol.

## Gwella ansawdd

Ar gyfartaledd, mae trefniadau da neu well gan ychydig dros ddwy ran o dair o ysgolion ar gyfer arfarnu a gwella eu gwaith eu hunain. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i ystod o ddata, ond nid ydynt yn gorddibynnu ar hyn wrth lunio barnau ynglŷn â gwaith eu hysgol. Yn lle hynny, maent yn defnyddio dadansoddi data ochr yn ochr ag ystod ehangach o weithgareddau arfarnu, fel arsylwadau o wersi a chraffu ar waith er mwyn arfarnu safonau disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod. Mae hyn yn helpu ysgolion i ddod i gasgliadau dilys ynglŷn ag ansawdd addysg a dysgu ac i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir. Mae arweinwyr yn cynllunio camau gweithredu addas i sicrhau gwelliannau ac yn cefnogi hyn gyda chyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol. Yn yr ysgolion hyn, mae cysondeb da rhwng hunanarfarnu, cynllunio gwelliant, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn gynyddol, mae arweinwyr yn ystyried barnau disgyblion fel rhan o'u gweithgareddau hunanarfarnu. Er enghraifft, defnyddiant holiaduron i gasglu barnau disgyblion ynglŷn â beth yr hoffent ei newid. Maent yn gweithredu'n briodol ar y wybodaeth hon. Ychydig iawn o ysgolion sy'n defnyddio barnau disgyblion yn effeithiol i arfarnu ansawdd yr addysgu neu'r arweinyddiaeth.

Nid yw rhyw draean o ysgolion yn dda o ran gyrru eu gwelliant eu hunain. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae prosesau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am lwyddiant eu gwaith yn aneffeithiol. Mae gweithgareddau monitro'n ymwneud gormod â nodi p'un a yw athro wedi gweithio mewn ffordd benodol yn hytrach nag arfarnu effaith y gwaith hwn ar gynnydd disgyblion. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn nodi'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella oherwydd bod eu prosesau arfarnu yn wan. Nid ydynt yn cynllunio'n strategol ar gyfer newid ac maent yn cyflwyno mentrau mewn modd heb ei gynllunio.

### Ysgol Gynradd Bontnewydd

Datblygodd **Ysgol Gynradd Bontnewydd** raglen hyfforddi ar gyfer ei llywodraethwyr a roddodd y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn well.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd Saron

Mae **Ysgol Gynradd Saron** yn talu sylw manwl i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â TGCh, medrau meddwl a'r dimensiwn Cymreig.

Darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Gweithio mewn partneriaeth

Dros gyfnod y cylch arolygu, gweithio mewn partneriaeth fu'r nodwedd gryfaf mewn arweinyddiaeth ysgolion cynradd. Mae gan fwy na naw o bob deg ysgol bartneriaethau strategol da neu well sy'n gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae gwaith partneriaeth gyda theuluoedd yn gryfder sy'n cynyddu, yn enwedig lle mae disgyblion yn wynebu cryn rwystrau rhag dysgu oherwydd eu cefndiroedd.

Yn gyffredin, caiff partneriaethau effeithiol effaith gadarnhaol ar les disgyblion, er enghraifft, trwy wella presenoldeb. Mae partneriaethau cadarn gydag arbenigwyr yn cynorthwyo disgyblion i gael mynediad i addysg yn llwyddiannus. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi datblygu partneriaethau strategol gyda phrifysgolion er mwyn gwella ansawdd eu darpariaeth.

## Rheoli adnoddau

Mae saith o bob deg o arweinwyr ysgol yn rheoli adnoddau yn dda. Maent yn sicrhau bod gwariant yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Ceir trefniadau da mewn llawer o ysgolion i ddatblygu medrau athrawon a staff cymorth. Mae hyn yn eu helpu i gyflwyno profiadau dysgu difyr sy'n bodloni anghenion disgyblion. Nid yw uwch arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion yn sicrhau bod digon o gysondeb yn ansawdd yr addysgu. Nid ydynt yn darparu cymorth effeithiol i staff i wella ansawdd eu harfer broffesiynol. Mae bron pob arweinydd ysgol yn defnyddio cyllid grant at y diben a fwriadwyd, ac mae mwyafrif yn defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn yn dda, er enghraifft i wella perfformiad disgyblion difreintiedig.

### Ysgol Gynradd Llanrhidian

Mae **Ysgol Gynradd Llanrhidian** wedi datblygu diwylliant o hunanarfarnu parhaus yn canolbwyntio'n gryf ar wella deilliannau mewn safonau a lles i bob disgybl.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansannor

Mae prosesau **Ysgol Gynradd yr Eglwys** yng Nghymru Llansannor ar gyfer hunanarfarnu, monitro a chynllunio ar gyfer gwella wedi arwain at gynnydd mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar draws yr ysgol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence





## Ysgol Babanod Ton Pentre

Mae **Ysgol Babanod Ton Pentre** yn cyfathrebu'n eithriadol o dda â rhieni a'r gymuned ehangach gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol, negeseuon testun a'r e-bost. Mae'n ymgysylltu'n dda iawn â'i gyngor rhieni gweithredol, gan weithredu'n gadarnhaol ar farnau a phryderon gan gynrychiolwyr o bob dosbarth.

Darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Ysgol Gynradd Oldcastle

Mae **Ysgol Gynradd Oldcastle** wedi gweithio gyda busnesau a phrifysgolion i ddatblygu wythnos gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) sydd wedi gwella dyheadau a chyrhaeddiad disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

## Ysgol Pencae

Mae **Ysgol Pencae** wedi meithrin partneriaethau yn y gymuned leol er mwyn cynnig profiadau gwyddoniaeth sy'n datblygu medrau dysgwyr ac ennyn diddordeb yn y pwnc.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Ysgol Gynradd Bracla

Mae **Ysgol Gynradd Bracla** yn gwneud teuluoedd yn rhan allweddol o'r broses ddysgu, gan arwain at safonau gwell mewn llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb ar draws yr ysgol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

# Gweithgarwch dilynol:
# Ysgolion cynradd

Yn 2016-2017, barnwyd bod arfer ragorol mewn 20% o ysgolion cynradd.


Mae cyfran yr ysgolion cynradd a arolygwyd y mae angen gweithgarwch dilynol monitro arnynt yn parhau'n ddigon tebyg dros gyfnod.

Rhoddodd arolygwyr 12 o ysgolion cynradd (6%) mewn categori statudol yn dilyn eu harolygiad craidd yn 2016-2017. Mae hwn yn gynnydd ar y saith ysgol (4%) a nodwyd y llynedd, ond yn ostyngiad ar yr 20 o ysgolion (9%) a nodwyd yn 2014-2015. Mae angen gwelliant sylweddol ar chwe ysgol (3%), o gymharu â phedair ysgol (2%) y llynedd. Mae angen rhoi mesurau ar waith mewn chwe ysgol (3%), o gymharu â thair ysgol (2%) y llynedd. Yn yr ychydig o ysgolion hyn, ceir diffygion difrifol yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn rhy aml, nid oes gan arweinwyr yr ysgolion hyn weledigaeth glir a rennir, neu nid ydynt yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r staff i godi safonau ac i wella ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae morâl staff yn isel yn aml. Yn nodweddiadol, nid yw disgwyliadau'r arweinwyr hyn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â diffygion mewn cynnydd disgyblion ar ddigon o fyrder.

Mae angen eu monitro gan Estyn ar ychydig o dan chwarter o ysgolion cynradd a arolygwyd yn ystod 2016-2017, sy'n debyg i'r gyfran a nodwyd ym mhob un o'r ddwy flynedd diwethaf. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol yn gyffredinol, ac mae safonau'n dda mewn ychydig o achosion. Mewn rhyw hanner o'r ysgolion, mae lles yn dda. Fodd bynnag, ceir diffygion mewn hunanarfarnu, a chynllunio a sicrhau gwelliannau. Nid yw'r hunanarfarnu bob amser yn finiog ac yn cynnwys digon o ffocws i nodi a yw darpariaeth yr ysgol yn gyson dda, a ph'un a yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud, o ystyried eu mannau cychwyn.

At ei gilydd, mae cyfran yr ysgolion cynradd nad ydynt yn y categorïau gweithgarwch dilynol monitro gan Estyn, neu'r categorïau statudol gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig, yn parhau'n ddigon tebyg i 2015-2016, sef rhyw saith o bob deg ysgol.

**Ffigur 2.19:**
Ysgolion cynradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017



Dros y cylch, barnwyd bod arfer ragorol mewn 16% o ysgolion cynradd.


Mae cyfran yr ysgolion cynradd y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl eu harolygiad craidd wedi aros yn weddol sefydlog dros y cylch, er y bu ychydig o amrywiadau mewn blynyddoedd unigol. Bu angen gweithredu mesurau arbennig mewn cyfanswm o 35 o ysgolion, sef 2% o'r ysgolion a arolygwyd. Y nifer yr oedd angen gwelliant sylweddol arnynt oedd 57 (4% o arolygiadau).

Mae'r amser a gymerir i ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt i wella wedi cynyddu dros y cylch. Erbyn hyn, fe gymer rhyw ddwy flynedd i lawer ohonynt, ac mae cyfran gynyddol yn cymryd hyd at dair blynedd. Eleni, ni chafodd yr un o'r ysgolion cynradd yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt y llynedd eu tynnu o'r categori monitro pellach. Yn ogystal, mae angen monitro pellach ar dair o'r wyth ysgol a roddwyd yn y categori mesurau arbennig yn 2014-2015. Yn gyffredinol, y rheswm dros yr amser ychwanegol yw bod angen amser ar yr ysgol a'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd staff, er enghraifft drwy fynd i'r afael â pherfformiad gwael a'r trosiant staff yn sgil hynny. Pan fydd tîm arwain sefydlog wedi'i sefydlu, mae arweinwyr newydd fel arfer yn gallu ysgogi staff a sicrhau gwelliannau graddol a gwelliannau cyflym ar brydiau, a symud yr ysgol o'r categori monitro.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ymhen rhyw flwyddyn i 18 mis. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn hon, cafodd yr holl ysgolion a roddwyd yn y categori gwelliant sylweddol y llynedd eu tynnu o'r categori monitro pellach. Dros y cylch, dim ond ychydig iawn o ysgolion cynradd (dwy ysgol) sydd wedi gwneud cynnydd annigonol yn y categori gwelliant sylweddol, a bu angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt ar ôl hynny.

Er 2010, bu angen monitro gan Estyn ar ryw 25% o'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi gwneud y gwelliannau gofynnol ymhen rhyw flwyddyn, er y bu angen cyfnod amser pellach ar 28 o ysgolion (11%) er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r argymhellion. Mewn 18 o'r ysgolion hyn (rhyw 5% o'r rheini a roddwyd yn y categori monitro gan Estyn yn dilyn eu harolygiad craidd), canfu arolygwyr ar yr ail ymweliad monitro nad oedd yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn ddigon da, ac o ganlyniad, roedd angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Fe wnaeth pob un o'r ysgolion hyn wella yn ystod yr amser estynedig mewn categori gweithgarwch dilynol, o ganlyniad i'r cymorth a'r her ychwanegol. Yn aml, bu newidiadau i arweinyddiaeth yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn, ac fe wnaeth hynny sicrhau'r gwelliannau.

**Ffigur 2.20:**
Ysgolion cynradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol (Cylch arolygu 2010-2017)



Adran: 2



# Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd

Yn Ionawr 2011, roedd 222 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Erbyn Ionawr 2017, roedd 200 o ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad sefydlu deg o ysgolion pob oed, a chau ac uno ysgolion. Mae nifer y disgyblion ysgol uwchradd wedi gostwng o 201,230 yn Ionawr 2011 i 178,670 yn Ionawr 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017d).

Dros gylch arolygu 2010-2017, cafodd 243 o ysgolion uwchradd eu harolygu. Yn 2016-2017, arolygwyd 31 o ysgolion, gan gynnwys cynnal peilot o'r trefniadau arolygu newydd mewn pum ysgol. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

# Deilliannau:
# Ysgolion uwchradd

## Safonau


Dros y cylch arolygu, mae safonau da neu well yn hanner yr ysgolion.  Mae cyfran yr ysgolion lle ceir safonau rhagorol yn ddigon tebyg yn 2017 ag ydoedd yn 2011, ac mae ychydig yn uwch na'r cyfartaledd dros y cylch arolygu.  Yn 2016-2017, roedd safonau rhagorol gan 15% o ysgolion o gymharu â chyfartaledd o 12% dros y cyfnod 2010-2017.

Yn gyffredinol, mae cyfran yr ysgolion â safonau anfoddhaol wedi cynyddu dros y cylch arolygu.  Eleni, mae safonau anfoddhaol mewn dros ddwy o bob deg ysgol.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall, ac nid yw eu perfformiad yn cymharu'n dda â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.


Mewn ysgolion lle ceir safonau da neu well, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn canolbwyntio'n dda.  Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn wydn pan fyddant yn wynebu tasgau heriol ac mae ganddynt fedrau dysgu annibynnol cadarn.  Mae'r disgyblion hyn yn cofio ac yn cymhwyso dysgu blaenorol yn llwyddiannus, a gwnânt gynnydd da wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau a syniadau newydd.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn gwrando'n dda ar yr athro ac ar ei gilydd.  Wrth siarad, mae eu mynegiant yn glir yn gyffredinol, a gallant drefnu'u meddyliau yn rhesymegol.  Ar y cyfan, mae gwell dealltwriaeth gan ddisgyblion o strategaethau darllen gwahanol nag ar ddechrau'r cylch.  Gall llawer o ddisgyblion ddod o hyd i wybodaeth a'i dewis yn llwyddiannus, ac maent yn cymhwyso technegau cip ddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) yn llwyddiannus.  Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n gallu cyfuno gwybodaeth o ddarllen testunau neu gymhwyso

**Ffigur 2.21:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1:  Pa mor dda yw'r safonau?  (2016-2017)




**Ffigur 2.22:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1:  Pa mor dda yw'r safonau?  (Cylch arolygu 2010-2017)



medrau rhesymu a dod i gasgliad yn dda. Yn gyffredinol, mae gallu disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig wedi gwella dros y cylch arolygu, ac maent yn fwy hyfedr wrth ysgrifennu at ddibenion gwahanol. Fodd bynnag, mae bechgyn yn dal i dueddu ysgrifennu llai o lawer na merched. Yn ogystal, mae sillafu ac atalnodi gwan, a sillafu geiriau cyfarwydd yn esgeulus, yn parhau yn nodwedd mewn lleiafrif o waith disgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn methu prawfddarllen eu gwaith i wella ei gynnwys a'i gywirdeb.

Mewn llawer o ysgolion, mae medrau cadarn gan ddisgyblion wrth ymdrin â data a dehongli data, ac maent yn cwblhau cyfrifiadau sylfaenol yn fedrus. Mewn mwyafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw graffiau a siartiau mwyafrif o ddisgyblion, a'u defnydd o raddfa, yn ddigon cywir. Roedd gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn wan ar ddiwedd y cylch arolygu diwethaf, ac mae'n parhau yn faes i'w wella mewn llawer o ysgolion, felly hefyd gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd i sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni TGCh ar gyfer prosesu geiriau, creu cyflwyniadau ac ar gyfer taenlenni sylfaenol. Fodd bynnag, er gwaethaf datblygiadau sylweddol mewn technoleg dros gyfnod y cylch arolygu, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn dda ar draws y cwricwlwm, ac mae eu medrau TGCh fel arfer yn gyfyngedig i ystod gul o gymwysiadau.

Mae safonau mewn Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a ffrydiau Saesneg mewn ysgolion dwyieithog yn isel, ac yn gyffredinol ceir diffyg hyder a rhuglder ymhlith disgyblion pan fyddant yn siarad yr iaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymarfer eu medrau Cymraeg ddigon y tu allan i wersi neu mewn lleoliadau cymdeithasol. Er 2010, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog, bu cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg. Yn 2011, cyflawnodd 20% o'r garfan radd C neu'n uwch yn y cwrs llawn, ac mae hyn wedi codi i 31% erbyn 2017. Mae gwelliannau bach i'w gweld hefyd yn y canlyniadau ar gyfer y cwrs byr.

Dros gyfnod y cylch arolygu, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill cymwysterau yng nghyfnod allweddol 4 wedi cynyddu (gweler ffigur 2.23).

**Ffigur 2.23:**
Canran y disgyblion yn cyflawni'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4

| Dangosydd | 2011 (disgyblion 15 oed) | 2016 (carfan Blwyddyn 11) | 2017 (carfan Blwyddyn 11) |
|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg | 50.1% | 60.3% | 54.6% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 | 67.3% | 84.0% | 67.0% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 1 | 90.3% | 95.3% | 94.4% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017f)

Fodd bynnag, nid yw pob cynnydd i'w briodoli i ddisgyblion yn gwneud yn well mewn TGAU, ond yn hytrach i rai disgyblion yn astudio cymwysterau nad ydynt yn TGAU sy'n gyfwerth yn dechnegol â TGAU ond yn haws i'w cyflawni, ac yn gyffredinol nid ydynt yn datblygu'u medrau na'u gwybodaeth bynciol yn ddigon da.

Mae perfformiad bechgyn a merched wedi gwella dros y cylch arolygu. Fel yn 2011, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn gwyddoniaeth a mathemateg, ond nid yw bechgyn yn perfformio gystal â merched o hyd mewn Saesneg ac mewn Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017f).

Er 2010, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda o ran trothwyau lefel 1 a 2, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad y rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill wedi lleihau. Hefyd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella o ran y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ond i raddau llai (Llywodraeth Cymru, 2017g).

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni cymwysterau sy'n adlewyrchu lefelau eu gallu (Llywodraeth Cymru, 2017h).

Mae canran disgyblion y chweched dosbarth sy'n cyflawni trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi cynyddu dros y cylch arolygu. Yn gyffredinol, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn mewn Safon Uwch ond, am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf, fe wnaeth mwy o fechgyn na merched ennill graddau A* ac A yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017f).

# Lles


Mae lles disgyblion wedi bod yn nodwedd gref mewn ysgolion uwchradd dros y cylch arolygu. Mae lles yn dda neu'n well mewn bron i dri chwarter o ysgolion.

Mewn presenoldeb disgyblion y gwelwyd un o'r gwelliannau mwyaf. Mae llawer o ysgolion wedi gweithio'n effeithiol i wella presenoldeb ac i leihau absenoldeb parhaus yn benodol. Mae'r ffigur presenoldeb cyfartalog ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi cynyddu o 91.4% yn 2011 i 94.1% yn 2017. Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng o 8.7% yn 2011 i 4% yn 2017. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella o 86.1% yn 2010 i 90.2 yn 2016 (Llywodraeth Cymru, 2017i ).


Mae rôl y cyngor ysgol a chyfranogiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau wedi datblygu'n dda dros y cylch arolygu. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn cynnal eu cyfarfodydd eu hunain ac yn cyfrannu'n weithredol at benderfyniadau a datblygu polisi trwy ystod eang o grwpiau, fforymau a gweithgareddau llais y disgybl. Yn y lleiafrif o ysgolion, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr hefyd i fynegi'u barnau ynglŷn ag addysgu a dysgu, a'r ddarpariaeth mewn pynciau penodol.

Mae ychydig yn llai o ysgolion yn dda neu'n well ar gyfer lles eleni na'r cyfartaledd er 2010, ac mae safonau lles anfoddhaol gan bron i ddwy o bob deg ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad gwael ac agweddau negyddol tuag at eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

**Ffigur 2.24:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.25:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth:
# Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn dwy ran o dair o ysgolion dros y cylch arolygu. Y prif gryfderau yn y ddarpariaeth yw gofal, cymorth ac arweiniad, ac ansawdd yr amgylchedd dysgu. Mae diffygion yn ansawdd yr addysgu ac asesu ac yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau wedi parhau trwy gydol y cylch.

## Profiadau dysgu

Mae'r cwricwlwm yn bodloni'r gofynion statudol ym mhob ysgol bron. Eleni, barnwyd bod profiadau dysgu yn dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr ysgolion, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y cylch. Yng nghyfnod allweddol 3, mae ychydig o ysgolion yn cynnig cwricwlwm difyr ac arloesol sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso a datblygu'u medrau ar draws ystod eang o bynciau. Yn yr un modd, yng nghyfnod allweddol 4, mae ychydig o ysgolion yn cynnig cwricwlwm hyblyg wedi'i gynllunio'n ofalus sy'n darparu ar gyfer diddordebau a galluoedd pob disgybl. Er 2010, fodd bynnag, mae ystod y dewisiadau a gynigir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi lleihau yn gyffredinol. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn cael mwy o wersi yn y pynciau craidd, sef Saesneg/Cymraeg a mathemateg, a llai o amser yn astudio pynciau eraill nag ar ddechrau'r cylch. Mae hyn wedi lleihau nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau mewn pynciau fel ieithoedd tramor modern, hanes, cerddoriaeth a daearyddiaeth.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion wedi gwella'n gyffredinol dros y cylch arolygu. Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ymarfer ysgrifennu adroddiadau mewn gwyddoniaeth ac yn cymhwyso ystod o strategaethau dysgu mewn hanes.

Er y bu gwelliannau yn y ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion, yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw'r ddarpariaeth hon wedi'i datblygu gystal â'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig mewn llawer o ysgolion.


### Ysgol Glan-y-Môr

Mae rhaglen cyfoethogi STEM gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg **Ysgol Glan-y-Môr** wedi arwain at ymgysylltiad a dyheadau cynyddol gan ddisgyblion, gwelliannau mewn safonau pynciau a datblygiad medrau ehangach disgyblion.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

**Cydnabod Rhagoriaeth**
Recognising Excellence

**Ffigur 2.26:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.27:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Mewn ychydig o ysgolion yn unig y mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant mewn medrau TGCh disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae ystod y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion wedi bod yn gryfder mewn llawer o ysgolion trwy gydol y cylch arolygu. Yn yr ysgolion lle mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel, mae athrawon yn cynllunio gwersi sy'n eu galluogi i gyflawni'u potensial ac yn darparu profiadau cyfoethogi sy'n ehangu eu gorwelion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes Cymru wedi bod yn nodwedd gadarnhaol mewn ysgolion trwy gydol y cylch arolygu. Fodd bynnag, mae gwendidau yn y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog, yn enwedig y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol, wedi bod yn thema gyson.

## Addysgu

Ceir addysgu da neu well mewn tua hanner o ysgolion. Cafwyd llai o farnau rhagorol ar gyfer addysgu nag ar gyfer unrhyw ddangosydd arall. Mae gwella addysgu yn argymhelliad ar gyfer ysgolion mewn mwyafrif o adroddiadau arolygu eleni a thros y cylch arolygu cyfan.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir addysgu rhagorol, mae gwybodaeth fanwl gan athrawon am alluoedd disgyblion unigol. Maent yn cynllunio gweithgareddau heriol wedi'u dilyniannu'n ofalus, sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd cyflym. Mae dealltwriaeth gadarn gan yr athrawon o ble mae disgyblion unigol arni o ran eu dysgu ac o ran eu hanghenion. Maent yn ystyried ac yn dewis y tasgau a'r dulliau addysgu mwyaf priodol, ac yn cyflawni cydbwysedd priodol ar gyfer datblygu medrau a gwybodaeth bynciol. Mae gan yr ysgolion weledigaeth glir a phriodol o uchelgeisiol o ran yr hyn y dylai disgyblion ei gyflawni.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae adborth athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu cryfderau a'u gwendidau ym mhob pwnc. Lle mae adborth yn llai effeithiol, mae athrawon yn ysgrifennu gormod nad yw'n ddigon manwl, neu mae'n gor-ganmol. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ac ymateb i adborth.

Dros y cylch arolygu, mae systemau olrhain ysgolion wedi gwella'n nodedig. Erbyn hyn, mae systemau olrhain defnyddiol gan y rhan fwyaf o ysgolion a chânt eu defnyddio'n dda gan lawer o staff. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r canfyddiadau o'u systemau olrhain i gynllunio cymorth amserol i ddisgyblion unigol.

Eleni, mewn bron i ddwy o bob deg ysgol, a thros y cylch arolygu mewn bron i un o bob deg ysgol, mae'r addysgu yn anfoddhaol. Mae'n aneffeithiol oherwydd disgwyliadau isel, gweithgareddau nad ydynt yn cynnig digon o her, a chynllunio gwan i fodloni anghenion disgyblion gwahanol. Pan na fydd athrawon yn gwirio dealltwriaeth a chynnydd disgyblion yn ddigon trwyadl, mae cyflymder y dysgu naill ai'n rhy gyflym neu'n rhy araf. Mewn llawer o achosion, pan fydd athrawon yn gofyn i ddisgyblion asesu'u gwaith eu hunain neu waith eu cyfoedion, nid ydynt yn darparu meini prawf fel y gall disgyblion roi syniad clir o sut i wella, ac yn aml nid oes modd gweld buddion y gweithgareddau hyn.

### Ysgol Bryngwyn

Caiff dyluniad y cwricwlwm yn **Ysgol Bryngwyn** ei ysgogi gan ddiddordebau, dyheadau ac anghenion dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod amrywiaeth a chyfle priodol i bawb.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Gyfun Y Pant

Yn **Ysgol Gyfun Y Pant**, mae addysgu a dysgu wedi gwella trwy roi pwyslais ar arfer fyfyriol. Mae'r ysgol wedi rhoi nifer o fecanweithiau ar waith i gydweithwyr eu rhannu a myfyrio ar beth maent yn ei wneud yn dda.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **astudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel wedi bod yn nodwedd gref trwy gydol y cylch arolygu. Er 2010, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol ac yn rhagorol mewn dwy o bob deg ysgol. Eleni, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda mewn dwy ran o dair o ysgolion, ac yn rhagorol yn yr un gyfran â dros y cylch arolygu.

Yn yr ysgolion sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol, ceir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ddifyr sy'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer yr heriau a'r dewisiadau yn eu bywydau, ac yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae dull strategol o wella lles disgyblion gan yr ysgolion hyn. Gweithiant yn llwyddiannus gydag ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth wedi'i bersonoli sy'n bodloni anghenion unigol yr holl ddisgyblion.

Mae llawer o ysgolion yn darparu cymorth effeithiol sy'n galluogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i wneud cynnydd da. Yn yr ysgolion hyn, mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau dysgu priodol, a chaiff disgyblion a rhieni eu cynnwys yn llawn yn y broses. Mae'r cynlluniau hyn o gymorth wrth ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion, ond yn aml ni chânt eu defnyddio'n ddigon da gan athrawon yn yr ystafell ddosbarth. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae targedau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn helpu athrawon i gynllunio darpariaeth addas mewn gwersi nac i fonitro'u cynnydd yn ddigon da.

Yn 2016-2017, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn anfoddhaol mewn un o bob deg ysgol. Mae hyn yn uwch na thros y cylch arolygu lle ychydig iawn o ysgolion yn unig oedd yn anfoddhaol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r systemau i hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da yn aneffeithiol. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol, ac mae presenoldeb yn isel. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gyfyngedig, ac nid yw disgyblion yn teimlo bod cymorth da ar gael iddynt i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dyfodol.

## Yr amgylchedd dysgu

Mae'r amgylchedd dysgu yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol dros y cylch arolygu. Mae llawer o ysgolion yn creu ymdeimlad o gymuned ac yn meithrin ethos cynhwysol a chroesawgar. Mae'r ysgolion gorau yn galluogi disgyblion, staff a llywodraethwyr i fod ag ymdeimlad cryf o falchder ynddynt eu hunain a'u hysgol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae'r amgylchedd dysgu yn anfoddhaol, nid yw'r ethos o amgylch yr ysgol yn un cadarnhaol, nid oes digon o adnoddau dysgu, ac mae adeiladau mewn cyflwr gwael.

### Ysgol Bryngwyn

Yn **Ysgol Bryngwyn**, mae addysgu yn effeithiol iawn ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at ddeilliannau rhagorol disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion uwchradd

## Arweinyddiaeth

Eleni, mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn dros hanner yr ysgolion. Dros y cylch arolygu, mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn chwech o bob deg ysgol. Yn 2016-2017, a thros y cylch, mae arweinyddiaeth yn rhagorol mewn bron i ddwy o bob deg ysgol. Ansawdd yr arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol wrth bennu effeithiolrwydd ysgol ym mhob ysgol bron.

Yn yr holl ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol ac mewn llawer o ysgolion lle mae'n dda, mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain ac yn gweithio gyda'i gilydd i greu ethos a diwylliant lle gwella safonau ar gyfer pob dysgwr yw'r brif flaenoriaeth. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, ac y gwelir addysgu ac asesu fel y broses allweddol sy'n cyfrannu at wella a chynnal safonau uchel. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, ceir deialog broffesiynol reolaidd ynglŷn ag addysgu a dysgu. Mae dealltwriaeth glir gan yr holl staff o'u cyfrifoldeb ar y cyd, ac maent yn ymroddedig i helpu disgyblion i gyflawni'u potensial a'u rôl mewn gwneud i hynny ddigwydd.

Er bod ysgolion yn cydnabod mai arweinyddiaeth sy'n cael yr effaith fwyaf ar effeithiolrwydd ysgol, nid yw mynd i'r afael â'r amrywioldeb yn ansawdd arweinyddiaeth yn flaenoriaeth ddigon uchel i arweinwyr mewn mwyafrif o ysgolion. Mewn tair o bob deg ysgol, mae ansawdd anghyson i'r arweinyddiaeth. Mae'r ysgolion hyn yn cael anhawster cynnal safonau. Yn aml, nid yw'r holl staff yn deall blaenoriaethau allweddol, ac nid yw lleiafrif o arweinwyr yn blaenoriaethu'r agweddau pwysicaf ar eu gwaith yn ddigon da. Lle mae cyflawniad disgyblion yn amrywiol o fewn pynciau ac ar draws pynciau, y rheswm am hynny yw nad yw pawb sydd â chyfrifoldeb arwain yn canolbwyntio'n gyson ar y busnes craidd o wella ansawdd yr addysgu.


**Ysgol Bryngwyn ac Ysgol Glan-y-Môr**

Mae arweinyddiaeth ddosranedig ar bob lefel ar draws ffederasiwn **Ysgol Bryngwyn** ac **Ysgol Glan-y-Môr** wedi sicrhau deilliannau a lles gwell i ddisgyblion.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.28:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.29:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Yn yr un o bob deg ysgol lle ceir arweinyddiaeth anfoddhaol, nid yw arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod yr ethos a'r diwylliant yn canolbwyntio ar wella ansawdd ac ar safon darpariaeth gyson uchel. Nid yw systemau rheoli llinell a rheoli perfformiad yr ysgol yn effeithiol o ran nodi diffygion, a chymryd y camau angenrheidiol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Yn yr ysgolion hyn, mae amcanion rheoli perfformiad yn rhy annelwig ac nid oes digon o ffocws ar addysgu a dysgu.

Er 2010, mae llawer o lywodraethwyr wedi gwella eu dealltwriaeth o ddata perfformiad ac maent yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn gadarnach nag yr oeddent ar ddechrau'r cylch.

## Gwella ansawdd

Trwy gydol y cylch arolygu, gwella ansawdd fu un o'r agweddau gwannaf ar waith ysgolion. Eleni, mae gwella ansawdd yn dda neu'n well mewn pedair o bob deg ysgol, sy'n gyfran uwch na'r llynedd, ond yn debyg i'r gyfran er 2010. Mae cyfran yr ysgolion lle mae gwella ansawdd yn anfoddhaol wedi cynyddu ers dechrau'r cylch arolygu, ac erbyn hyn mae'n anfoddhaol mewn un o bob deg ysgol.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, ceir diwylliant cryf o welliant parhaus. Yn yr ysgolion hyn, defnyddir gweithgareddau hunanarfarnu i ddarparu gwerthusiad gonest, gwrthrychol a chyfredol o gryfderau a gwendidau, fel bod dealltwriaeth gywir gan arweinwyr o berfformiad eu hysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau o arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, barnau disgyblion, dadansoddi data ac amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd eraill i nodi'r meysydd cywir i ganolbwyntio eu hegni arnynt a sicrhau gwelliant cynaledig yn yr addysgu a'r dysgu.

Mewn llawer o ysgolion, yr agweddau gwannaf ar hunanarfarnu yw'r arfarniadau o fedrau a chynnydd disgyblion, ac o'r addysgu. Nid yw llawer o arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth a gasglant o arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion, ac mae lleiafrif yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfio â pholisi. Er enghraifft, mae arfarnu gwaith disgyblion yn ymwneud yn aml â ph'un a yw llyfrau'n cael eu marcio'n rheolaidd ac yn gyson â pholisi'r ysgol, yn hytrach na safon gwaith disgyblion ac effaith asesu ar wella dysgu a medrau disgyblion.

Mae'r hunanarfarnu ar ei wannaf pan fydd yn ymarferiad papur i roi'r argraff orau o'r ysgol. Nid yw'r dull hwn yn helpu arweinwyr i ddeall prif ddiffygion yr ysgol. O ganlyniad, nid yw cynllunio gwelliant yn strategol yn aml, ac mae gormod o weithgareddau i'w cwblhau ac ni chaiff y rhain eu blaenoriaethu'n ddigon da.

Erbyn hyn, mae disgyblion a rhieni yn gallu lleisio'u barn mwy am ysgolion nag oeddent ar ddechrau'r cylch arolygu, ac mae ysgolion yn gwneud defnydd mwy a mwy effeithiol o'r wybodaeth hon i lywio'u hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

**Ysgol Dŵr-y-Felin**

Mae cylch sefydledig ac effeithiol o weithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant gan **Ysgol Dŵr-y-Felin.**

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Gweithio mewn partneriaeth

Gweithio mewn partneriaeth fu'r agwedd gryfaf ar arweinyddiaeth dros gyfnod y cylch arolygu, ac mae'n dda mewn saith o bob deg ysgol uwchradd, ac yn rhagorol mewn un o bob deg ysgol. Yn yr ysgolion lle ceir partneriaethau rhagorol, mae partneriaethau o ansawdd uchel gydag ystod eang o bartneriaid yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae partneriaethau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar faterion bugeiliol wedi bod yn gryfder arbennig, gan alluogi disgyblion Blwyddyn 7 i bontio'n hwylus o'r ysgol gynradd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n gweithio'n effeithiol hefyd ar gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. O ganlyniad, ceir gorgyffwrdd diangen rhwng y cwricwlwm ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a dechrau cyfnod allweddol 3.

Mae disgyblion wedi elwa ar ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd neu gyda darparwyr eraill i ehangu ystod y cyrsiau a chyfleoedd dysgu eraill sydd ar gael. Mae hyn wedi bod yn arbennig o werthfawr o ran darparu cyrsiau galwedigaethol ac ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mewn llawer o ysgolion, ceir trefniadau cynhwysfawr ar gyfer cyd-gynllunio a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol wedi cyfrannu'n dda at gryfder y ddarpariaeth gofal, cymorth ac arweiniad a welir mewn ysgolion. Mae partneriaethau â rhieni wedi gwella dros y cylch arolygu, ond maent yn parhau'n faes i'w wella mewn lleiafrif o ysgolion.

### Ysgol Gyfun Bryntirion

Galluogodd adolygiad o'r uwch dîm arweinyddiaeth i **Ysgol Gyfun Bryntirion** ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol cryf. Ategwyd y dull strategol hwn gan ddatblygu tîm cryf o arweinwyr canol a chreu ethos cynhwysol ar gyfer myfyrwyr a staff, fel ei gilydd.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Rheoli adnoddau

Mae rheoli adnoddau yn dda neu'n well mewn tua hanner yr ysgolion eleni a thros y cylch arolygu cyfan. Er 2010, mae ysgolion wedi cydweithio mwyfwy i wella ansawdd ac i ddarparu datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Yn yr ychydig ysgolion lle mae rheoli adnoddau yn rhagorol, ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn creu cymuned ddysgu broffesiynol gadarn lle cefnogir yr holl staff gan ystod eang o gyfleoedd datblygu. Mae'r rhain yn galluogi staff yn yr ysgolion hyn i archwilio agweddau ar eu harfer yn ofalus, a'i heffaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion. Cymerant gyfrifoldeb ar y cyd am wella ac maent yn rhannu beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio'n dda yn gwbl agored.

Mewn llawer o ysgolion, caiff penaethiaid a chyrff llywodraethol gymorth da gan reolwyr busnes a bwrsariaid ysgol i fonitro gwariant. Mae mwyafrif o ysgolion yn rheoli'u cyllid yn dda ac yn targedu grantiau, fel y grant datblygu disgyblion, yn briodol. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r grant i wella deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn wedi aros ar ryw ddwy o bob tair ysgol uwchradd. Yn aml, mae ysgolion uwchradd yn defnyddio'r cyllid ar gyfer rhaglenni dal-i-fyny yng nghyfnod allweddol 4 yn bennaf, yn hytrach nag i ddatblygu medrau disgyblion yn gynaliadwy trwy gydol eu haddysg uwchradd.

# Gweithgarwch dilynol:
# Ysgolion uwchradd

Yn 2016-2017, barnwyd bod arfer ragorol mewn 35% o ysgolion uwchradd.

Eleni, roedd angen eu monitro gan Estyn ar 27% o ysgolion uwchradd. Mae hyn yn rhyw hanner y gyfran a nodwyd y llynedd. Ceir cryfderau yn yr ysgolion hyn ac mae gan arweinwyr strategaethau priodol ar gyfer gwella, ond nid yw'r cynlluniau hyn wedi cael effaith eto ar ddeilliannau disgyblion neu ar wella ansawdd yr addysgu.


Rhoddwyd wyth o ysgolion mewn categori statudol yn dilyn arolygiad craidd eleni, sef tair yn fwy nag yn 2015-2016. Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar bump o'r ysgolion hyn, a rhoddwyd tair ysgol yn y categori mesurau arbennig. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr wedi dangos y gallu i sicrhau deilliannau boddhaol ar gyfer disgyblion, ac mae diffygion pwysig mewn agweddau ar eu darpariaeth, yn enwedig yr addysgu a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Nid oes trefniadau cadarn gan yr ysgolion hyn ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Eleni, gwnaed cynnydd da gan ddwy ran o bump o'r ysgolion uwchradd yr oedd angen eu monitro gan Estyn neu a oedd yn parhau yn y categori monitro gan Estyn, ac fe'u tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol. Dangoswyd cynnydd cyfyngedig gan bum ysgol yn erbyn yr argymhellion o'u harolygiad craidd, a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt. Dangoswyd rhywfaint o gynnydd gan yr 11 ysgol arall, ond nid oeddent wedi gwella digon. Byddwn yn parhau i fonitro'r ysgolion hyn.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, roedd angen gwelliant sylweddol ar 12 o ysgolion. Yn ystod 2016-2017, dangosodd saith o'r ysgolion hyn fod gwelliannau i'r ddarpariaeth a chryfhau trefniadau arweinyddiaeth wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, tynnwyd yr ysgolion hyn o'r categori hwn. Roedd un ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol, ac fe'i rhoddwyd yn y categori mesurau arbennig. O ran yr ysgolion sy'n weddill, er eu bod yn gwneud rhywfaint o gynnydd, nid ydynt wedi gwneud digon. Bydd Estyn yn parhau i fonitro'u cynnydd.

Roedd 12 ysgol yn y categori mesurau arbennig ar ddechrau eleni. Mewn pedair o'r ysgolion hyn, mae arweinwyr wedi dangos y gallu i gynllunio a sicrhau gwelliannau sylweddol mewn addysgu a dysgu, ac o ganlyniad tynnwyd yr ysgolion hyn o gategori gweithgarwch dilynol. Nid yw'r ysgolion eraill wedi gwneud digon o gynnydd ac maent yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

**Ffigur 2.30:**
Ysgolion uwchradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017




Dros y saith mlynedd diwethaf, mae Estyn wedi cynnal arolygiadau craidd o 243 o ysgolion uwchradd. Barnwyd bod arfer ragorol mewn 27% o ysgolion uwchradd. Roedd angen gweithgarwch dilynol ar ryw hanner o'r ysgolion. Rhoddwyd tua chweched o'r ysgolion mewn categori statudol, a chafodd traean arall o ysgolion eu monitro gan Estyn ar ôl eu harolygiad craidd.

Rhwng 2010 a 2017, rhoddodd Estyn 24 o ysgolion yn y categori mesurau arbennig. Roedd chwech o'r ysgolion hyn wedi'u monitro'n flaenorol gan Estyn neu nodwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt; rhoddwyd y gweddill yn y categori hwn yn dilyn arolygiad craidd. Nid oedd yr ysgolion hyn yn rhoi ansawdd dderbyniol o addysg i ddisgyblion, ac nid oedd eu harweinwyr yn dangos y gallu i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Ar ddechrau 2017-2018, mae 12 ysgol yn parhau yn y categori hwn. Dros y saith mlynedd diwethaf, fe wnaeth tair ysgol yn y categori mesurau arbennig naill ai gau, neu fe wnaethant uno ag ysgol arall. Tynnwyd y gweddill o'r categori hwn am fod arweinwyr wedi rhoi ystod o strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau gwelliannau. Yn benodol, roedd yr ysgolion hyn yn canolbwyntio'n fanwl ar ddatblygu ansawdd a chysondeb yr addysgu. Cefnogwyd y gwelliannau hyn drwy gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a rheoli llinell.

Dros y saith mlynedd diwethaf, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar 25 o ysgolion yn dilyn arolygiad craidd. Fe wnaeth Estyn fonitro'r ysgolion hyn drwy gynnal ymweliad monitro ryw flwyddyn i 18 mis ar ôl yr arolygiad craidd. Yn y mwyafrif o achosion, roedd yr ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd digonol i'w tynnu o'r categori hwn. Fodd bynnag, roedd cyflymder y gwelliant yn rhy araf mewn tair ysgol, ac fe'u rhoddwyd yn y categori mesurau arbennig. Ar ddechrau 2017-2018, mae 12 ysgol yn parhau yn y categori statudol hwn.

Yn ystod 2010-2017, roedd angen eu monitro gan Estyn ar 86 o ysgolion yn dilyn arolygiad craidd. Yn y mwyafrif o achosion, roedd yr ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd digonol fel nad oedd angen eu monitro gan Estyn mwyach. Gwnaeth naw ysgol gynnydd cyfyngedig yn erbyn eu hargymhellion yn dilyn eu harolygiad craidd, ac fe'u rhoddwyd mewn categori statudol. Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar chwech ohonynt; roedd tair ysgol yn achosi pryder difrifol ac fe'u rhoddwyd yn y categori mesurau arbennig. Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2017-2018, roedd 19 o ysgolion yn parhau i gael eu monitro gan Estyn.

**Ffigur 2.31:**
Ysgolion uwchradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol
(Cylch arolygu 2010-2017)



# Adran: 2



# Adroddiad sector
# Ysgolion pob oed a gynhelir

Mae ysgolion pob oed yn darparu addysg i ddisgyblion o dair neu bedair oed tan  iddynt gyrraedd 16 neu 18 oed.  Ym Medi 2016, roedd deg o ysgolion pob oed a gynhelir yng Nghymru.  Un ysgol pob oed oedd yn 2010 (Llywodraeth Cymru, 2017c).  Mae'r sector yn parhau i dyfu gydag wyth ysgol arall yn agor yn 2018.


**Ysgolion pob oed a gynhelir yng Nghymru**
Eleni, fe wnaethom arolygu dwy ysgol pob oed a gynhelir mewn lleoliadau gwledig lle'r Gymraeg yw'r brif iaith.  Mae un ysgol yn darparu ar gyfer dros 1,000 o ddisgyblion ar un safle ac mae ynddi dros 13% o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.  Yn yr ysgol arall, ceir tua 500 o ddisgyblion ar ddau safle, ryw filltir oddi wrth ei gilydd. Mae'r ddwy ysgol yn derbyn tua hanner eu disgyblion Blwyddyn 7 o ysgolion cynradd partner eraill, ac maent wedi bod ar agor fel ysgolion pob oed ers pum mlynedd a thair blynedd yn y drefn honno.  Mae un ysgol yn dda o ran yr holl ddangosyddion ansawdd, gyda chryfder penodol yn ei darpariaeth cyfnod cynradd.  Ceir safonau ac arweinyddiaeth ddigonol yn yr ysgol arall, yn bennaf yn sgil gwendid mewn cynllunio ar gyfer gwella, ac mae angen ei monitro gan Estyn.

I gael mwy o wybodaeth am y ddwy ysgol a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadqau arolygu


**Ysgol Bro Hyddgen**
**Ysgol Bro Pedr**

Dros y cylch, mae Estyn wedi arolygu pedair ysgol pob oed a gynhelir. Bu angen gweithgarwch dilynol ar dair ohonynt, gyda dwy yn y categori monitro gan Estyn ac un yn y categori gwelliant sylweddol. Nid oedd angen unrhyw fath o weithgarwch dilynol ar un o'r pedair ysgol a arolygwyd. Mae'r prif gryfderau yn y sector hwn yn y cyfnod cynradd, gan gynnwys ansawdd addysgu ac asesu sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion. Barnwyd bod llawer o gryfderau yn eu lles mewn tair ysgol ac roeddent yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad da. Mewn tair o'r ysgolion, y prif ddiffygion mewn safonau oedd perfformiad gwael dros gyfnod yn y cyfnod uwchradd. Yn aml, mae ansawdd y pontio bugeiliol yn yr ysgolion pob oed wedi bod yn gadarn, ond nid yw'r ysgolion wedi adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddatblygu cysylltiadau cwricwlaidd cryf ar draws cyfnodau oedran.


**Ffigur 2.32:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)




**Ffigur 2.33:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)





**Ffigur 2.34:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)






**Ffigur 2.35:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
(Cylch arolygu 2010-2017)




**Ffigur 2.36:**
Ysgolion pob oed a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol
(Cylch arolygu 2010-2017)



# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2017, roedd 39 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, sef yr un nifer â'r llynedd, ond pedair yn llai nag yn 2011 (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae'r ysgolion hyn yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i gynyddu. Yn Ionawr 2017, 4,727 oedd nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig ledled Cymru, o gymharu â 4,542 y llynedd a 4,181 yn 2011 (Llywodraeth Cymru, 2017d).

Yn ystod cylch arolygu 2010-2017, cynhaliom 48 o arolygiadau o ysgolion arbennig. Yn 2016-2017, arolygwyd saith ysgol gennym. Cynhaliodd Estyn beilot o'r trefniadau arolygu newydd mewn un o'r ysgolion hyn. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

# Deilliannau:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Dros y cylch arolygu, roedd safonau'n dda neu'n well mewn naw o bob deg ysgol arbennig a arolygwyd, ac yn ddigonol mewn un o bob deg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u hanghenion, eu galluoedd a'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth siopa neu ar weithgareddau'n gysylltiedig â gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn ennill cymwysterau perthnasol sy'n briodol i'w galluoedd a'u diddordebau. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.

Mewn un o bob deg ysgol lle ceir safonau digonol, nid yw disgyblion yn cyflawni'r targedau yn eu cynllun addysg unigol neu eu cynllun ymddygiad unigol yn gyson, ac nid ydynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm. Dim ond mewn ychydig o ysgolion y mae disgyblion yn defnyddio ymadroddion Cymraeg wrth ryngweithio â staff a'u cyfoedion.

## Lles

Dros y cylch arolygu, mae lles yn dda neu'n well ym mron pob ysgol a arolygwyd. Mewn bron i draean o ysgolion, mae lles yn rhagorol.

Ym mron pob ysgol, mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd a'r staff. Mae llawer ohonynt yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'r dysgu. Un nodwedd gyffredin ar draws y cylch arolygu yw brwdfrydedd a


### Ysgol Arbennig Greenfield

Yn **Ysgol Arbennig Greenfield**, mae uwch arweinwyr wedi croesawu'r her i wella medrau Cymraeg disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd helaeth mewn perthynas â'u hanghenion, galluoedd a'u mannau cychwyn.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.37:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.38:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)



rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol a gwnânt ymweliadau mynych â lleoliadau yn y gymuned leol er mwyn datblygu'u medrau byw yn annibynnol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle nad yw lles yn dda, nid yw disgyblion yn mynychu'n dda ac mae eu hymddygiad gwael yn rhwystro'u cynnydd.

### Ysgol Arbennig Heronsbridge

Mae cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad disgyblion sy'n cael eu trefnu'n fedrus yn **Ysgol Arbennig Heronsbridge** yn cyfrannu at ddatblygu hunanhyder a medrau cymdeithasol disgyblion. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol amdanyn nhw eu hunain a'u dysgu yn unol â'u hanghenion a'u gallu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

### Ysgol Penmaes

Mae **Ysgol Penmaes** yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cyfranogi amrywiol ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan ac mae'n cydnabod bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berthnasoedd ar draws yr ysgol. Maent wedi datblygu strwythurau a chymorth i alluogi pob un o'r disgyblion i gyfrannu at daith wella'r ysgol.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

### Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn


Mae **Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**, Caerdydd, wedi buddsoddi mewn TGCh newydd i helpu i wella medrau cyfathrebu'r disgyblion a chwalu rhwystrau rhag dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

**Ffigur 2.39:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.40:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn ystod y cylch arolygu, mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn naw o bob deg ysgol a arolygwyd, ac yn ddigonol mewn un o bob deg.

Mae bron pob un o'r ysgolion arbennig a gynhelir yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol sydd wedi'u teilwra at anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion unigol. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r cyfnod ôl-16, mae disgyblion yn dilyn llwybrau dysgu priodol yn cynnwys cymwysterau perthnasol mewn cyrsiau achrededig, profiad gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff bob amser yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn ymestyn eu dysgu drwy ymuno â disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd neu leoliadau eraill ar gyfer sesiynau sy'n cyfateb yn dda i'w diddordebau, eu galluoedd a'u medrau Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion yn darparu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn i ddigon o ddisgyblion.

Mewn naw o bob deg ysgol, mae'r addysgu yn dda o leiaf, ac mae'n rhagorol mewn chwech o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu. Mae athrawon a staff cymorth dysgu yn gwybod beth yw anghenion, diddordebau a galluoedd eu disgyblion yn dda. Gweithiant yn effeithiol â'i gilydd i gynllunio a chyflwyno gwaith sy'n ysgogol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o ystod eang o arddulliau ac adnoddau addysgu, gan gynnwys dyfeisiau technoleg a meddalwedd wedi'u haddasu, a systemau arwyddo a chyfnewid symbolau. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddilyn ar y cwricwlwm, ac i wella eu hiechyd a'u lles drwy fodloni'u hanghenion yn dda.

Yn nodweddiadol, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf mewn ysgolion arbennig. Mae staff yn gweithio'n dda gyda gweithwyr proffesiynol arbenigol fel therapyddion, nyrsys a chwnselwyr i ddarparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hyn yn datblygu ethos cynhwysfawr cryf ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda.


## Ysgol Pen Coch

Mae **Ysgol Pen Coch** yn defnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys ystafell rithwirionedd, sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar les ac ymgysylltiad disgyblion, a'u parodrwydd i ddysgu.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.41:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.42:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Dros y cylch arolygu, mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol.

Lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn, mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn creu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol y mae staff, disgyblion a rhieni yn ei deall ac yn ei chefnogi.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae systemau cadarn gan ysgolion i fonitro pob agwedd ar eu gwaith. Yn yr ysgolion hyn, mae gweithgareddau hunanarfarnu yn cynnwys ffocws cryf ar ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio data yn dda i osod targedau heriol ar gyfer disgyblion a staff, ac yn dyrannu adnoddau digonol i gefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae cynlluniau gwella yn mynd i'r afael â blaenoriaethau priodol yn dda. Fodd bynnag, yn yr ychydig o ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn llai effeithiol, mae gweithgareddau hunanarfarnu yn llai trylwyr ac nid ydynt yn nodi'r meysydd pwysicaf i'w gwella.


## Ysgol Arbennig Heol Goffa

Mae **Ysgol Heol Goffa** wedi sefydlu partneriaethau gydag ysgolion ym mhob cwr o'r byd sydd wedi galluogi disgyblion i brofi ieithoedd a diwylliannau newydd ac wedi cyfoethogi'r cwricwlwm gydag ystod eang o ddeunyddiau addysgu.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.43:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.44:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Yn gyffredinol, mae cyrff llywodraethol yn adnabod eu hysgolion yn dda ac yn darparu lefel uchel o gymorth i uwch arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif wedi datblygu'u rôl yn llawn wrth herio ysgolion i wella.

Un agwedd gadarn ar arweinyddiaeth yn y sector hwn yw'r arfer effeithiol iawn o rannu arfer dda rhwng ysgolion arbennig a gydag ysgolion prif ffrwd. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi'r hyder i arweinwyr gyflwyno dulliau arloesol o ehangu profiadau dysgu, olrhain cynnydd disgyblion a datblygiad staff.

Mae gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng ysgolion, rhieni a gwasanaethau arbenigol, fel gweithwyr iechyd proffesiynol, wedi bod yn gyson gadarn ar draws y cylch arolygu. Mae'r cydweithio hwn wedi cynyddu ystod ac ansawdd profiadau dysgu disgyblion ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig at wella iechyd a lles disgyblion.



## Ysgol Arbennig Tŷ Coch

Mae cynllun cydraddoldeb strategol rhagorol **Ysgol Arbennig Tŷ Coch** yn cipio'i hethos yn effeithiol iawn. Mae'n cydnabod, yn parchu ac yn dathlu pob disgybl unigol ac amrywiaeth eu hanghenion cymhleth yn eithriadol o dda.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Gweithgarwch dilynol:
# Ysgolion arbenig a gynhelir


Yn 2016-2017, roedd arfer ragorol mewn pum ysgol. Eleni, nodom fod angen monitro pellach ar ddwy ysgol. Yn y ddwy ysgol hon, nid oedd yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella yn canolbwyntio'n ddigon da ar ansawdd yr addysgu na'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Dros y cylch arolygu, roedd arfer ragorol mewn dros hanner yr ysgolion. Roedd angen monitro pellach gan Estyn ar saith ysgol. Ym mhob un o'r ysgolion hyn, nodom wendidau mewn arweinyddiaeth ac yn y trefniadau i sicrhau gwelliant yr ysgol. Gwnaeth tair o'r ysgolion hyn gynnydd da a thynnodd Estyn nhw o'r categori gweithgarwch dilynol. Mae dwy ysgol yn parhau yn y categori monitro gan Estyn. Nid yw tair ysgol arall wedi cael eu monitro eto.


Roedd angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn yr ysgolion hyn, roedd ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn destun pryder. Fe wnaethom dynnu un ysgol o'r categori gweithgarwch dilynol yn gyflym, ac mae angen gwelliant sylweddol ar un ysgol o hyd.

Rhwng 2010 a 2017, nodom fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn un ysgol arbennig, yn rhannol oherwydd y trefniadau anfoddhaol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion ac arweinyddiaeth wael. Mae'r ysgol hon yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

**Ffigur 2.45:**
Ysgolion arbennig a gynhelir a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017




**Ffigur 2.46:**
Ysgolion arbennig a gynhelir a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol (Cylch arolygu 2010-2017)



Adran: 2



# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2017, roedd 35 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu disgyblion o 5 i 19 oed ag ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion.

Rhwng Ionawr 2011 ac Ionawr 2017, agorodd 16 o ysgolion arbennig annibynnol a chaeodd 11 ysgol. Fe wnaeth tair ysgol arall gau rhwng Ionawr ac Awst 2017. Roedd bron pob un o'r ysgolion a gaeodd yn addysgu ychydig iawn o ddisgyblion ar y pryd, neu ddim disgyblion o gwbl. O ganlyniad i'r ysgolion hyn yn cau, mae bron pob ysgol gofrestredig yn addysgu disgyblion ar hyn y bryd. Mae hyn yn newid sylweddol o'r sefyllfa gynharach yn y cyfnod arolygu 2010-2017. Er enghraifft, o 2012 i 2014, roedd naw o ysgolion wedi cofrestru nad oedd unrhyw ddisgyblion ynddynt.

Mae darpariaeth ar nifer o safleoedd gwahanol gan ychydig o ysgolion. Yn ystod y cyfnod arolygu, bu cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n gweithredu dros nifer o safleoedd.

Mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol wedi cynyddu o ryw 500 o ddisgyblion yn 2010 i 870 yn 2017. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod un ysgol annibynnol fawr wedi newid statws ei chofrestriad er mwyn gallu addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes anghenion dysgu ychwanegol gan yr holl ddisgyblion yn yr ysgol hon, fodd bynnag. Mae llawer o ysgolion llwyddiannus wedi cynyddu'u niferoedd, tra bod ysgolion ag ychydig iawn o ddisgyblion wedi cau.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob rhyw 12 i 18 mis fel arfer. Eleni, fe wnaethom arolygu pedair ysgol arbennig annibynnol, a chynhaliom ymweliadau monitro ag 20 o ysgolion. Yn ystod y cylch arolygu cyfan, o 2010 i 2017, cynhaliom 24 o arolygiadau ac 146 o ymweliadau monitro blynyddol ag ysgolion arbennig annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth am yr ysgolion arbennig annibynnol a gafodd eu harolygu yn 2016-2017, darllenwch yr adroddiadau

**Ysgol Aran Hall**
**Caban Aur**
**Greenfields**
**Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh**

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol, rydym yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Er 2010, roedd rhyw ddwy ran o dair o ysgolion arbennig annibynnol yn cydymffurfio â holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003) adeg eu harolygiad craidd. Yn ystod y cyfnod hwn, bu gwelliant yng nghyfran yr ysgolion sy'n cydymffurfio â'r holl safonau. Rhwng 2014 a 2017, fe wnaeth chwech o saith ysgol fodloni'r holl safonau o gymharu â rhyw hanner ohonynt rhwng 2010 a 2014. Mae hyn yn rhannol oherwydd y broses fonitro flynyddol, sydd wedi helpu ysgolion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r safonau.

Roedd tua dwy ran o dair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw eleni fel rhan o'r broses fonitro yn bodloni pob un o'r safonau. Methodd saith ysgol â bodloni un neu fwy o'r safonau.

# Deilliannau:
# Ysgolion arbennig annibynnol

## Safonau


Dros y cylch arolygu 2010-2017, mae safonau'n dda neu'n well mewn dwy ran o dair o ysgolion ac yn ddigonol neu'n anfoddhaol mewn wyth ysgol. Mewn tair ysgol, ni roddwyd barn ar gyfer safonau am fod llai na chwech o ddisgyblion adeg yr arolygiad.

Mae llawer o'r disgyblion wedi cael cyfnodau addysg amharedig cyn dechrau yn yr ysgol, ac mae llawer yn cyrraedd gyda gwybodaeth a medrau heb eu datblygu'n ddigonol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgartrefu ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, nid oes cymhelliant gan ddisgyblion ac nid ydynt yn gwneud cynnydd yn unol â'u gallu.


Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau cyfathrebu yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a'u medrau datrys problemau yn dda, er enghraifft drwy weithgareddau ymarferol fel cydosod robot allan o git.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae'r disgyblion ag anghenion cymhleth mewn un ysgol yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol wrth reoli arian yn eu banc lleol ac mewn siopau. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da mewn ystod o gyd-destunau go iawn.

**Ffigur 2.47:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.48:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)




## Lles

Dros y cylch, mae lles yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion, ac yn ddigonol neu'n anfoddhaol mewn pum ysgol. Mewn tair ysgol, ni roddwyd barn ar gyfer lles am fod llai na chwech o ddisgyblion adeg yr arolygiad.


Ym mron pob ysgol, mae perthnasoedd gweithio cryf iawn gan ddisgyblion a staff. O ganlyniad, mae disgyblion yn hapus i ofyn am help a chyngor a'i dderbyn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae bron pob disgybl yn gwella eu hunan-barch a'u hyder. Dysgant sut i ymdopi â'u hemosiynau, mynegi'u hunain a datblygu strategaethau ar gyfer rheoli eu hymddygiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb dros gyfnod. Mae llawer ohonynt yn cyrraedd yn brydlon yn y bore ac yn mynd ati i weithio'n ddi-oed.

**Ffigur 2.49:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.50:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth:
# Ysgolion arbennig annibynnol

Dros y cylch, mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr ysgolion.

Mae ystod y profiadau dysgu yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion. Mewn mwyafrif o'r ysgolion, mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra'n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol ac mae'n darparu amrywiaeth addas o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda. Lle mae ysgolion yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol, yn aml mae ganddynt gysylltiadau buddiol ag ysgolion, colegau, elusennau a busnesau lleol. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, mae profiadau dysgu wedi'u cyfyngu i'r ystafell ddosbarth ac nid yw staff yn trefnu cyfleoedd oddi ar y safle.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae staff yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau TGCh disgyblion yn dda mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid oes dealltwriaeth ddigon clir gan staff o sut gellir hyrwyddo'r medrau hyn ar draws yr holl wersi a gweithgareddau eraill.

Mae bron yr holl ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu cynnes, croesawgar a diogel. Defnyddir canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol gan staff i gynnal cymhelliant disgyblion a meithrin eu hunan-barch.


Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol mewn pedair ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i nodi anghenion disgyblion unigol ac i ddatblygu pecynnau cymorth priodol. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon da i lywio targedau mewn cynlluniau addysg unigol neu gynlluniau ymddygiad unigol, a'u gwaith gyda disgyblion.

### Ysgol Headlands


Mae **Ysgol Headlands** wedi ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ac wedi gwella cyrhaeddiad cyffredinol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

**Ffigur 2.51:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.52:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
## Ysgolion arbennig annibynnol

O 2010 i 2017, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn pedair o bob deg ysgol.


Mewn llawer o'r ysgolion, mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol ac yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd yn y rhan fwyaf o ysgolion i gefnogi anghenion disgyblion unigol.

Mae llawer o ysgolion arbennig annibynnol wedi bod yn araf yn datblygu prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, er bod y rhan fwyaf yn gwella'n raddol yn y maes hwn. Erbyn hyn, mewn lleiafrif o ysgolion, ceir prosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer monitro gwaith yr ysgol, er enghraifft drwy arsylwadau o wersi a chraffu ar lyfrau. Mewn mwyafrif o ysgolion, fodd bynnag, ceir ychydig iawn o weithgarwch sicrhau ansawdd.


Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwella eu trefniadau casglu data disgyblion unigol a data ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ysgolion yn dadansoddi'r data hwn yn dda o hyd wrth asesu cynnydd disgyblion ac i lywio'r cynllunio.

Mae rheoli adnoddau yn dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr ysgolion arbennig annibynnol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arbenigedd priodol gan staff a gallant gael hyfforddiant priodol, er enghraifft mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r ysgolion yn fach iawn, ac yn aml cyfleoedd cyfyngedig a geir i staff ymweld ag ysgolion eraill a rhannu arfer.

**Ffigur 2.53:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.54:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2016-2017)



# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion arbennig annibynnol

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn un ysgol. Mae polisïau a strategaethau llwyddiannus iawn gan yr ysgol hon ar gyfer cynorthwyo ymddygiad a lles emosiynol disgyblion. Yn ystod y cylch cyfan, nodwyd bod arfer ragorol mewn chwe ysgol.





Adran: 2



# Adroddiad sector
Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2011, roedd 34 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru. Cynyddodd y nifer hon i 39 o ysgolion yn Ionawr 2014, ond gostyngodd i 35 yn Ionawr 2017. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu ychydig dros 8,000 o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrif am ryw 2% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru.

Cynhaliwyd 40 o arolygiadau o ysgolion prif ffrwd annibynnol yn ystod cylch arolygu 2010-2017. Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Mae dwy o'r rhain yn ysgolion pob oed, mae dwy yn addysgu disgyblion rhwng 7 a 18 oed, mae un ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion oedran cynradd, ac mae un ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion 14 i 19 oed. Mae sampl eleni yn adlewyrchu amrywiaeth y ddarpariaeth yn y sector.

Cynhaliom beilot o'r trefniadau arolygu newydd mewn dwy ysgol. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013). Eleni, llwyddodd pump o'r chwe ysgol a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau hyn. Mewn un ysgol, nodom ddiffygion mewn ychydig o reoliadau'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir a lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Byddwn yn monitro'r ysgol hon i wneud yn siŵr ei bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n ofynnol i gynnal ei chofrestriad.

Cynhaliom weithgareddau monitro dilynol gyda'r ddwy ysgol nad oedd wedi bodloni pob un o'r rheoliadau hyn yn 2015-2016. Mae'r ddwy ysgol hon wedi cymryd camau priodol a bellach maent yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Dros gylch arolygu 2010-2017, roedd dwy ran o dair o ysgolion prif ffrwd annibynnol yn cydymffurfio â phob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013) pan gynhaliwyd eu harolygiad craidd. Mae hyn yn welliant o gymharu â chylch arolygu 2004-2010, pan oedd dim ond dwy o bob deg ysgol prif ffrwd annibynnol yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar adeg eu harolygiad craidd.

# Deilliannau:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol


## Safonau

Yn ystod y cylch arolygu, mae safonau'n dda neu'n well mewn naw o bob deg o'r ysgolion prif ffrwd annibynnol. Roedd nodweddion rhagorol yn y safonau a gyflawnwyd mewn dros chwarter o'r ysgolion a arolygwyd.


Lle ceir safonau da neu well, mae disgyblion yn defnyddio dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau yn dda iawn mewn cyd-destunau newydd. Cyflwynant eu syniadau ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn modd hyderus ac aeddfed gan ddefnyddio ystod eang o eirfa am eu hoedran. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau darllen yn arbennig o effeithiol i ddethol a dehongli gwybodaeth ac i lunio casgliadau. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn fedrus mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cyflawni perfformiadau rhagorol mewn arholiadau cyhoeddus o gymharu â disgyblion mewn ysgolion eraill yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol, a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion yn datblygu'u gallu i ysgrifennu'n estynedig at ystod o ddibenion, nid ydynt yn cyflwyno'u gwaith yn ddigon da a gwnânt gamgymeriadau sillafu mynych.

**Ffigur 2.55:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.56:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)



## Lles

Dros y cylch arolygu, mae lles yn dda neu'n well ym mron pob un o'r ysgolion prif ffrwd annibynnol a arolygwyd. Ceir nodweddion rhagorol mewn lles disgyblion mewn ychydig o dan draean o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae agweddau hynod gadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu. Er enghraifft, maent yn llawn cymhelliant, yn gallu cynnal eu canolbwyntio ac yn datblygu'u gallu ar gyfer astudio annibynnol yn arbennig o dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda eithriadol, yn dangos lefelau uchel o barch at bobl eraill ac yn ffurfio perthnasoedd gweithio adeiladol â'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn aeddfed ac yn hunan-sicr, ac ymgymerant ag ystod eang o rolau arwain sy'n helpu i ddatblygu'u medrau personol, cymdeithasol a'u medrau dysgu.

Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch trefniadau'r cwricwlwm. Fodd bynnag, yn fwy cyffredin, mae dylanwad disgyblion yn gyfyngedig i faterion fel yr adeilad a'r amgylchedd dysgu. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar waith yr ysgol.


### Oakleigh House

Mae staff yn **Ysgol Oakleigh House** wedi annog dysgwyr i fod yn fwy gwydn wrth wynebu heriau, i ddysgu o'u camgymeriadau a dod yn fwy annibynnol ym mhob agwedd ar eu dysgu.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.57:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.58:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Dros y cylch arolygu, mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn saith o bob deg ysgol. Ceir nodweddion rhagorol mewn un o bob deg ysgol.

Lle mae profiadau dysgu yn dda neu'n well, mae ysgolion yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau disgyblion mewn cyd-destun perthnasol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd amrywiol iawn i ddisgyblion ddatblygu'u medrau siarad, darllen, rhifedd a'u medrau meddwl yn benodol. Ceir rhaglenni allgyrsiol cynhwysfawr yn yr ysgolion hyn, gyda chyfraddau cyfranogi uchel. Mae'r rhaglenni hyn yn ehangu ac yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, nid oes cydbwysedd addas i'r cwricwlwm. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol neu greadigol. Mewn rhyw hanner o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i gynorthwyo'u dysgu.

Yn y mwyafrif o ysgolion annibynnol pob oed, ceir cysylltiadau da ar draws cyfnodau gwahanol yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i sicrhau bod profiadau disgyblion yn adeiladu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion pob oed, mewn ychydig o feysydd cwricwlwm, nid yw'r cyswllt rhwng gwahanol gyfnodau'r ysgol yn ddigon cryf.

Yn y cylch arolygu hwn, mae ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well mewn dwy ran o dair o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, ceir lefelau uchel o barch gan y naill at y llall rhwng athrawon a disgyblion, a disgwyliadau uchel sy'n cymell ac yn herio disgyblion. Defnyddir gwybodaeth bynciol helaeth athrawon i archwilio a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Mae esboniadau clir a chwestiynu yn annog disgyblion i feddwl yn ofalus i ddatrys problemau ac ymestyn eu gwybodaeth. Mae gweithgareddau dysgu ysgogol yn cipio dychymyg a diddordeb disgyblion, ac mae adborth adeiladol yn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.


## Coleg Unedig y Byd, Coleg Iwerydd

Caiff disgyblion yng **Ngholeg Unedig y Byd, Coleg Iwerydd,** gyfleoedd helaeth i ddechrau, arwain a chymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau datblygu lleol a byd-eang. Mae'r prosiectau hyn yn ymgorffori gweledigaeth y coleg y dylai disgyblion 'gael eu grymuso i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein byd'.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.59:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.60:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Lle ceir diffygion mewn addysgu, y rheswm mwyaf cyffredin am hyn yw nad yw gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion o bob gallu. Mae rhediad araf y gwersi yn rhwystro cynnydd disgyblion a cheir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol neu ddatblygu'u medrau gwneud penderfyniadau.

Mae trefniadau gofal a chymorth effeithiol mewn ychydig o dan dri chwarter o ysgolion. Maent yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Ceir ymdeimlad cryf o gymuned ac ethos anogol yn yr ysgolion hyn, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at hyder a lles disgyblion.

## Ysgol Rougemont

Mae **Ysgol Rougemont** wedi mabwysiadu dull ysgol gyfan o gefnogi gwydnwch a lles. Mae'r mentrau wedi galluogi disgyblion i ffynnu yn eu datblygiad academaidd, cymdeithasol ac emosiynol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence





# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn chwech o bob deg ysgol brif ffrwd annibynnol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol glir. Maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o ddiben ac yn rhoi cyfeiriad cadarn i bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir gan bob un o'r staff, maent yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn darparu cymorth a her adeiladol i'r staff. Mae'r arweinwyr hyn yn ymdrechu'n gyson i wella arfer yr ysgolion ac arloesi mewn modd ystyriol.

Lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, y rheswm mwyaf cyffredin am hyn yw nad yw arweinwyr yn darparu cyfeiriad cryf, mae rolau a chyfrifoldebau'n aneglur, ac nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon trwyadl.


Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion, roedd trefniadau cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cynnal dadansoddiadau cynhwysfawr a chadarn o ddata perfformiad ac adolygiadau trwyadl o bob agwedd ar eu gwaith, gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i nodi blaenoriaethau gwella clir, ac mae'r rhain wedi cyfrannu at welliannau sylweddol mewn safonau a darpariaeth.

Hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant, fodd bynnag, yw'r agwedd wannaf ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Mewn ychydig o dan hanner yr ysgolion, nid yw arweinwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddigon cywir. Nid oes ganddynt drefniadau systematig i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu, maent yn methu dadansoddi data perfformiad yn drylwyr ac yn paratoi cynlluniau gwella nad ydynt yn arwain at ddarpariaeth well nac yn codi safonau.


Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r perchennog yn helpu i benni'r cyfeiriad strategol ac yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o waith yr ysgol. Maent yn wybodus iawn ynglŷn â pherfformiad yr ysgol ac yn darparu cymorth a her briodol.

Ym mron pob ysgol, mae gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well. Mae'r partneriaethau hyn yn ymestyn y tu hwnt i gymuned yr ysgol i gynnwys busnesau lleol, cymdeithasau chwaraeon a chymdeithasau diwylliannol, a chysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn aml. Caiff y dulliau hyn o weithio mewn partneriaeth effaith gadarnhaol ar gyflawniadau a lles disgyblion.

**Ffigur 2.61:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.62:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



# Gweithgarwch dilynol:
Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Eleni, roedd arfer ragorol mewn pum ysgol. Mae gan dair o'r ysgolion hyn drefniadau partneriaeth hynod gadarn, sy'n cyfrannu'n arbennig o dda at safonau uchel disgyblion. Mewn dwy ysgol, caiff ymdeimlad cryf disgyblion o les ac agweddau cadarnhaol eithriadol at ddysgu effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir ganddynt. Er enghraifft, mae disgyblion yn wydn, yn dysgu o'u camgymeriadau ac mae ganddynt fedrau astudio annibynnol cadarn.

Yn ystod y cylch arolygu, roedd arfer ragorol gan bedair ysgol o bob deg, ac mewn un o bob deg ysgol, roedd safon yr addysgu yn rhagorol. Yr agweddau mwyaf cyffredin sy'n cyfrannu at y deilliannau rhagorol yn yr ysgolion hyn yw addysgu cadarn yn gyson, agwedd hynod gadarnhaol disgyblion at eu dysgu a threfniadau partneriaeth eithriadol. Mae disgyblion yn yr ysgolion hyn wedi ymgysylltu'n fawr ac yn llawn cymhelliant. Llwyddant i ddatblygu'r medrau i ddod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol a gwydn. Mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu at y canlyniadau rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mewn rhyw un o bob pum ysgol, mae partneriaethau effeithiol iawn ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol yn gwella'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu yn sylweddol. Mae'r partneriaethau hyn yn annog disgyblion i ddod yn ddinasyddion gwybodus yn foesegol, yn eu hannog i fyfyrio'n ystyriol ar eu rôl mewn cymdeithas, ac i ddeall sut gall eu gweithredoedd effeithio ar fywydau pobl eraill a'u trawsnewid.



# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Colegau arbenigol annibynnol

Eleni, mae saith o golegau arbenigol annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn un yn fwy nag yn Ionawr 2016 a phedwar yn fwy nag yn Ionawr 2010. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 220 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Eleni, fe wnaethom arolygu un coleg.

I gael mwy o wybodaeth am y coleg a arolygwyd, darllenwch yr adroddiad arolygu **Coleg Priory De Cymru.**

Dros gylch arolygu 2010-2017, rydym wedi cynnal chwech o arolygiadau craidd.

Y llynedd, cynhaliom arolwg thematig ar draws yr holl golegau hefyd. Mae'r arolwg yn arfarnu pa mor dda mae colegau arbenigol annibynnol yn mesur y cynnydd a wneir gan ddysgwyr a'r graddau y mae dysgwyr wedi'u paratoi ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael y coleg.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad thematig **Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol** (Estyn, 2016e).

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o golegau arbenigol annibynnol. Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y colegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol. Eleni, fe wnaethom gynnal tri ymweliad monitro.

Er 2010, rydym wedi cynnal 22 o ymweliadau monitro â cholegau arbenigol. Dros y cylch, mae colegau arbenigol wedi gwneud cynnydd addas o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o argymhellion o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro.

# Deilliannau:
# Colegau arbenigol annibynnol

## Safonau


Dros y cylch arolygu, mae safonau'n dda neu'n well mewn pedwar o'r chwe choleg a arolygwyd.

Yn y colegau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol, ac mae llawer o ddysgwyr yn ennill unedau credyd neu gymwysterau buddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u galluoedd. Maent yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn dda iawn, gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso'n effeithiol ar draws ystod o sefyllfaoedd ymarferol. Mae llawer o ddysgwyr yn caffael medrau gwerthfawr ar gyfer byw'n fwy annibynnol, gan gynnwys medrau datrys problemau a medrau meddwl. Mewn tua hanner o'r colegau, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth addas o fyd gwaith trwy gyfleoedd profiad gwaith ystyrlon. Mae'r cyflawniadau hyn yn helpu i'w paratoi'n dda at y cam nesaf yn eu bywydau.

Yn y ddau goleg lle ceir safonau digonol, caiff dysgwyr gyfleoedd rheolaidd i ymarfer a datblygu'u medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Yn y colegau hyn, fodd bynnag, nid yw gwybodaeth am gyflawniadau dysgwyr yn ddigon manwl i ddangos a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol. Y rheswm am hyn yw nad oes systemau effeithiol ar waith yn y colegau hyn ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd dysgwyr.

**Ffigur 2.63:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)




## Lles

Dros y cylch, mae lles yn dda neu'n well mewn pump o'r chwe choleg a arolygwyd. Yn y colegau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ffyrdd iach o fyw a phwysigrwydd gwneud dewisiadau bwyd iach. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer gwneud ymarfer corff sy'n rhoi ystyriaeth dda i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae dysgwyr mwy abl yn dangos dealltwriaeth addas o ddiogelwch ar-lein.

Ym mhob coleg, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn sesiynau ac o amgylch y coleg. Mae dysgwyr sydd ag ymddygiadau mwy heriol yn dysgu sut i reoli'r rhain dros gyfnod yn sgil y cymorth a gânt. Mewn pedwar coleg, mae dysgwyr yn ymgymryd â rolau arwain gwerthfawr ac yn cyfrannu at benderfyniadau yn y coleg.

Lle ceir diffygion mewn lles, y rheswm am hyn yw nad yw ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi'n brydlon neu nid ydynt yn mynychu'r coleg yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn colli cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu.

**Ffigur 2.64:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth:
# Colegau arbenigol annibynnol

Dros y cylch, mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn pedwar o'r chwe choleg a arolygwyd ac yn ddigonol yn y ddau arall.

Lle ceir darpariaeth dda neu well, mae hyn oherwydd bod y coleg yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n bodloni anghenion dysgwyr. Mae staff yn defnyddio ystod addas o asesiadau cychwynnol i nodi galluoedd dysgwyr pan fyddant yn ymuno â'r coleg ac i osod targedau perthnasol ar draws ystod eang o fedrau a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r colegau hyn yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, annibyniaeth, medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr. Darparant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gyflawni unedau credyd neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol. Mae cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer profiad gwaith a gweithgareddau allgyrsiol yn galluogi dysgwyr i ymarfer a datblygu'u medrau galwedigaethol a'u medrau cymdeithasol mewn lleoliadau realistig.

Yn y colegau hyn, ceir perthnasoedd gweithio cadarn rhwng tiwtoriaid, staff cymorth a dysgwyr. Mae gan diwtoriaid ddealltwriaeth glir o anghenion dysgwyr unigol, a chynlluniant sesiynau difyr sy'n cysylltu'n dda â thargedau personol dysgwyr. Maent yn olrhain ac yn monitro cynnydd dysgwyr yn rheolaidd, ac yn defnyddio data am gyflawniadau dysgwyr yn dda i gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol ac i adolygu darpariaeth y coleg.

Mewn pump o'r chwe choleg, mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr yn uchel iawn. Mae prosesau sydd wedi'u cydlynu'n dda ar gyfer nodi anghenion ychwanegol dysgwyr yn darparu cyngor manwl i staff ar sut i gynorthwyo dysgwyr unigol. Defnyddir y wybodaeth hon yn fedrus gan staff i ddatblygu annibyniaeth a chyflawniadau dysgwyr. Mae pob un o'r colegau yn darparu ethos cadarnhaol a chynhwysol, sy'n hyrwyddo amrywiaeth yn eithriadol o dda.


Lle ceir diffygion yn y ddarpariaeth, y rheswm am hyn yw nad yw asesiadau cychwynnol yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar anghenion addysgol dysgwyr. Nid yw staff yn defnyddio deilliannau asesiadau cychwynnol yn ddigon da i osod targedau ystyrlon ar gynlluniau dysgu unigol dysgwyr nac i sicrhau bod rhaglenni dysgu yn gwbl berthnasol i anghenion a galluoedd dysgwyr. Mae rhaglenni dysgu yn canolbwyntio gormod ar ofynion cymwysterau yn hytrach na'r hyn sy'n berthnasol i gyrchfannau dysgwyr yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn gyfyngedig.

### Coleg Elidyr

Mae **Coleg Elidyr**, Sir Gaerfyrddin, wedi ymrwymo i ddatblygu medrau trosglwyddadwy dysgwyr. Aeth y coleg ati i adolygu'r modd y gallai gwersi pwnc helpu i ddatblygu medrau fel llythrennedd, rhifedd, medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Cafodd staff hyfforddiant ar sut i integreiddio addysgu medrau trosglwyddadwy mewn gwersi pwnc penodol ac mae dysgwyr yn fwy hyderus o ganlyniad i hynny.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

**Ffigur 2.65:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau arbenigol annibynnol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn pedwar o'r chwe choleg arbenigol annibynnol a arolygwyd yn ystod y cylch, ac yn ddigonol yn y ddau arall.

Lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth dda neu well, mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfleu gweledigaeth gadarn sy'n canolbwyntio ar gynnydd a lles pob dysgwr. Maent yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ac yn hyrwyddo disgwyliadau uchel gan yr holl staff. Mae systemau dibynadwy gan arweinwyr i gasglu ystod o ddata ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae dealltwriaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr o gryfderau'r coleg a'r meysydd i'w gwella. Mae'r hunanasesu yn rhoi ystyriaeth addas i ddata cynhwysfawr ar gynnydd a chyflawniadau dysgwyr, yn ogystal ag adborth gan rieni, staff a dysgwyr. Yn y colegau hyn, mae staff yn rhoi ffocws cadarn ar welliant parhaus a cheir hanes llwyddiannus o fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol.

Mae prosesau sicr gan yr holl golegau ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae adolygiadau rheolaidd o berfformiad yn arwain at gyfleoedd buddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant sy'n cyfateb yn dda i anghenion dysgwyr.

Mewn pump o'r chwe choleg, mae partneriaethau effeithiol yn cyfrannu'n sylweddol at wella cyfleoedd a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau sydd wedi'u datblygu'n dda â busnesau ac elusennau lleol, sy'n gwella ystod y cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith i ddysgwyr yn fawr. Mae pob un o'r colegau yn defnyddio adnoddau'n dda i fodloni anghenion arbenigol dysgwyr. Maent yn cynllunio gydag ysgolion, Gyrfa Cymru a gwasanaethau arbenigol i wella'r broses drosglwyddo i ddarpar ddysgwyr. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn gryfder arbennig yn y sector hwn.

Mae colegau arbenigol yn gweithio'n agosach â'i gilydd nag yr oeddent ar ddechrau'r cyfnod arolygu. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu dulliau cyffredin ac arfer effeithiol. Mae'r cydweithio hwn yn dechrau cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr ledled Cymru. Mewn dau goleg, mae partneriaethau cryf gyda'r coleg addysg bellach lleol yn galluogi dysgwyr i ddilyn ystod helaeth o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd.


Yn y ddau goleg lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, y rheswm am hyn yw nad yw arweinwyr yn darparu cyfeiriad digon clir i staff ar gyfer gwella'r ddarpariaeth. Nid ydynt yn arfarnu data ar gynnydd disgyblion a chyflawniadau yn ddigon da, ac nid yw gweithgareddau hunanarfarnu yn nodi meysydd pwysig i'w gwella yn gywir.

**Coleg Priory De Cymru**

Mae'r bartneriaeth gref rhwng **Coleg Priory De Cymru** a **Choleg Gwent** yn caniatáu i oedolion ifanc â syndrom Asperger, anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig ddilyn cyrsiau prif ffrwd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

**Ffigur 2.66:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)




DIGIDOL
twitter

# Adroddiad sector
## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2017, roedd 25 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn 19 yn llai nag yn Ionawr 2010. Roedd rhyw 665 o ddisgyblion mewn UCDau yn Ionawr 2017. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn UCDau wedi cynyddu 17% dros y saith mlynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017j). Mae pedwar awdurdod lleol heb UCD gofrestredig.

Dros gylch arolygu 2010-2017, rydym wedi cynnal 37 o arolygiadau craidd o UCDau. Eleni, fe wnaethom arolygu pedair UCD. Cynhaliodd Estyn beilot o'r trefniadau arolygu newydd yn un o'r UCDau hyn. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau o'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

I gael mwy o wybodaeth am yr unedau cyfeirio disgyblion a arolygwyd yn 2016-2017, darllenwch yr adroddiadau arolygu

**Canolfan Ddysgu Sir Benfro**
**UCD Portffolio Darpariaeth Amgen Y Bont**
**UCD Tŷ Glyn Torfaen**
**Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn**

# Deilliannau:
# Unedau cyfeirio disgyblion


## Safonau

Dros y cylch, mae safonau'n dda neu'n well yn hanner yr UCDau. Yn yr UCDau hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u hanghenion dysgu. Mae disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn dda ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn pynciau eraill. Mae disgyblion hŷn yn cyflawni cymwysterau sy'n briodol i'w doniau a'u diddordebau, ac mae bron pob un yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn yr UCDau hyn, mae llawer o ddisgyblion iau yn dychwelyd yn llwyddiannus i addysg brif ffrwd amser llawn.


Mae safonau'n ddigonol mewn traean o UCDau ac yn anfoddhaol mewn ychydig dros un o bob deg UCD. Y rheswm am hyn yw bod y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi yn rhy amrywiol, mae ehangder y cymwysterau a gyflawnir yn rhy gul, ac mae llawer o ddisgyblion wedi colli diddordeb yn eu dysgu. Yn yr UCDau hyn, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'r medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y mae arnynt eu hangen i gynorthwyo'u dysgu ar draws y cwricwlwm. Nid oes dealltwriaeth ddigon da gan lawer o'r UCDau hyn o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud oherwydd y diffyg gwybodaeth wedi'i chofnodi am eu cyrhaeddiad blaenorol ac oherwydd anghysondeb yn eu hasesiadau gwaelodlin.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn gwneud digon o gynnydd yn eu datblygiad iaith Gymraeg yn ystod eu cyfnod mewn UCDau, ac nid yw'r hyder ganddynt i ddefnyddio'u medrau Cymraeg wrth gyfathrebu â staff a chyfoedion.

**Ffigur 2.67:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.68:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?
(Cylch arolygu 2010-2017)




## Lles

Mae lles yn dda neu'n well yn rhyw hanner yr UCDau. Mae lles yn ddigonol mewn pedair o bob deg UCD ac yn anfoddhaol mewn un o bob deg UCD.


Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau mewn UCDau heb fawr o hyder, maent yn cael anhawster yn rheoli'u hemosiynau a'u hymddygiad ac mae ganddynt hanes o waharddiadau o'r ysgol. Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae llawer o ddisgyblion â chofnod presenoldeb gwael mewn lleoliadau blaenorol yn gwneud cynnydd cadarn ac yn gwella lefel eu presenoldeb personol. Maent yn gwella'u hymddygiad, yn dysgu rheoli'u hemosiynau dros gyfnod, ac yn ymateb yn dda i gymorth cyson gan staff.

Mewn UCDau lle mae lles yn ddigonol neu'n anfoddhaol, mae presenoldeb yn rhy isel yn gyffredinol. Mewn ychydig o UCDau, mae presenoldeb disgyblion yn is na'u presenoldeb mewn ysgol brif ffrwd. Yn aml, mae prydlondeb i'r UCD ac i wersi yn wael hefyd. Mewn rhyw hanner o'r UCDau, mae ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn achosi pryder. Mae presenoldeb ac ymddygiad gwael yn cyfyngu ar allu disgyblion i wneud cynnydd.

**Ffigur 2.69:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2016-2017)




**Ffigur 2.70:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth: Unedau cyfeirio disgyblion


Dros y cylch, mae darpariaeth yn dda neu'n well yn hanner yr UCDau, ac yn ddigonol mewn traean. Ceir darpariaeth anfoddhaol mewn un o bob chwech UCDau.

Mae chwech o bob deg o'r UCD a arolygwyd yn cynnig cwricwlwm eang sy'n cyfateb i anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cwricwlwm yn ymateb i anghenion unigol y disgyblion, a chaiff disgyblion hŷn, yn enwedig y rheini yng nghyfnod allweddol 4, eu hannog i wneud dewisiadau yn eu dysgu i gefnogi'u pynciau craidd. Yn yr UCDau hyn, mae disgyblion hŷn yn cael profiad gwaith gwerthfawr a chymwysterau galwedigaethol mewn meysydd fel adeiladu, hylendid bwyd ac astudiaethau'r cyfryngau. Mae hyn yn eu helpu i sicrhau lleoliadau mewn addysg bellach neu gyflogaeth yn y meysydd gwaith o'u dewis ar ôl gadael yr UCD. Mae cysylltiadau cadarn â darparwyr allanol, fel colegau lleol a darparwyr hyfforddiant, yn gwella profiadau dysgu disgyblion. Mae'r cwricwlwm diddorol ac amrywiol yn helpu i ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a medrau meddwl disgyblion yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r UCDau hyn yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.


Mewn pedair o bob deg UCD, mae'r cwricwlwm ac ystod y cymwysterau a gynigir yn rhy gul. Yn aml, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r cynllunio ar gyfer medrau yn yr UCDau hyn, yn enwedig rhifedd a TGCh. O ganlyniad, mae diffyg her yn y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig, ac nid yw'n sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni.

Mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr UCDau. Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, ceir perthnasoedd gweithio cadarn rhwng disgyblion, athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae staff yn deall anghenion eu disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion a gwnânt ddefnydd da o dechnegau gofyn cwestiynau i wirio dealltwriaeth a datblygu medrau meddwl.

**Ffigur 2.71:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.72:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Ceir diffygion yn yr addysgu yn hanner yr UCDau a arolygwyd. Yn yr UCDau hyn, nid yw disgwyliadau athrawon o ymddygiad a dysgu yn ddigon uchel. Mae rhediad y dysgu'n rhy araf. Ceir gorddibynnu ar ddysgu dan gyfarwyddyd yr athro. Mae hyn yn atal disgyblion rhag datblygu a chymhwyso'u medrau yn ddigon da mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn gadarn yn hanner yr UCDau a arolygwyd. Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae trefniadau sefydledig ar waith ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion emosiynol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu staff i gynllunio cymorth targedig i fynd i'r afael â bylchau yn nysgu'r disgyblion a gwella'u hymddygiad. Gwna'r rhan fwyaf o UCDau ddefnydd helaeth o wasanaethau arbenigol fel gwasanaethau iechyd meddwl, athrawon ymgynghorol a seicolegwyr addysgol i ddarparu cymorth i ddisgyblion a hyfforddiant gwerthfawr i staff.

Ceir mesurau addas ar gyfer diogelu disgyblion mewn llawer o UCDau, er nad yw trefniadau ychydig o UCDau yn bodloni'r gofynion yn llawn, oherwydd pryderon ynghylch rheoli ymddygiad, goruchwyliaeth addas o ddisgyblion, a diogelwch safleoedd.

Mae'r rhan fwyaf o UCDau yn cynnig amgylchedd dysgu addas sy'n ddiogel, cefnogol a chroesawgar. Ar ychydig o achlysuron, nid yw'r amgylchedd dysgu yn addas i'r diben ac nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer adnoddau fel TGCh wedi'i datblygu'n ddigonol.

## UCD Tŷ Glyn, Torfaen

### Y daith i wella ansawdd addysgu a dysgu

Wrth weithio i wella addysgu a dysgu yn **UCD Tŷ Glyn**, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar ddatblygu staff ar bob lefel. Mae cysylltiadau gwell gydag ysgolion prif ffrwd yn golygu bod staff UCD yn llai ynysig, ac maent yn elwa ar ddatblygiadau diweddar yn y cwricwlwm uwchradd. Mae cydweithio wedi arwain at staff prif ffrwd yn darparu gwaith ac addysgu arbenigol mewn pynciau nad yw staff UCDau yn gallu'u cynnig, er enghraifft Cymraeg. Mae'r gwaith hwn gydag ysgolion prif ffrwd wedi ehangu'r ystod o ddewisiadau i ddisgyblion, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau. Arweiniodd gwaith pellach drwy archwiliad o fedrau staff cymorth at raglen hyfforddi wedi'i threfnu ac achrediad cenedlaethol. Bellach, mae disgyblion yn derbyn cymorth gwell i ddatblygu'u medrau rhifedd.

**Dolen i'r adroddiad arolygu**

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Unedau cyfeirio disgyblion


Dros y cylch, mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn pedair o bob deg UCD. Mae ansawdd arweinyddiaeth yn ddigonol mewn pedair o bob deg UCD ac yn anfoddhaol mewn dwy o bob deg UCD.

Mewn lleiafrif o UCDau, lle mae arweinyddiaeth yn fwyaf effeithiol, mae'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r tîm arweinyddiaeth yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd. Maent yn rhannu gweledigaeth a diben clir ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer yr UCD.


Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth yn llai effeithiol mewn mwyafrif o UCDau. Yn aml, y rheswm am hyn yw nad yw'r awdurdod lleol yn darparu cymorth addas i UCDau, yn enwedig ar gyfer athrawon â gofal sydd newydd eu penodi. Yn ystod cyfnodau o ansefydlogrwydd a newidiadau sylweddol i strwythur, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar waith yr UCD o ddydd i ddydd. O ganlyniad, ceir anghysondebau mewn ychydig o UCDau rhwng effaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar ansawdd y ddarpariaeth ar safleoedd gwahanol sydd wedi eu cofrestru fel un UCD ar y cyd neu UCD 'portffolio'.

Un cryfder a geir mewn llawer o'r UCDau yw'r gweithio effeithiol mewn partneriaeth gydag ysgolion prif ffrwd, gweithwyr proffesiynol cymdeithasol a gweithwyr iechyd, a rhieni. Mewn llawer o UCDau, mae partneriaethau strategol gyda cholegau lleol, ysgolion prif ffrwd a darparwyr hyfforddiant yn gwella profiadau dysgu disgyblion yn dda iawn. Ni ddyfarnwyd unrhyw farnau anfoddhaol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth dros y cylch arolygu.

**Ffigur 2.73:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.74:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Dylai awdurdodau lleol hysbysu Llywodraeth Cymru pa bryd bynnag y caiff UCD newydd ei sefydlu neu pan gaiff UCD bresennol ei chau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol neu gyfnodau ymgynghori cyn agor neu gau UCDau. O ganlyniad, bu newidiadau sylweddol i statws cofrestru'r rhan fwyaf o UCDau dros y cyfnod arolygu. Mae'r ansefydlogrwydd parhaus hwn yn rhwystr rhag gwella ar draws y sector.

Daeth pwyllgorau rheoli yn ofyniad statudol ar gyfer UCDau yn Hydref 2014. Mae strwythurau pwyllgor rheoli priodol ar waith gan yr holl UCDau a arolygwyd. Mae bron pob un o'r pwyllgorau rheoli'n cefnogi gwaith yr UCD yn dda, ac maent wedi gwneud cynnydd addas i ddatblygu'u rôl mewn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mewn tair o bob deg UCD, mae prosesau ar gyfer gwella ansawdd yn dda neu'n well. Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae dealltwriaeth dda iawn gan arweinwyr o ba mor dda y mae'r UCD yn cyflawni o ran ei diben. Maent yn mynd ati'n flaengar i gynllunio gwelliannau i'r dyfodol, gan gynnwys ailstrwythuro, ar sail eu dadansoddiad o berfformiad presennol. Mewn saith o bob deg UCD, mae diffyg trylwyredd yn y prosesau hyn ac mae angen eu gwella. Yn yr UCDau hyn, mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn anfoddhaol yn aml. Y prif ddiffyg yw'r diffyg ffocws ar wella cyflawniadau disgyblion ac ar ansawdd yr addysgu. Mae'r broses o ddadansoddi data sydd ar gael yn wan, ac yn aml nid yw'n llywio cynllunio strategol yn ddigon da. Yn aml, dim ond yn ddiweddar y mae prosesau monitro strategol fel arsylwadau gwersi ffurfiol a chraffu ar waith wedi'u cyflwyno yn aml, ac nid oes darlun ddigon cywir gan arweinwyr o brif feysydd yr UCD i'w datblygu.

Mae rheoli adnoddau yn dda yn hanner yr UCDau, ac yn rhagorol mewn un. Mewn tair o bob deg UCD mae'n ddigonol, ac yn anfoddhaol mewn dwy o bob deg. Yn aml, y rheswm am hyn yw gor-ddibynnu ar staff dros dro nad yw'r medrau a'r profiad perthnasol ganddynt bob amser i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion heriol.





# Gweithgarwch dilynol: Unedau cyfeirio disgyblion

Eleni, mae dwy UCD yn dda gydag arfer ragorol mewn un neu fwy o feysydd. Mae angen monitro pellach ar ddwy UCD a arolygwyd eleni. Yn y ddwy UCD, safonau digonol yn unig a gyflawnir gan ddisgyblion, yn rhannol am fod diffygion yn y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig yng nghyfnod allweddol 4. Yn aml, mae cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u dysgu o leoliadau blaenorol yn gyfyngedig, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ddwy UCD hon, nid yw dadansoddi data, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi'u datblygu'n ddigonol.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, roedd pedair UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd un UCD o'r categori gwelliant sylweddol am iddi wneud cynnydd digonol mewn perthynas â'i hargymhellion yn yr arolygiad craidd. Fe wnaeth un UCD yr oedd angen gwelliant sylweddol arni gau yn Awst 2017, ac ni ymwelwyd ag un hyd yn hyn. Mae un UCD yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

Dros y cylch arolygu, fe wnaethom arolygu 37 o UCDau. Roedd arfer ragorol mewn un neu fwy o feysydd mewn pump UCD, a barnwyd bod dwy UCD yn rhagorol at ei gilydd. Yn gyffredinol, ceir arweinyddiaeth gryf, addysgu effeithiol a threfniadau da iawn ar gyfer hyrwyddo lles disgyblion yn yr UCDau hyn.

Er 2010, nodom fod angen monitro pellach gan Estyn ar 12 UCD. Roedd tair UCD wedi gwneud cynnydd da ymhen rhyw flwyddyn ac fe'u tynnwyd o'r categori monitro gan Estyn. Fe wnaeth chwech UCD yr oedd angen monitro pellach arnynt uno gyda darpariaethau eraill, a bellach maent yn rhan o UCDau 'portffolio' mwy. Mae dwy UCD yn parhau yn y categori monitro gan Estyn.

Roedd angen gwelliant sylweddol ar saith UCD. Gwnaed cynnydd da gan dair UCD mewn perthynas ag argymhellion eu harolygiad craidd ac nid oes angen gwelliant sylweddol ynddynt mwyach. Mae un UCD yn parhau yn y categori gwelliant sylweddol. Cafodd tair UCD arall eu tynnu o'r categori gwelliant sylweddol, ond ers hynny maent wedi cau neu uno gyda darpariaeth arall.


Dros y cylch arolygu, roedd angen gweithredu mesurau arbennig mewn chwech UCD. Roedd arweinyddiaeth a rhagolygon gwella anfoddhaol yn yr UCDau hyn. Tynnwyd un UCD o'r categori mesurau arbennig ymhen rhyw flwyddyn. Caeodd pedair UCD yn dilyn yr arolygiadau craidd, ac mae un yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

Yn gyffredinol, y prif ddiffyg yn yr UCDau a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yw'r diffyg cymorth a her gyson ac effeithiol gan yr awdurdod lleol. Yn aml, yn yr UCDau hyn, nid yw pawb yn deall y weledigaeth ar gyfer yr UCD yn llwyr, ac mae prosesau sicrhau ansawdd, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn wan.


Fel arfer, mae UCDau y mae angen adolygiad gan Estyn arnynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ymhen rhyw flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r rhai a gafodd eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig yn cymryd mwy o amser i wneud y gwelliannau angenrheidiol, ac yn aml maent yn destun adolygiadau hir gan yr awdurdod lleol ac ailstrwythuro gwasanaethau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae adolygiadau awdurdodau lleol yn gyflym, caiff ailstrwythuro staff ei reoli'n dda ac mae dealltwriaeth glir gan staff o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Yn yr UCDau hyn, mae'r cymorth targedig effeithiol iawn a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli wedi arwain at welliannau cadarn mewn deilliannau i ddisgyblion, ac ansawdd yr addysgu ac amgylcheddau dysgu.

Yn ystod y cyfnod arolygu, fe wnaeth traean o'r UCD yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt gau. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw datblygu UCDau portffolio aml-safle, ac uno UCDau gydag ysgolion arbennig a gynhelir. Pan gawsant eu rheoli'n dda, fe wnaeth y newidiadau hyn gryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr UCDau a chreu amgylchedd dysgu mwy cefnogol ar gyfer staff a disgyblion.

**Ffigur 2.75:**
Unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017




**Ffigur 2.76:**
Unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol (Cylch arolygu 2010-2017)



Adran: 2



# Adroddiad sector
# Gwasanaethau addysg llywodraeth lleol

## Arolygiadau awdurdodau lleol a gweithgarwch dilynol

Rhwng 2010 a 2014, fe wnaethom arolygu'r gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. At ei gilydd, roedd deilliannau arolygu yn dda neu'n well mewn tua dau o bob deg o'r awdurdodau lleol yn ystod y cylch hwn. Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn arweinyddiaeth gref, yn wleidyddol ac yn gorfforaethol, ac roedd cynllunio manwl ar gyfer gwelliant a hunanarfarnu gonest wedi eu hymwreiddio'n ddwfn yn niwylliant eu gwasanaethau addysg. Roeddent yn cynorthwyo ac yn herio eu hysgolion yn effeithiol. Roeddent yn sicrhau bod cydweithio effeithiol rhwng meysydd gwasanaeth ac yn defnyddio adnoddau'n dda i gyflawni eu blaenoriaethau corfforaethol.

Ar draws mwyafrif yr awdurdodau lleol, roedd yr agwedd fwyaf cadarnhaol ar eu gwaith yn ymwneud â chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn cydweithio'n dda â rhieni ac asiantaethau eraill, fel gwasanaethau iechyd, i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fodloni anghenion penodol dysgwyr. Yn ogystal, roedd ganddynt systemau da i olrhain, monitro a dadansoddi cynnydd dysgwyr, ac roeddent yn defnyddio'r wybodaeth o'r systemau hyn i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau i'w gwasanaethau. Fodd bynnag, amlygodd ein hadolygiad thematig yn 2016 nifer o wendidau yn neilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

**Addysg heblaw yn yr ysgol** (Estyn, 2016f)

Adroddiad yw hwn ar addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n derbyn eu holl addysg, neu'r brif ran ohoni, ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol.

Darllenwch yr **adroddiad llawn.**

Roedd sicrhau mynediad a lleoedd ysgol digonol i blant a phobl ifanc yn faes a oedd yn gryf mewn tua hanner yr awdurdodau lleol.  Yn gyffredinol, roedd swyddogion yn defnyddio ystod eang o ddulliau i arfarnu'r digonolrwydd hwn ac yn cynllunio dewisiadau rhesymol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.  Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol yn wannach o ran cynllunio i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.  Amlygodd ein hadolygiad thematig yn 2016 nad oedd y cynlluniau strategol i ddarparu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol mewn nifer o awdurdodau lleol, yn enwedig o ran nodi lefel y galw.

**Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol** (Estyn, 2016g).

Mae'r adolygiad yn ystyried effaith Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau).

Darllenwch yr **adroddiad llawn.**

At ei gilydd, roedd y deilliannau arolygu ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y cylch arolygu yn wan.  Roedd angen gweithgarwch dilynol ar 15 o'r 22 awdurdod lleol o ganlyniad i'r arolygiadau hyn.  O'r rhain, roedd angen mesurau arbennig ar chwech ohonynt, sef y lefel gweithgarwch dilynol fwyaf dwys, ac roedd angen gwelliant sylweddol ar ddau arall ohonynt. Cwblhawyd y gweithgarwch dilynol yn 2016.  Diffyg cyffredin ym mron pob un o'r awdurdodau lleol yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt oedd y diffyg gallu arweinyddol i sicrhau gwelliannau.  Roedd y pryderon yn yr awdurdodau hyn yn berthnasol i bob lefel o arweinyddiaeth, o brif weithredwyr, cyfarwyddwyr addysg ac uwch reolwyr addysg i arweinwyr y cyngor, aelodau'r cabinet dros addysg a chadeiryddion pwyllgorau craffu.

Roedd cyflymdra'r gwelliant ar ôl arolygiadau yn dibynnu ar yr arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol yn deall ac yn derbyn y materion a nodwyd, a'u gallu i fynd i'r afael â'r materion hynny trwy gynlluniau gwella cadarn a chydlynol. Ailstrwythurodd nifer o'r awdurdodau lleol mewn categorïau gweithgarwch dilynol eu timau arweinyddiaeth a disodli personél allweddol, yn enwedig ar lefel cyfarwyddwyr.  Mewn rhai achosion, roedd yr arweinwyr newydd hyn yn deall y materion a gwnaethant weithredu'n gadarn i sbarduno gwelliant mewn modd amserol.  Yr enghraifft orau oedd awdurdod lleol Ynys Môn, a gryfhaodd y tîm arweinyddiaeth trwy wneud penodiadau allweddol yn fuan ar ôl yr arolygiad.  Dechreuodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn ei swydd, a llenwyd swyddi'r pennaeth dysgu a'r swyddog safonau a chynhwysiant ar sail barhaol.  Sicrhaodd hyn fod gan y tîm rheoli gwasanaethau ysgolion ystod addas o arbenigedd a phrofiad ar draws meysydd gwasanaeth allweddol.

Darparodd arweinydd y portffolio addysg arweinyddiaeth wleidyddol effeithiol hefyd. O ganlyniad, trawsffurfiwyd y berthynas rhwng y gwasanaeth ac ysgolion, a chyfrannodd hyn at adeiladu diwylliant o welliant parhaus yn yr awdurdod.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru fyrddau adfer i gynorthwyo awdurdodau lleol yr oedd angen mesurau arbennig arnynt i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg gallu o ran arweinyddiaeth a chynorthwyo eu taith wella. Roedd effeithiolrwydd y byrddau adfer yn dibynnu ar addasrwydd a dull y personél a oedd yn gwasanaethu ar y byrddau, ynghyd â pha mor barod yr oedd arweinyddiaeth yr awdurdodau lleol i dderbyn ac ymgysylltu â gwaith y bwrdd. Yn yr enghreifftiau gorau, chwaraeodd y byrddau adfer rôl gref mewn helpu'r awdurdod lleol i wella trwy ddarparu arbenigedd a phrofiad ychwanegol mewn arweinyddiaeth i helpu i gynorthwyo a herio'r awdurdod lleol i wella.

Gwendid cyffredin mewn nifer o'r awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai nad oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt, oedd prosesau aneffeithiol ar gyfer hunanarfarnu perfformiad a chynllunio ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, nid oedd eu dealltwriaeth o'r hyn roeddent yn ei wneud yn dda a'r hyn yr oedd angen ei wella wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Fel arfer, roedd ganddynt brosesau monitro ar waith, ond mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd y prosesau hynny'n canolbwyntio'n fwy ar gofnodi p'un a gwblhawyd camau gweithredu arfaethedig ai peidio, yn hytrach na'r effaith roedd y camau gweithredu yn ei chael ar ansawdd y maes gwasanaeth a deilliannau i ddysgwyr.

Roedd gan lawer o'r awdurdodau lleol yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt wasanaethau gwella ysgolion o ansawdd gwael. Mewn 15 o'r 22 awdurdod lleol, roedd cymorth ar gyfer gwella ysgolion naill ai'n ddigonol neu'n anfoddhaol. Nid oedd yr awdurdodau lleol hyn yn adnabod eu hysgolion yn ddigon da, ac nid oeddent yn herio neu'n cynorthwyo arweinwyr ysgolion yn effeithiol i'w galluogi i wella. Roedd awdurdodau lleol yn rhy araf i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau a oedd islaw, neu hyd yn oed ymhell islaw, deilliannau ysgolion tebyg. Roedd awdurdodau lleol yn rhy araf wrth ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt i sicrhau gwelliannau mewn ysgolion, ac yn aml ond yn gweithredu ar ôl i arolygiad o ysgol nodi testun pryder.

## Consortia rhanbarthol

Yn ystod y cyfnod 2010-2014, arolygodd Estyn bob un o'r 22 awdurdod lleol a chanfu ddiffygion yn 15 ohonynt. Ar yr un pryd, datblygodd Llywodraeth Cymru fodel amgen o wella ysgolion a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu consortia rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran y pump neu chwe awdurdod lleol yn eu rhanbarthau priodol. Sefydlwyd y consortia yn rhannol i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg gallu ac arbenigedd yn nhimau gwella ysgolion awdurdodau lleol. Yn y cyfnod ers iddynt gael eu sefydlu, mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi datblygu eu strwythurau a'u prosesau yn unol â model cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (2015a). Pan adolygom waith y consortia rhanbarthol yn 2015, canfuom eu bod yn gwella ansawdd yr her i ysgolion, ond bod ansawdd y cymorth yn rhy amrywiol.

## Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol
(Estyn, 2015k)

Diben yr arolwg hwn oedd adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan gonsortia addysg rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

Darllenwch yr **adroddiad llawn.**

Fe wnaethom arolygu'r pedwar consortiwm rhanbarthol rhwng Chwefror a Mehefin 2016. Canfuom fod dau o'r consortia rhanbarthol yn darparu cymorth da i wella ysgolion, a bod y ddau arall yn darparu cymorth digonol. Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros wella ysgolion o hyd, ac nid yw rolau gwahanol yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol o ran gweithio gydag ysgolion yn glir i arweinwyr ysgolion bob tro. Er bod consortia rhanbarthol fel arfer yn adnabod eu hysgolion yn dda ac yn darparu gwybodaeth gadarn i awdurdodau lleol am ysgolion sy'n peri pryder, nid yw awdurdodau lleol yn gweithredu ar y wybodaeth hon bob tro, nac yn defnyddio eu pwerau statudol i wneud y newidiadau angenrheidiol i wella perfformiad ysgolion.

Nid yw'r ffordd y mae'r consortia rhanbarthol wedi dehongli a chymhwyso agweddau ar y model cenedlaethol yn eu cyd-destunau gwahanol wedi gweithio'n dda bob tro. Mae tri o'r pedwar consortiwm yn ailstrwythuro eu gweithluoedd ac yn newid arferion gwaith i'w galluogi'n well i gymhwyso a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo ysgolion mewn ffordd fwy strategol a chydlynol. Yn y consortiwm arall, roedd cymorth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen y tu allan i gylch gwaith y consortiwm i ddechrau, oherwydd dull rhanbarthol a oedd yn bodoli cyn y consortiwm yr oedd awdurdodau lleol yn gyndyn o'i newid. O ganlyniad, roedd yn anodd i'r consortiwm roi arweiniad strategol yn y maes gwaith hwn. Yn ddiweddarach, mae'r consortiwm wedi dod yn gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, gan ei alluogi i gynorthwyo ei ysgolion yn well.

Ar ôl dechrau eithaf ansicr pan roedd dyfodol hirdymor y consortia yn aneglur, mae'r consortia rhanbarthol wedi dod yn nodwedd fwy sefydlog o'r system addysg yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio mwy o gyfrifoldebau ac adnoddau tuag at y consortia rhanbarthol ac, ar adegau, mae'r consortia wedi cael trafferth cyflawni ym mhob un o'r meysydd newydd hyn. Un enghraifft yw'r cymorth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, sef llinyn ychwanegol i waith y consortia.

## Cynadleddau gwella

Yn ystod rhan olaf y cylch arolygu, fel rhan o'n gwaith fel arolygwyr cyswllt ag awdurdodau lleol, fe wnaethom ddatblygu dull "cynadleddau gwella" i helpu awdurdodau lleol i wella agweddau ar eu gwaith a oedd yn wan ac yn peri pryder. Nod y cynadleddau yw i arolygwyr geisio sicrwydd gan uwch swyddogion ac aelodau bod yr awdurdod a'i gonsortiwm yn deall ac yn cymryd cydgyfrifoldeb dros y materion sy'n arwain at berfformiad gwael. Yn ystod y gynhadledd, rydym yn gwirio bod gan yr awdurdod gynlluniau cydlynol i wella, bod ganddo ddigon o adnoddau i roi ei gynlluniau ar waith, a bod ganddo brosesau trylwyr ar waith i fonitro ac arfarnu eu heffaith. Yna, caiff gweithrediad y cynlluniau ei fonitro gan arolygwyr cyswllt yr awdurdod lleol yn ystod eu hymweliadau â'r awdurdodau lleol.

Yn ystod 2016 a 2017, cynhaliom gynadleddau gwella mewn tri awdurdod lleol, sef Sir Benfro, Powys a Wrecsam. Fe wnaethom wahodd yr uwch swyddogion allweddol, aelodau etholedig a phartneriaid i gyfarfod i archwilio'r agweddau penodol ar eu gwaith a oedd yn peri pryder. Ym mhob un o'r tair cynhadledd beilot, roedd perfformiad uwchradd yn fater y nodwyd bod angen ei wella. Ar ddiwedd pob cynhadledd, cawsom sicrwydd fod yr awdurdodau lleol yn deall y rhesymau dros berfformiad gwael eu hysgolion uwchradd a'u bod yn cymryd camau priodol i ddatrys y sefyllfa. Er enghraifft, newidiodd uwch arweinwyr yn Sir Benfro yr ymgynghorydd her ar gyfer bron pob un o'i wyth o ysgolion uwchradd i ddarparu cymorth a her fwy effeithiol. Hefyd, cytunodd y cyngor â chynnig i ad-drefnu addysg uwchradd yn Hwlffordd, lle'r oedd y ddwy ysgol uwchradd yn y categori mesurau arbennig.

Un o nodweddion awdurdodau lleol yng Nghymru yw cyfran uchel y cyfarwyddwyr addysg newydd, y penodwyd bron pob un ohonynt yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf. Mae'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dysgu proffesiynol i arweinwyr canol ac uwch arweinwyr mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol wedi cyfyngu ar ddatblygiad arweinwyr ar draws y system addysg yng Nghymru, ac wedi effeithio ar allu'r system i gynorthwyo blaenoriaethau cenedlaethol.

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Colegau addysg bellach

Yn Ionawr 2011, roedd 22 o sefydliadau'n darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru. Erbyn Ionawr 2017, roedd hyn wedi gostwng i 13 oherwydd uno colegau. Mae amrywiad sylweddol o ran maint a chwmpas y colegau, o'r lleiaf, sef Coleg Ceredigion, ar ddau gampws gyda 1,000 o ddysgwyr, i'r mwyaf, sef Grŵp Llandrillo Menai, sydd â thri phrif gampws, 11 o gampysau llai ac is-safleoedd sy'n cwmpasu ardal helaeth yng ngogledd Cymru. Mae gan y coleg hwn 20,000 o ddysgwyr. Hefyd, mae gwahaniaethau yn y sector rhwng colegau mawr dinesig a cholegau mwy gwledig, yn ogystal ag ambell i goleg trydyddol ac un coleg chweched dosbarth. Mae rhai colegau dan berchenogaeth uniongyrchol sefydliadau addysg uwch, tra bod eraill yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch.

Dros gylch arolygu 2010-2017, arolygwyd 17 o golegau addysg bellach, gan gynnwys un ailarolygiad yn ymwneud â rhaglenni addysg bellach mewn coleg addysg uwch. Gwnaeth yr arolygiadau hyn ystyried cyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol gwahanol y colegau addysg bellach. Yn ystod y cylch arolygu, gwnaed adolygiadau yn 2014 i'r trefniadau arolygu i ystyried maint cynyddol llawer o golegau, a chynnwys arolygu meysydd dysgu yn ystod wythnos gyntaf yr arolygiad. Eleni, arolygom dri choleg addysg bellach arall.

Am fwy o wybodaeth am y tri choleg a arolygwyd yn ystod 2016-2017, darllenwch yr adroddiadau arolygu

**Grŵp Llandrillo Menai**
**Coleg Sir Benfro**
**Y Coleg, Merthyr Tudful**

Cyhoeddwyd yr arolygon thematig canlynol sy'n berthnasol i'r sector addysg bellach yn ystod 2010-2017:

- **Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach** (Estyn, 2017e)
- **Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach** (Estyn, 2017b)
- **Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion** (Estyn, 2016c)
- **Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed** (Estyn, 2015g)
- **Arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach** (Estyn, 2015h)
- **Pa mor dda y mae sefydliadau addysg bellach yn rheoli cwynion gan ddysgwyr?** (Estyn, 2015i)
- **Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion** (Estyn, 2013h)
- **Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianneg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru** (Estyn, 2013i)
- **Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl-16 oed** (Estyn, 2012d)
- **Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith** (Estyn, 2011d)

# Deilliannau:
# Colegau addysg bellach

## Safonau

Eleni, mae gan ddau o'r tri choleg a arolygwyd safonau da, sy'n agos at y cyfartaledd ar gyfer cylch arolygu 2010-2017.


Dros y cylch arolygu, mae cyfran y colegau sydd â safonau da neu well wedi gwella, ar y cyfan, er y bu amrywiad o ran perfformiad, yn amrywio o ragorol i anfoddhaol. Bu safonau'n dda mewn dau draean o'r colegau yn ystod y saith blynedd diwethaf.

Eleni, roedd gan un coleg safonau digonol. Mewn traean o golegau yn ystod y cylch, bu safonau'n ddigonol neu'n is. Nodwedd gyffredin yn y colegau hyn yw'r diffyg her a chymorth priodol i bob dysgwr gyflawni eu llawn botensial.


Mewn rhaglenni galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu hastudiaethau. Mae eu medrau a'u cymwyseddau technegol yn datblygu ar gyflymder da. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio cyd-destunau realistig i gymhwyso eu medrau a datblygu eu cymwyseddau technegol. Ni chaiff dysgwyr ar leiafrif o gyrsiau galwedigaethol eu herio i gyflawni'r graddau uchaf y gallent eu hennill.

Mewn dosbarthiadau Safon Uwch, mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio terminoleg dechnegol a phenodol i'r pwnc yn gywir ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu academaidd yn briodol. Mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i addysg uwch. Nid yw ychydig o ddysgwyr mwy abl yn gwneud y cynnydd y gallent ei gyflawni.

**Ffigur 2.77:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2016-2017)




**Ffigur 2.78:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (Cylch arolygu 2010-2017)



Erbyn diwedd y cylch, mae bron pob dysgwr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig priodol ar ddechrau eu cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi eu cryfderau a'u gwendidau mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Ym mwyafrif y colegau, nid oes gan ddysgwyr dargedau medrau tymor byr i'w helpu i fynd i'r afael â gwendidau penodol a gwella eu medrau. Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn astudio medrau hanfodol ar lefel sy'n briodol ar gyfer eu cymhwyster ac, yn gyffredinol, mae cyfraddau da ohonynt yn ennill eu cymwysterau.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn hyderus i gwestiynau, yn esbonio eu gwybodaeth a'u syniadau'n glir, ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i'r pwnc yn briodol. Yn gyffredinol, mae eu sillafu, atalnodi a gramadeg yn gywir, ac mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda, yn aml o fannau cychwyn isel. Mewn llawer o golegau, mae dysgwyr yn cyflawni cyfrifiadau rhifiadol yn gymwys ac yn datblygu eu medrau llythrennedd yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da trwy gyrsiau galwedigaethol.

Mewn ychydig o golegau, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd addas o ran gwella eu defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft mewn rhaglenni gwasanaeth cwsmeriaid a gofal cleientiaid. Ar draws llawer o golegau, mae dysgwyr di-Gymraeg yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg trwy eu prif raglenni astudio. Yn ogystal, ychydig iawn o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith sy'n cynhyrchu gwaith ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr achosion gorau, fel y gwelwyd mewn un coleg a arolygwyd eleni, mae llawer o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn ymgymryd â dysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae tua chwarter y dysgwyr yn cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn dangos medrau Cymraeg cryf ac yn defnyddio geirfa dechnegol yn rhugl ac yn hyderus.

# Lles


Mae lles dysgwyr yn dda neu'n well ym mron pob coleg, ac mae lles mewn ychydig ohonynt yn rhagorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn cyfranogi'n dda mewn sesiynau.  Mae llawer ohonynt yn frwdfrydig ac wedi eu cymell i gwblhau eu rhaglenni a symud ymlaen i'r lefel nesaf.


Maent yn cyfranogi'n dda mewn ystod o weithgareddau ychwanegol yn y coleg, gan gynnwys clybiau, digwyddiadau elusennol a chymunedol, a chwaraeon, sy'n eu helpu i fagu hyder a hunan-barch.  Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau trwy gynghorau myfyrwyr ac, mewn un coleg, mewn cynhadledd flynyddol i ddysgwyr, lle maent yn trafod materion sy'n peri pryder, gan gynnwys adborth ar agweddau ar addysgu a dysgu.  Maent yn cydweithio'n adeiladol â staff y coleg i wneud gwelliannau i amgylchedd y coleg a systemau cymorth i ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn dangos lefel uchel o ofal, parch a phryder tuag at ei gilydd ac yn gwerthfawrogi amgylchedd y coleg.  Yn y rhan fwyaf o golegau, mae ymddygiad mewn dosbarthiadau, gweithdai ac o gwmpas y coleg yn dda iawn.  Mae cyfraddau presenoldeb yn gyffredinol dda yn y rhan fwyaf o'r colegau a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu.  Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd da trwy gystadlaethau, ac mae ychydig ohonynt yn cystadlu ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol.

**Ffigur 2.79:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles  (2016-2017)




**Ffigur 2.80:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles
(Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth: Colegau addysg bellach

Yn 2016-2017, at ei gilydd, mae darpariaeth yn dda neu well ym mhob un o'r tri choleg.

Dros y cylch arolygu, mae darpariaeth yn dda neu well mewn wyth o bob deg coleg addysg bellach. Mae ansawdd darpariaeth addysg bellach wedi gwella yn ystod 2010-2017, ac roedd gan ychydig o sefydliadau ddarpariaeth ragorol, at ei gilydd, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae darpariaeth mewn meysydd dysgu yn dda neu well ym mron pob un o'r colegau a arolygwyd ers i ni ddechrau arolygu meysydd dysgu yn 2014. Mae darpariaeth yn rhagorol mewn ychydig iawn o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mewn un coleg, mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn cyflawni safon nodedig ac ystod o fedrau galwedigaethol trwy ddefnydd arloesol o adnoddau dysgu digidol, llwyddiant mewn cystadlaethau medrau a phartneriaethau rhagorol â chyflogwyr a rhwydweithiau cyflenwyr. Mae'r meysydd darpariaeth sy'n mynnu'r gwelliant mwyaf yn cynnwys medrau byw'n annibynnol.

Eleni, mae profiadau dysgu yn dda neu well ym mhob un o'r tri choleg. Yn ystod y cylch, mae profiadau dysgu yn dda neu well mewn wyth o bob deg coleg addysg bellach. Bernir bod profiadau dysgu'n rhagorol mewn traean o golegau.

Mae llawer o golegau'n cynllunio'r cwricwlwm yn dda i fodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi ystyriaeth dda i adborth gan gyflogwyr a gwybodaeth am y farchnad leol i sicrhau bod yr ystod o gyrsiau a gynigir yn bodloni anghenion dysgwyr, o lefel mynediad i lefel 6. Mae hyn wedi gwella yn ystod y cylch arolygu.


## Grŵp Llandrillo Menai

Mae **Grŵp Llandrillo Menai** yn gwneud defnydd effeithiol o offeryn adnabod cynnar i nodi a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o adael cwrs cyn ei gwblhau.


Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 2.81:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.82:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Mewn ychydig o golegau, mae darpariaeth wedi'i chynllunio'n dda yn galluogi dysgwyr i symud ar draws lefelau dysgu, arbenigeddau ac astudiaethau gwahanol, o barhau mewn addysg bellach i symud ymlaen i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.

Mae gan un coleg a arolygwyd eleni, sydd â darpariaeth ragorol, gysylltiadau da iawn â chyflogwyr, sy'n arwain at brofiad gwaith perthnasol o ansawdd uchel i ddysgwyr mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, yn ystod y cylch arolygu, nid yw lleiafrif o ddysgwyr wedi elwa ar brofiad gwaith defnyddiol sy'n datblygu eu medrau yn y gweithle.

Mae llawer o golegau wedi datblygu strategaethau a pholisïau clir i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, gan gynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n cynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, TGAU a rhaglenni datblygu medrau eraill. Mewn ychydig iawn o golegau, caiff technoleg ei defnyddio'n arloesol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu medrau TGCh yn dda ar draws meysydd dysgu.

Mewn llawer o golegau, mae athrawon yn integreiddio cyfleoedd ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn y prif raglenni. Fodd bynnag, mewn ychydig o golegau, nid yw'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd dysgu wedi'u diffinio'n glir. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn eu meysydd dysgu.

Yn 2016-2017, mae addysgu yn dda mewn dau o'r tri choleg a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.

Roedd addysgu yn dda mewn saith o bob deg o'r colegau a arolygwyd yn ystod y cylch, er nad oedd unrhyw goleg yn darparu addysgu rhagorol. Lle mae'r addysgu yn dda, mae hyn oherwydd bod athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda ac yn defnyddio eu gwybodaeth ddiwydiannol i ddatblygu medrau ymarferol a damcaniaethol dysgwyr. Maent yn defnyddio ystod gynhwysfawr o strategaethau ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu herio. Caiff strategaethau llythrennedd a rhifedd eu defnyddio i helpu dysgwyr i wella eu medrau. Mewn ychydig o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw athrawon yn holi'n ddigon medrus i ennyn atebion estynedig, gwirio a herio dealltwriaeth dysgwyr na datblygu eu medrau meddwl. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn cynnal disgwyliadau uchel o ran cynnydd, ac nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau'n ddigon da i sicrhau y caiff pob dysgwr ei herio'n llawn, yn enwedig dysgwyr mwy abl.

Mewn tri o bob deg coleg lle ceir diffygion pwysig yn yr addysgu, mae hyn oherwydd nad yw athrawon yn cynllunio ystod ddigon eang o weithgareddau i herio dysgwyr o bob gallu, ac nid yw rhediad gwersi yn bodloni anghenion dysgwyr unigol yn ddigon da. Yn ogystal, mae adborth athrawon i ddysgwyr yn rhy gyffredinol ac nid yw'n helpu dysgwyr i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mewn dau goleg a arolygwyd eleni, mae llawer o staff addysgu yn cynllunio gweithgareddau asesu yn dda. Mewn un coleg, mae ei system olrhain dysgwyr ar-lein yn offeryn effeithiol i gofnodi asesiad o ddysgu a monitro targedau dysgwyr. Mewn un coleg sydd ag addysgu digonol ar draws pynciau academaidd a galwedigaethol, nid yw'r coleg yn defnyddio cyflawniadau blaenorol dysgwyr yn gyson i helpu i bennu graddau targed sy'n ddigon heriol. Nid yw monitro ac olrhain targedau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar draws y coleg yn effeithiol.

Eleni, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu well ym mhob un o'r tri choleg a arolygwyd. Ers dechrau'r cylch, bu ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf mewn naw o bob deg coleg. Mae 5 o'r 17 o sefydliadau yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol. Un o gryfderau penodol y ddarpariaeth fu cymorth i ddysgwyr, yn enwedig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ychydig o golegau systemau effeithiol i adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o fethu symud ymlaen â'u haddysg neu ddod o hyd i gyflogaeth, ac maent yn cynnig cymorth wedi'i deilwra. Mae nodweddion cryf eraill yn cynnwys colegau'n rhoi arweiniad a chyngor gwerthfawr i ddysgwyr gan ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau cwricwlwm ar-lein ar ystod o faterion, yn ogystal â gallu manteisio ar ystod eang o gymorth, o wasanaethau cwnsela a chaplaniaeth, i bartneriaethau amlasiantaeth.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gryfder arbennig ar draws y sector addysg bellach yn ystod y cylch. Mae'r amgylchedd dysgu yn rhagorol mewn traean o golegau, ac yn dda yn y gweddill ohonynt. Mae llawer o golegau'n hyrwyddo ethos cadarnhaol cryf iawn ac yn cynnig amgylchedd croesawgar a chynhwysol, lle mae dysgwyr yn teimlo y cânt eu parchu a'u cefnogi. Cryfderau penodol yn y colegau sydd â darpariaeth ragorol yw dulliau arloesol o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â dulliau hynod integredig a chynhwysol o gynorthwyo grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae bron pob un o'r colegau'n cynnig adeiladau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae llawer o'r adeiladau o ansawdd uchel iawn, â mynediad da at TGCh, cysylltedd rhyngrwyd ac adnoddau. Mae bron pob gweithdy ac ystafell ddosbarth arbenigol yn cynnwys offer modern o safon y diwydiant, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr gael profiad o amgylchedd gwaith realistig ac sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer gwaith yn y dyfodol.


# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau addysg bellach

Yn 2016-2017, at ei gilydd, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu well ym mhob un o'r tri choleg a arolygwyd.


Er 2010, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu well mewn wyth o bob deg coleg addysg bellach.  Mae ansawdd yr arweinyddiaeth wedi gwella, a nodwyd arfer ragorol mewn pedwar o'r pum coleg a arolygwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.  Yn y rhain, mae'r pennaeth neu'r prif weithredwyr, uwch reolwyr a'r cyrff llywodraethol wedi darparu arweinyddiaeth drawsnewidiol ragorol wrth roi newid strwythurol mawr ar waith, gan arwain at welliannau mewn safonau ac ymgorffori gweledigaeth a gwerthoedd cryf.  Mae uwch reolwyr wedi datblygu diwylliant o ddidwylledd, cydweithio ac eglurder yn y colegau hyn.  O ganlyniad, mae rheolwyr a staff ar bob level yn gefnogol iawn o'u coleg ac yn ymrwymedig i'w nodau a'i amcanion allweddol.  Yn ystod cyfnod o newid sylweddol, cynhaliwyd morâl staff yn y colegau hyn.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar feysydd dysgu yn dda neu well ym mwyafrif y colegau a arolygwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, er bod ychydig ohonynt yn anfoddhaol, yn enwedig o ran darpariaeth medrau byw'n annibynnol.  Mae adroddiad arolwg thematig yn ymwneud â'r maes dysgu medrau byw'n annibynnol, a gyhoeddwyd eleni, yn cynnwys enghreifftiau defnyddiol o arfer effeithiol.

**Ffigur 2.83:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2016-2017)




**Ffigur 2.84:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (Cylch arolygu 2010-2017)



Yn 2016-2017, mae gwella ansawdd yn dda mewn dau goleg ac yn ddigonol yn y llall. Yn ystod cyfnod cyfan 2010-2017, er bod gwella ansawdd yn dda neu well mewn dau draean o golegau addysg bellach, hwn yw'r gwannaf o'r pedwar dangosydd ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r gwendid yn ansawdd hunanasesu. Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, mae adroddiadau hunanasesu yn dangos defnydd cyfyngedig o dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a dysgu, ac nid ydynt yn ddigon arfarnol. Mewn ychydig o feysydd, ni chaiff data ei ddefnyddio'n effeithiol i ddadansoddi perfformiad a sbarduno gwelliant. Mewn ychydig o golegau, nid yw hunanasesu'n canolbwyntio'n ddigon miniog ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr mewn gwersi. Yn ogystal, mae ychydig o adroddiadau hunanasesu colegau yn rhy ddisgrifiadol, mae eu barnau'n rhy hael ac nid yw'r adroddiadau'n nodi meysydd i'w gwella'n ddigon clir.

Eleni, am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol ym mhob un o'r colegau a arolygwyd. Yn ystod y cylch arolygu, bu ansawdd gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol mewn chwech o bob deg o'r colegau a arolygwyd. Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd arbennig o gryf ar draws y sector, a'r dangosydd perfformiad hwn yw'r cryfaf o'r deg dangosydd yn y fframwaith arolygu o ran arfer ragorol. Bu'r prif gryfderau yn y partneriaethau strategol cryf iawn ag ystod o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a deilliannau dysgwyr. Datblygwyd perthnasoedd effeithiol a hynod gynhyrchiol â chyflogwyr bach a chanolig a chwmnïau mawr yn yr ardal leol i fodloni anghenion presennol a chynllunio ar gyfer anghenion medrau yn y dyfodol.

Un o gryfderau eraill llawer o'r colegau hyn yw eu cyfraniad sylweddol at waith rhwydweithiau 14 i 19 lleol neu at ddatblygu darpariaeth drydyddol, gan ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr cyn ac ar ôl 16 oed yn sylweddol. Mae'r colegau hyn yn cydweithio'n dda ag ystod o brifysgolion i ddarparu cyfleoedd addysg uwch a chynllunio dilyniant.

Yn 2016-2017, mae rheoli adnoddau yn dda mewn dau goleg ac yn ddigonol yn y llall. Mae hyn islaw perfformiad y flwyddyn gynt, pan roedd rheoli adnoddau yn rhagorol yn y ddau sefydliad a arolygwyd.

Er 2010, mae rheoli adnoddau yn dda neu well mewn tuag wyth o bob deg coleg addysg bellach. Ers i golegau uno, mae'r rhan fwyaf o golegau'n rheoli cyllid ac adnoddau'n dda ac mae ganddynt systemau cynllunio ariannol effeithiol. Mae llawer o golegau'n rhoi ystyriaeth dda i gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni wrth reoli eu hystâd. Mae gan ychydig o golegau gysylltiadau â sefydliadau eraill i rannu arbenigedd mewn ychydig o feysydd allweddol sy'n gwella effeithlonrwydd. Mae gan lawer o golegau ymrwymiad cryf i hyfforddi a datblygu staff, yn enwedig mewn datblygu medrau addysgu, trwy fentora ac arsylwi cymheiriaid neu rannu arfer dda.

## Coleg Sir Benfro

Mae **Coleg Sir Benfro** wedi datblygu partneriaethau sy'n cefnogi datblygiad medrau yn Sir Benfro, yn gwella mynediad dysgwyr at addysg ôl-16 ac yn ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos.**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Gweithgarwch dilynol:
# Colegau addysg bellach

Er 2010, nodwyd bod arfer ragorol mewn 12 o golegau addysg bellach. Mae cyfran y sefydliadau y nodwyd bod ganddynt arfer ragorol wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, o ganlyniad i welliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth strategol ar ôl i golegau uno. Nodwyd bod arfer ragorol mewn tua hanner y sefydliadau a arolygwyd yn ystod y blynyddoedd 2010-2013, a chynyddodd hyn i bob coleg a arolygwyd yn fwy diweddar.


Yn ystod y cylch arolygu, roedd angen gweithgarwch dilynol ar leiafrif o sefydliadau addysg bellach. Roedd hyn yn cynnwys un sefydliad yr oedd angen ei ail-arolygu, un coleg yr oedd angen ei fonitro gan Estyn, a thri sefydliad yr oedd angen eu monitro gan arolygydd cyswllt.

Roedd y prif ddiffygion yn y coleg yr oedd angen ei ail-arolygu yn ymwneud â deilliannau dysgwyr, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.


Yn y coleg yr oedd angen ei fonitro gan Estyn, roedd y diffygion sylweddol yn ymwneud â deilliannau dysgwyr a gwella ansawdd.

Barnwyd bod perfformiad wedi gwella o fod yn anfoddhaol i ddigonol yn y sefydliad yr oedd angen ei ail-arolygu. Barnwyd bod y rhagolygon gwella wedi gwella o fod yn anfoddhaol i dda yn yr un sefydliad wrth ei ail-arolygu. Yn yr ailarolygiad, roedd cyfraddau cyffredinol y dysgwyr a oedd yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau wedi gwella, ac roedd y trefniadau ar gyfer gwella ansawdd a safonau yn effeithiol.

**Ffigur 2.85:**
Colegau addysg bellach a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2016-2017




**Ffigur 2.86:**
Colegau addysg bellach a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol (Cylch arolygu 2010-2017)





# Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith

Yn Ionawr 2011, roedd 78 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn cyflwyno hyfforddiant yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 19 o ddarparwyr arweiniol yn darparu hyfforddiant yn y gwaith yng Nghymru. Mae hyn oherwydd newidiadau i'w trefniadau contractio a gostyngiadau yn nifer y darparwyr arweiniol. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu gyda darparwyr hyfforddiant sy'n isgontractwyr. At ei gilydd, mae 100 o ddarparwyr yn gysylltiedig â hyfforddiant ledled Cymru. Drwy gydol cylch arolygu 2010-2017, mae nifer y dysgwyr yn ymgymryd â rhaglenni hyfforddiant wedi aros yn weddol gyson. Yn ystod 2015-2016, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cyhoeddedig ar gael ar ei chyfer, nifer y dysgwyr a oedd yn ymgymryd ag ystod eang o raglenni hyfforddiant oedd 53,735.

Dros y cylch, arolygwyd 33 o ddarparwyr hyfforddiant. Yn 2016-2017, cynhaliom dri arolygiad, gan gynnwys peilot ar gyfer y trefniadau arolygu newydd. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad isod, ond nid yw canfyddiadau'r arolygiadau peilot wedi'u cynnwys yn y siartiau.

Am fwy o wybodaeth am y tri darparwr hyfforddiant a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu

**The Cad Centre UK Ltd**
**Torfaen Training**
**Itec Training Solutions Ltd**

Rhwng 2010 a 2017, cynhaliodd arolygwyr yr arolygon thematig canlynol yn ymwneud â dysgu yn y gwaith

- **Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau** (Estyn, 2015j)
- **Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith** (Estyn, 2014e)
- **Rhwystrau rhag prentisiaeth** (Estyn, 2014f)
- **Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianneg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru** (Estyn, 2013i)
- **Adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith Llywodraeth Cymru** (Estyn, 2013j)



# Deilliannau
# Dysgu yn y gwaith

## Safonau

Yn ystod 2010-2017, mae safonau'n dda neu well mewn tua hanner y darparwyr. Eleni, roedd gan ddau draean o'r darparwyr a arolygwyd safonau digonol.


Yn ystod y cylch, roedd safonau'n anfoddhaol mewn un o bob deg o ddarparwyr. Eleni, mae gan un darparwr safonau anfoddhaol. Lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw dysgwyr yn gwneud cynnydd digon cryf ac mae eu perfformiad islaw perfformiad darparwyr eraill.

Dros y cylch, mewn pedwar o bob deg o ddarparwyr a arolygwyd, roedd y cyfraddau ar gyfer cwblhau fframweithiau prentisiaeth islaw'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer darparwyr eraill. Ar gyfer prentisiaethau uwch, mae'r cyfraddau cwblhau yn arbennig o isel. Yn y darparwyr hyn, nid oes digon o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau o fewn yr amserlen sydd wedi ei threfnu. Yn ystod eu hamser ar raglenni hyfforddiant, mae mwyafrif y prentisiaid yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu cymhwysedd ymarferol, gwybodaeth ddamcaniaethol a'u medrau. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant yn eu gweithle yn dda. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglenni hyfforddiant.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar y lefel sy'n ofynnol yn eu fframweithiau hyfforddiant. Mewn llawer o ddarparwyr, a phan fo'n briodol, mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau ar lefel uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos hyder wrth ddefnyddio TGCh yn ystod amrediad o weithgareddau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd yn briodol. Mewn ychydig o ddarparwyr, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn eu gweithleoedd.

Mewn ychydig o ddarparwyr, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn dwyn perchenogaeth dros eu hyfforddiant. Yn yr achosion hyn, nid ydynt yn deall cynnwys eu rhaglenni hyfforddiant nac yn cyfrannu'n llawn at gytuno ar dargedau asesu.

**Ffigur 2.87:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?
(Cylch arolygu 2010-2017)



## Lles


Dros y cylch, bu lles yn un o'r nodweddion cryfaf, ac roedd bron i naw o bob deg o ddarparwyr yn dda neu well. Mae lles yn dda mewn dau draean o'r darparwyr yn 2016-2017.

Mae llawer o ddysgwyr wedi'u cymell i gwblhau eu fframweithiau hyfforddiant a'u cymwysterau eraill. Mae dysgwyr yn ennill dealltwriaeth gadarn o fywyd gwaith ac yn datblygu ystod eang o fedrau cyflogadwyedd a medrau bywyd. Mae dysgwyr yn gwella eu medrau cyfathrebu, a daw llawer ohonynt yn aelodau staff gwerthfawr i'w cyflogwyr yn gyflym. Maent yn datblygu medrau sy'n eu galluogi i gynnal cyflogaeth a symud ymlaen yn eu gyrfa ddewisol.





**Ffigur 2.88:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles
(Cylch arolygu 2010-2017)



# Darpariaeth: Dysgu yn y gwaith

Mae darpariaeth yn dda neu well mewn saith o bob deg o ddarparwyr a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu. Yn 2016-2017, mae darpariaeth yn ddigonol ym mhob un o'r tri darparwr. Mae darparwyr yn cyflwyno hyfforddiant mewn ystod eang o feysydd dysgu, sy'n arwain at ddysgwyr yn ennill y medrau i gynnal cyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant ar draws y meysydd dysgu o ansawdd cyson uchel.

Fel arfer, mae darparwyr yn cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ar lefelau 1 i 5 ac mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar gyfleoedd i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mewn un darparwr a arolygwyd, ni chwblhaodd unrhyw ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth uwch eu hyfforddiant yn llwyddiannus yn ystod 2015-2016.


Dros y cylch, mae nifer o ddarparwyr wedi gwella eu strategaethau a'u harferion i ddatblygu llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Fodd bynnag, yn y darparwyr a arolygwyd yn ystod 2016-2017, nid yw lleiafrif o diwtoriaid ac aseswyr yn cynllunio'n ddigon da i herio a chynorthwyo medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn eu llwybr galwedigaethol ar lefel ddigon uchel.

Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig agweddau ar hyfforddiant ac asesu yn Gymraeg, ond yn 2016-2017, mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel o hyd.

Mae gan tua chwech o bob deg o ddarparwyr a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu addysgu, hyfforddi ac asesu da neu well. Yn y darparwyr hyn, mae aseswyr yn cynllunio gweithgareddau'n dda ac yn rhoi sylwadau ysgrifenedig defnyddiol sy'n helpu dysgwyr i wella eu gwaith. Fodd bynnag, bu llai o farnau rhagorol ar gyfer addysgu, hyfforddi ac asesu nag ar gyfer unrhyw ddangosydd ansawdd arall. Yn 2016-2017, roedd addysgu, hyfforddi ac asesu yn ddigonol ym mhob un o'r tri darparwr.

Nodweddion mwyaf cyson addysgu, hyfforddi ac asesu aneffeithiol yw disgwyliadau isel o ddysgwyr a'r diffyg her effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial. Yn ogystal, nid yw athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn gwirio cynnydd dysgwyr yn ddigon aml ac, o ganlyniad, mae gormod o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf.

**Ffigur 2.89:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
(Cylch arolygu 2010-2017)



Mae gan fwyafrif yr athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr wybodaeth alwedigaethol gynhwysfawr a phrofiad diwydiannol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r profiad hwn yn dda i roi cymorth personol da i ddysgwyr. Nid yw ychydig o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn herio ac yn annog dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu cymhwysedd ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol ar lefel uwch.

Bu gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd gref yn ystod y cylch arolygu. Er 2010, bu'r agwedd hon yn dda mewn wyth o bob deg o ddarparwyr. Yn 2016-2017, mae gan bob un o'r tri darparwr ddiffygion yn eu darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae gan ddau o'r tri darparwr ddarpariaeth ddigonol, ac mae un ohonynt yn anfoddhaol.

Mae gan lawer o ddarparwyr bolisïau ac arferion cynhwysfawr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. O ganlyniad, caiff dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o adael eu cynorthwyo'n effeithiol i aros mewn hyfforddiant. Mae gan lawer o ddarparwyr bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol. Fodd bynnag, yn 2016-2017, nid yw dau o'r tri darparwr yn mynd yn ddigon pell o ran monitro arferion diogelu eu hisgontractwyr er mwyn bod yn sicr bod pob dysgwr yn ddiogel. Mae llawer o ddarparwyr yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles dysgwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio staff priodol yn dda i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn arwain at ddysgwyr yn aros ar eu rhaglenni hyfforddiant ac yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddiant.

Mae'r amgylchedd dysgu yn dda neu well mewn saith o bob deg o ddarparwyr yn ystod y cylch. Mae darparwyr yn gynhwysol wrth recriwtio ac yn creu ethos o gydraddoldeb. Fodd bynnag, ym mwyafrif y darparwyr, nid yw aseswyr yn defnyddio ystod ddigon eang o ddeunyddiau addysgu a dysgu. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o gydraddoldeb ac amrywiaeth bob tro.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio mewn gweithleoedd lle gallant fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ac asesu o ansawdd da ac elwa arnynt. Yn aml, mae gan ganolfannau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith adnoddau da.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
## Dysgu yn y gwaith

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu well mewn chwech o bob deg o ddarparwyr yn ystod y cylch arolygu. Eleni, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol mewn traean o'r darparwyr ac yn anfoddhaol mewn dau draean ohonynt. Mae hyn yn ddirywiad ers y llynedd ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y cylch arolygu.


Yn yr un o bob deg o ddarparwyr lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol, nid yw gwaith arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni nac ar ansawdd eu profiad hyfforddi. Yn y darparwyr hyn, mae targedau'n aml yn rhy amwys ac nid ydynt yn ddigon heriol, ac nid oes digon o ffocws ar wella ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu a chynnydd dysgwyr.

Dros y cylch, bu gwella ansawdd yn un o'r agweddau gwannaf ar waith tua hanner y darparwyr hyfforddiant. Er bod hunanarfarnu wedi gwella yn ystod y cylch, mae gormod o arweinwyr a rheolwyr nad ydynt yn gwneud arfarniadau beirniadol o berfformiad y darparwr nac yn nodi meysydd i'w gwella'n ddigon clir. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu canolbwyntio ar y meysydd cywir er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Er bod rheolaeth ar isgontractwyr wedi gwella, mae anghysondebau o hyd mewn perfformiad ar draws partneriaid. Yn rhy aml, nid yw cynllunio gwelliant yn ddigon strategol ac nid yw rheolwyr yn blaenoriaethu camau ar gyfer gwella. Yn y darparwyr hyn, nid yw rheolwyr yn gwneud digon i fonitro a gwella ansawdd eu perfformiad eu hunain a pherfformiad isgontractwyr. Nid yw cyfarfodydd rhwng y darparwyr arweiniol ac isgontractwyr yn canolbwyntio digon ar wella perfformiad ac ansawdd hyfforddi ac asesu. Yn aml, mae'r adborth i staff yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol i roi cyfarwyddyd clir iddynt ar beth yn union mae angen iddynt ei wneud i wella.

Dros y cylch, bu gweithio mewn partneriaeth yn agwedd arbennig o gryf ar waith wyth o bob deg o ddarparwyr. Yn y darparwyr lle mae partneriaethau o ansawdd uchel, mae'r darparwr yn cydweithio'n effeithiol â nifer fawr o bartneriaid, yn aml trwy weithio mewn consortiwm neu drwy drefniadau is-gontractio. Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i ystod y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr, a deilliannau dysgwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ffocws clir ar ansawdd a'r profiad a gaiff dysgwyr yn ystod eu hyfforddiant.

Mae tua hanner y darparwyr yn rheoli eu hadnoddau'n dda. Mae llawer o ddarparwyr yn cynorthwyo eu staff yn dda ag ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn manteisio ar hyfforddiant sy'n bodloni eu hanghenion datblygiad personol ac sydd â ffocws penodol ar wella ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu. Fodd bynnag, mae diffygion mewn tua hanner y darparwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys dim mynediad at y rhyngrwyd yng nghanolfan hyfforddiant y darparwr i ddysgwyr a staff hyfforddi, ac amrywioldeb o ran ansawdd yr adeilad, gan gynnwys ystafelloedd theori a gweithdai ymarferol.

**Ffigur 2.90:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
(Cylch arolygu 2010-2017)




# Gweithgarwch dilynol:
# Dysgu yn y gwaith

Mae angen gweithgarwch dilynol ar bob un o'r tri darparwr a arolygwyd eleni, ac ni farnwyd bod gan unrhyw un ohonynt arfer ragorol. Yn y darparwyr hyn, mae gormod o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf tuag at gwblhau eu fframweithiau hyfforddiant. Mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rhoi cymorth personol da i ddysgwyr, ond nid ydynt yn pennu nac yn monitro targedau heriol i ddysgwyr ar gyfer cwblhau asesiadau. Mae marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn anghyson ac nid yw pob un o'r dysgwyr yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol a fydd yn eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol. Ni fu arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol o ran nodi diffygion yn ddigon cynnar a rhoi camau cywirol ar waith. O ganlyniad, nid yw gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi cynnal na gwella ansawdd y profiadau dysgu i ddysgwyr.

Eleni, cafodd un darparwr ymweliad dilynol. O ganlyniad i welliant, nid oes angen gweithgarwch dilynol ar y darparwr hwn mwyach.

Roedd angen gweithgarwch dilynol ar tua hanner y darparwyr yn ystod y cylch arolygu.

**Ffigur 2.91:**
Darparwyr dysgu yn y gwaith a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol
(Cylch arolygu 2010-2017)





Adran: 2



# Adroddiad sector
## Dysgu oedolion

Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn darparu cyrsiau a ariennir gan y llywodraeth mewn addysg sylfaenol i oedolion (llythrennedd a rhifedd), TGCh a Saesneg fel ail iaith, sydd wedi'u hanelu at oedolion dros 19 oed sydd am ddiweddaru eu medrau. Maent hefyd yn darparu ystod o gyrsiau 'hamdden' i oedolion sydd am ddatblygu eu busnesau eu hunain, ymgymryd â diddordeb newydd neu gadw'n heini. Caiff y cyrsiau hyn eu hariannu'n bennaf trwy ffioedd dysgwyr.

Yn ystod 2010-2015, fe wnaethom arolygu 14 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau er 2015 ond, yn 2016, cynhaliom arolwg thematig o'r sector. Yn ogystal, mae arolygwyr wedi cynnal ymweliadau monitro ffurfiol â phob un o'r partneriaethau ac Addysg Oedolion Cymru.

**Dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru**
(Estyn, 2016d)

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.

Darllenwch yr **adroddiad thematig.**

Yng Ngorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion yng Nghymru. O Fedi 2017 ymlaen, caiff y sector ei alw'n dysgu oedolion.

# Deilliannau:
# Dysgu oedolion


## Safonau

Mae safonau'n dda neu well mewn chwech o bob deg o bartneriaethau dysgu oedolion. Mae cyfraddau cwblhau ar gyfer addysg sylfaenol i oedolion, TGCh a Saesneg fel ail iaith yn amrywio rhwng 94% a 96%, ac mae cyfraddau llwyddo yn amrywio o 82% i 86% (Llywodraeth Cymru, 2017k). Yn gyffredinol, mae cyfraddau llwyddo tua 10 pwynt canran islaw'r cyfraddau cwblhau. Mae hyn oherwydd bod gan oedolion sy'n ddysgwyr lawer o ymrwymiadau yn eu bywydau ac, er y gallant gwblhau cwrs, efallai na fyddant yn rhoi cynnig ar y cymhwyster bob tro. Nid yw data a allai ddangos p'un a yw cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwella cyflogadwyedd ai peidio yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth neu'n elwa mewn ffyrdd eraill trwy gymryd rhan mewn dysgu.


## Lles

Mae lles dysgwyr yn dda neu well mewn naw o bob deg o bartneriaethau. Mae bron pob dysgwr yn cyfranogi'n dda mewn dosbarthiadau. Maent yn awyddus i wella eu dysgu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â dysgwyr eraill. Mewn llawer o ddosbarthiadau ymarferol, fel celf, gwniadwaith a ffotograffiaeth, mae dysgwyr yn symud ymlaen yn dda yn ôl eu cyflymder eu hunain. Fel arfer, maent yn rhoi ac yn croesawu beirniadaeth adeiladol gan diwtoriaid a chyd-ddysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn elwa nid yn unig ar y cyfleoedd dysgu maent yn eu cael yn y dosbarth, ond ar y rhyngweithio cymdeithasol â phobl o'r un meddylfryd hefyd.

**Ffigur 2.92:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw safonau? (2010-2015)




**Ffigur 2.93:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2010-2015)




# Darpariaeth: Dysgu oedolion

Mae bron pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn darparu ystod eang o gyrsiau sy'n cyfateb i anghenion cyflogadwyedd dysgwyr a'u diddordebau personol. Mae partneriaethau'n rhoi ffocws priodol ar ddarparu cyrsiau sy'n helpu i fynd i'r afael â difreintedd, er enghraifft cyrsiau sy'n helpu dysgwyr i wella eu llythrennedd, rhifedd, TGCh a Saesneg fel ail iaith. Ym mron pob achos, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi datblygu darpariaeth effeithiol i ddysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd ac sy'n agored i niwed, fel pobl ddi-waith, y rhai nad ydynt wedi dysgu ers amser maith, a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n gwella ar ôl bod yn gaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae partneriaethau wedi gwneud hyn trwy gydweithio'n dda â mentrau eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf a mudiadau gwirfoddol.

Er 2015, mae cyfyngiadau ariannol wedi herio gallu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i ddarparu cymaint o gyrsiau ag o'r blaen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae uwch arweinwyr wedi dadansoddi ystod eang o ddata'n ofalus ac wedi bod yn greadigol wrth barhau i ddarparu cyrsiau craidd mewn lleoliadau canolog. Serch hynny, er bod y cyrsiau hyn yn hygyrch i'r mwyafrif o bobl, nid ydynt bob amser yn hygyrch i'r henoed a phobl sy'n agored i niwed, neu ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd ynysig. Mae hyn yn arwain at anghydraddoldeb o ran cyfleoedd dysgu a lles pwysig i'r rhai llai cefnog. Mewn ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwneud cynnydd da o ran darparu cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dros y cylch arolygu, bu addysgu yn dda mewn chwech o bob deg o bartneriaethau. Mae tiwtoriaid yn darparu ystod ysgogol o gyfleoedd er mwyn i ddysgwyr symud eu dysgu unigol ymlaen. Fodd bynnag, mae llai o ddosbarthiadau wedi arwain at golli arbenigedd tiwtoriaid, yn enwedig mewn TGCh. Mewn ychydig o achosion, mae hyn hefyd wedi golygu nad yw dysgwyr wedi gallu cwblhau cyrsiau neu symud ymlaen i lefelau dysgu uwch.

**Ffigur 2.94:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2010-2015)




# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Dysgu oedolion

Dros y cylch, mae uwch arweinwyr wedi dod yn fwy effeithiol o ran sut maent yn cydweithio â'i gilydd i roi cyfeiriad strategol i'r bartneriaeth. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â data'r farchnad lafur, i ddarparu ystod o gyrsiau sy'n addas ar gyfer yr ardal. Maent yn dadansoddi data cyfunol yn fwy effeithiol na chynt ac yn defnyddio'r deilliannau'n dda i fanteisio ar gryfderau partneriaid unigol. Maent yn gweithio'n gynyddol dda ar y cyd â mentrau eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf a'r sector gwirfoddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn wedi arwain at lai o ddyblygu a chyfeirio gwell i ddysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Yn ystod hanner olaf y cylch, mae llawer o uwch arweinwyr naill ai wedi gadael y gwasanaeth neu wedi symud i rolau eraill. Mae hyn yn golygu bod cydlyniad y partneriaethau a ddatblygwyd yn ystod y cylch wedi lleihau mewn lleiafrif o achosion ac, mewn ychydig o achosion, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn llai hyfyw.





**Ffigur 2.95:**
Canran y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2010-2015)




# Gweithgarwch dilynol: Dysgu oedolion

Cafodd saith o bob deg o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ymweliadau monitro dilynol rhwng 2010 a 2017. Ym mron pob achos, gwnaeth y partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned gynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion. Mewn llawer o achosion, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar godi cyfraddau llwyddo, gwella gweithio mewn partneriaeth i leihau dyblygu, a gwella llwybrau dilyniant. Yn yr achos mwyaf effeithiol, ymunodd dwy bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned gyfagos, sef Caerdydd a Bro Morgannwg, â'i gilydd i fynd i'r afael ag argymhellion tebyg. Maent wedi rhannu a dadansoddi eu data'n dda i godi safonau dysgwyr, gwella tiwtora a diwygio darpariaeth yn briodol.



**Ffigur 2.96:**
Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol (2010-2015)



Adran: 2



# Adroddiad sector
## Addysg gychwynnol i athrawon

Ar hyn o bryd, mae tair canolfan ranbarthol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru sydd, ynghyd â'r Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (a elwir yn 'Teach First'), yn darparu llwybrau i ddod yn athro cymwys.

Yn 2016-2017, roedd nifer yr hyfforddeion ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig islaw'r targedau derbyn ledled Cymru.  Roedd recriwtio i raglenni cynradd ar gyfradd o ryw 90% o'r nifer targed, a denodd rhaglenni uwchradd 66% o'r targed yn unig.  O ran recriwtio i raglenni uwchradd, dim ond hanes ac astudiaethau busnes a fodlonodd eu targedau. Roedd recriwtio i fathemateg a chemeg fymryn yn is na thri chwarter y targedau, ffiseg ychydig islaw dau draean, a bioleg ychydig dros hanner y nifer targed.  Recriwtiodd ieithoedd tramor modern, technoleg gwybodaeth, dylunio a thechnoleg a cherddoriaeth lai na hanner eu niferoedd targed o ddarpar athrawon.

Eleni, mae Estyn wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i gyfrannu at ddiwygio addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.  Yn benodol, fel aelod o'r Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon, mae Estyn wedi cyfrannu at ddatblygu trefniadau newydd i achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.  Dan y cynigion hyn, bydd Estyn yn arolygu'r rhaglenni sydd newydd eu hachredu o Fedi 2019 ymlaen.  Yn y cyfamser, bydd Estyn yn parhau i fonitro darpariaeth bresennol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon, ac yn cynnal gwaith arolygon thematig i gasglu tystiolaeth mewn meysydd penodol o addysg i athrawon.

# Crynodeb:
# Addysg gychwynnol i athrawon

Fe wnaethom arolygu pob un o'r tair canolfan addysg gychwynnol i athrawon yn ystod cyfnod arolygu 2010-2017, a chynnal ailarolygiad ac ymweliadau monitro rhwng 2014 a 2017.

Yn ystod 2016-2017, ailarolygodd Estyn Ganolfan Addysg Gychwynnol i Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r ganolfan yn cydweithio ag ysgolion partner ar draws ardal eang o Gymru. Yn 2016-2017, hyfforddodd y ganolfan ychydig yn llai na thraean o'r holl hyfforddeion cynradd ac un o bob pump o'r holl hyfforddeion uwchradd yng Nghymru.

**Ffigur 2.97:**
Deilliannau ar gyfer Cwestiynau Allweddol 1, 2 a 3, lefel y gweithgarwch dilynol ar gyfer pob canolfan adeg ei harolygiad, a chanlyniad ymweliadau dilynol

| Canolfan | Blwyddyn | CwA1 | CwA2 | CwA3 | Gweithgarwch dilynol | Canlyniad gweithgarwch dilynol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan De Orllewin Cymru | 2011-2012 | Digonol | Da | Da | Monitro gan Estyn | Tynnwyd o'r categori gweithgarwch dilynol yn 2014 |
| Canolfan De Ddwyrain Cymru | 2012-2013 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Ailarolygiad | Tynnwyd o'r categori gweithgarwch dilynol yn 2015 |
| Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru | 2014-2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Ailarolygiad | Tynnwyd o'r categori gweithgarwch dilynol yn 2017 |

Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiadau

**Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De Ddwyrain Cymru**
**Canolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru**
**Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru**

Mae gan bob canolfan rai nodweddion da cyffredin. Yn gyffredinol, mae hyfforddeion yn gwneud cynnydd da o ran bodloni'r safonau ar gyfer SAC. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion y cwricwlwm ac agweddau cadarnhaol tuag at eu hyfforddiant. Mae rhai enghreifftiau o addysgu o ansawdd uchel iawn yn y brifysgol, a mentora da iawn mewn ysgolion.

Ar ôl gweithgarwch dilynol, mae safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ym mhob un o'r tair canolfan yn well nag ar adeg yr arolygiadau craidd. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

- Medrau cynllunio hyfforddeion, yn enwedig defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio, a chynllunio hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh
- Medrau Cymraeg hyfforddeion sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Saesneg i ddatblygu medrau dwyieithog eu disgyblion
- Medrau myfyrio hyfforddeion
- Amrywioldeb yr hyfforddiant ar draws ac o fewn rhaglenni
- Asesu hyfforddeion yn ystod profiad ysgol
- Arweinyddiaeth strategol a'r weledigaeth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon
- Rolau arweinyddiaeth ac arfer ar bob lefel
- Trylwyredd hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Cryfder systemau sicrhau ansawdd ar draws y ganolfan a'i hysgolion partneriaeth er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer neu ddarpariaeth

# Adran: 2



# Adroddiad sector
# Cymraeg i oedolion

Ailstrwythurwyd y sector Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol yn ystod 2016-2017, a disodlodd 11 o ddarparwyr chwe chanolfan ranbarthol a thros 20 o isgontractwyr.

Rhwng 2010 a 2015, fe wnaethom arolygu pedair o'r chwe hen ganolfan ranbarthol Cymraeg i Oedolion.

Am fwy o wybodaeth am y pedair canolfan a arolygwyd yn 2010-2015, darllenwch ein hadroddiadau

**Canolfan De-Orllewin Cymru**
**Canolfan Gogledd Cymru**
**Canolfan Morgannwg**
**Canolfan Caerdydd a Bro Morgannwg**

# Deilliannau:
# Cymraeg i Oedolion


## Safonau

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr Cymraeg i Oedolion yn dda neu well mewn tair o'r pedair canolfan. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da, yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei gymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn aml, caiff dysgu ei arwain ormod gan ofynion arholiadau, sy'n rhoi gormod o bwyslais ar gywirdeb gramadegol ac ennill cymhwyster, yn hytrach na chynhyrchu cyfathrebwyr hyderus.


## Lles

Mae lles dysgwyr yn gryfder arbennig. Mae'n rhagorol mewn dwy ganolfan ac yn dda yn y ddwy arall. Ym mhob un o'r pedair canolfan, mae bron pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig, yn mwynhau eu dysgu ac yn cyfranogi'n weithredol mewn gwersi. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac mae ganddynt fedrau dysgu annibynnol da. Maent yn gwylio rhaglenni teledu Cymraeg ac yn gwneud defnydd gwerthfawr o TGCh i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd yn Gymraeg. Lle bynnag y bo'n bosibl, maent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ac yn eu gwaith.

**Ffigur 2.98:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau? (2010-2015)




**Ffigur 2.99:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles (2010-2015)




# Darpariaeth:
# Cymraeg i Oedolion

Mae darpariaeth ac ansawdd yr addysgu yn dda mewn tair o'r pedair canolfan. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac yn defnyddio ystod eang o weithgareddau addysgu. Mewn gwersi gwannach, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu geirfa newydd a strwythurau brawddegau.

Mae tair canolfan yn darparu profiadau dysgu rhagorol i'w dysgwyr. Maent yn cynnig ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae pob canolfan yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad buddiol i ddysgwyr. Mae amgylcheddau dysgu'n dda mewn tair o'r pedair canolfan. Fodd bynnag, ni chaiff adnoddau, gan gynnwys TGCh, eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu nac i hyrwyddo gwaith annibynnol yn ystod gwersi.



**Ffigur 2.100:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? (2010-2015)




# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Cymraeg i Oedolion

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu well mewn tair canolfan mewn llawer o ddangosyddion. Mae'r canolfannau hyn yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid i wella ansawdd darpariaeth a phrofiadau dysgu. Fodd bynnag, mae gan ddwy o'r pedair canolfan brosesau gwella ansawdd digonol ac nid ydynt yn defnyddio data'n ddigon effeithiol i fonitro a gwella perfformiad dysgwyr. Mae arsylwi gwersi hefyd yn canolbwyntio gormod ar agweddau ar addysgu yn hytrach nag ar gynnydd a safonau dysgwyr.



**Ffigur 2.101:**
Nifer y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? (2010-2015)



# Y dyfodol:
# Cymraeg i Oedolion

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion' (Llywodraeth Cymru, 2013b). Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, a oedd yn cynnwys sefydlu endid cenedlaethol i ddarparu arweinyddiaeth glir, gadarn a chyson i'r sector ac ymgymryd â dyletswyddau datblygiadol ar lefel genedlaethol. Fe wnaeth yr adroddiad hefyd argymell lleihau nifer y darparwyr o 27 i rhwng 10 ac 14.

Yn ystod 2015 a 2016, ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch arolygu oherwydd ailstrwythuro cenedlaethol arfaethedig y sector.

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ailstrwythurodd y Ganolfan Genedlaethol ddarpariaeth ledled Cymru, a disodli'r chwe chanolfan ranbarthol a'u 20+ o isgontractwyr ag 11 o ddarparwyr. Ym Mehefin 2017, fe wnaethom adolygu gwaith a chynnydd y Ganolfan.

**Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** (Estyn, 2017c)

Mae'r adolygiad hwn yn arfarnu gwaith a chynnydd cychwynnol y Ganolfan o ran cyflawni'r nodau a amlinellir yn ei chynllun strategol (Gyda'n Gilydd: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2016) yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed yn 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion' (Llywodraeth Cymru, 2013 b).

Darllenwch yr **adolygiad llawn.**

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae'r Ganolfan Genedlaethol yn dylanwadu, arwain a rheoli datblygiadau ar ôl yr ad-drefnu cenedlaethol. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda mae'r Ganolfan Genedlaethol yn darparu cyfeiriad strategol cyson a chydlynol i'r 11 o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion ynghylch sut maent yn cynllunio ac yn cyflwyno darpariaeth.

Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei chreu yn 2016, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi dod yn llais cenedlaethol cryf ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Mae wedi diffinio ei nodau a'i hamcanion strategol yn glir, ac mae'n mynd i'r afael â heriau allweddol sy'n wynebu'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg mesurau safonol i arfarnu cynnydd oedolion sy'n dysgu Cymraeg; yr amrywiad eang o ran dulliau cyflwyno'r cwricwlwm Cymraeg i Oedolion ledled Cymru; a datblygiad proffesiynol ac asesu.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol hefyd yn canolbwyntio'n dda ar gynyddu darpariaeth mewn meysydd targed allweddol, fel cyrsiau dwys a gwella dilyniant rhwng lefelau. Yn ogystal, mae wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr i fonitro perfformiad darparwyr, sy'n cynnwys cyfarfodydd monitro tymhorol â phob un o'r darparwyr i drafod eu perfformiad a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu strategaeth marchnata a chyfathrebu gynhwysfawr i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg ac annog mwy o oedolion i ddysgu'r iaith. Mae arfarniad y Ganolfan Genedlaethol o'r strategaeth hon, ynghyd ag adborth gan ddarparwyr, yn awgrymu bod angen mireinio'r dull marchnata presennol er mwyn cyrraedd mwy o ddarpar ddysgwyr.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyflwyno systemau trylwyr i sicrhau bod darparwyr yn targedu cyfran fwy o'u cyllid ar weithgareddau addysgu a dysgu. Mae ei chontractau â darparwyr yn amodi y dylid cyfyngu gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu a dysgu i ddim mwy na 15% o gyfanswm y cyllid a ddyrennir. Y ffigur cyfartalog ar hyn o bryd yw 7%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r Ganolfan Genedlaethol i ddatblygu cyrsiau i addysgu Cymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl allweddol y Ganolfan Genedlaethol mewn cynllunio'r iaith Gymraeg, er ei bod yn rhoi gofynion ychwanegol ar y Ganolfan.

Yn gyffredinol, bu'r Ganolfan Genedlaethol yn llwyddiannus wrth gyfathrebu ei strategaethau a'i dulliau i'w darparwyr newydd. Mae darparwyr yn teimlo bod staff y Ganolfan Genedlaethol yn hawdd mynd atynt ac yn gynhwysol, ac maent yn gwybod â phwy y gallant gysylltu os oes angen cyngor arnynt. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddarparwyr sy'n gwbl ymwybodol o drefniadau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol. Mewn ychydig o achosion, mae darparwyr yn gyndyn o groesawu'r cyfarwyddyd a roddir gan y Ganolfan Genedlaethol yn llawn, ac maent yn araf i dderbyn y newidiadau mae'n eu hyrwyddo.

Mae'r adroddiad yn gwneud yn argymhellion canlynol ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol a darparwyr.

- Dylai'r Ganolfan Genedlaethol ddatblygu ei gweithdrefnau ar gyfer dwyn y darparwyr i gyfrif am eu perfformiad a'u cydymffurfiad â'r polisïau cenedlaethol.
- Dylai'r Ganolfan Genedlaethol fireinio ei strategaethau marchnata mewn cydweithrediad â darparwyr i dargedu mwy o ddarpar ddysgwyr ar draws cymunedau amrywiol Cymru.
- Dylai darparwyr roi'r polisïau a'r arferion a gyflwynwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar waith yn llawn, a gwella eu dealltwriaeth o drefniadau a pholisïau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol.

Byddwn yn arbrofi â threfniadau arolygu newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion yn 2017-2018, a bydd cylch arolygu newydd yn dechrau ym Medi 2018.



# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Gyrfaoedd

Ffurfiwyd Gyrfa Cymru Careers Wales yn 2013 ac mae'n is-gwmni ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Ei rôl yw darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i Gymru sy'n wasanaeth annibynnol a diduedd ar gyfer pob oed. Mae'r cwmni yn cyflawni cylch gwaith a bennir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl i wneud penderfyniadau effeithiol wrth gynllunio'u gyrfaoedd a symud ymlaen mewn hyfforddiant, dysgu pellach neu gyflogaeth.

Er 2010, mae newidiadau i'w gylch gwaith a gostyngiadau yn ei gyllideb weithredu wedi golygu gorfod gwneud llawer o newidiadau i strwythur, staffio a rôl y cwmni, gan arwain at ostyngiadau sylweddol yn ei waith gydag ysgolion a cholegau. O ganlyniad, mae ysgolion bellach yn chwarae rhan bwysicach i helpu pobl ifanc i gynllunio'u datblygiad o ran gyrfa a gwneud penderfyniadau allweddol ar bwyntiau trosglwyddo. Yn ogystal, mae Gyrfa Cymru Careers Wales wedi dileu ei ddarpariaeth i gynorthwyo pobl ifanc i gael profiad gwaith.

Yn 2012, cyhoeddom arolwg o effeithiolrwydd ysgolion wrth helpu pobl ifanc i ddatblygu'u hymwybyddiaeth o yrfaoedd a'u medrau cynllunio (Estyn, 2012e). Canfuom fod y dulliau o gyflwyno addysg ac arweiniad ar yrfaoedd mewn ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Roedd yr amser gwersi yr oedd ysgolion yn ei neilltuo i addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn amrywio gormod. Roedd y graddau yr oedd ysgolion yn cynnwys pobl eraill i gyflwyno addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn amrywio'n fawr. Yn ogystal, nid oedd arfarniadau gan ysgolion o effaith ac effeithiolrwydd cymorth y maent yn ei roi i bobl ifanc i ddatblygu'u cynlluniau gyrfaoedd yn effeithiol.

Ym Medi 2017, cyhoeddom adroddiad wedi'i ddiweddaru yn arfarnu gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd (Estyn, 2017f). At ei gilydd, canfuom fod bron pob ysgol yn darparu amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i'w helpu i wneud eu dewisiadau pynciau cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ysgolion wedi ymateb yn effeithiol i ostyngiadau yn y cymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth neu adnoddau sy'n ddigon diweddar i arwain penderfyniadau disgyblion ac, yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo'u chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag archwilio'n llawn yr amrywiaeth o ddewisiadau eraill sydd ar gael i ddisgyblion ar draws ystod o ddarparwyr.

Cafodd yr arolygon thematig canlynol sy'n berthnasol i'r sector gyrfaoedd eu cyhoeddi rhwng 2010-2017:

**Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith** (Estyn, 2012e)

**Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd** (Estyn, 2017f)


molten

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o garchardai, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc, ac mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arwain arolygiadau o gartrefi diogel i blant.  Mae Estyn yn ymuno â thimau o'r arolygiaethau hyn i arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant.

Wrth i Garchar EM y Berwyn agor yn ddiweddar yn Wrecsam, mae pum carchar yng Nghymru erbyn hyn, ac mae un ohonynt hefyd yn gartref i sefydliad troseddwyr ifanc.  Lleiafrif o oedolion a phobl ifanc o Gymru sy'n gwneud eu tymor mewn lleoliadau diogel yn Lloegr.

Yn 2016-2017, cydweithiodd Estyn â phartneriaid i arolygu Carchar Ei Mawrhydi, Abertawe a'r sefydliad troseddwyr ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi, Y Parc.  Mae un ganolfan ddiogel i blant yng Nghymru.  Cydweithiodd Estyn ag AGGCC i arolygu'r ddarpariaeth addysg yng Nghanolfan Ddiogel Hillside.  Ymunodd Estyn ag arolygiad un Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Nghwm Taf.

Am ragor o wybodaeth am yr arolygiad o Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi, Y Parc, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Am ragor o wybodaeth am yr arolygiad o Garchar Ei Mawrhydi, Abertawe, darllenwch yr adroddiad ar **wefan Arolygiaeth Carchardai EM.**

Am ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth yng Nghanolfan Ddiogel Hillside, gellir gwneud cais am yr adroddiad yma: **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Am ragor o wybodaeth am yr Arolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddau Ieuenctid yng Nghwm Taf, darllenwch yr **adroddiad arolygu.**

Er 2010, mae arweinwyr a rheolwyr yn y cartref diogel i blant wedi gwella ehangder a pherthnasedd y cwricwlwm. Mae cymorth da gan yr awdurdod lleol wedi creu partneriaeth ffurfiol ag ysgol uwchradd leol. Mae hyn wedi helpu i wella safon yr addysgu. Mae cyswllt gwell rhwng staff gofal ac addysgu wedi arwain at olrhain cynnydd dysgwyr yn well. Hefyd, mae rheolwyr wedi gwella ystod yr ymarferwyr therapi sydd ar gael i ddysgwyr, fel seicolegwyr. Mae'r datblygiadau hyn wedi gwella cydweithio rhwng staff i gynorthwyo dysgwyr yn well i gyflawni eu nodau. Mae arweinwyr wedi gwella ehangder a pherthnasedd y cwricwlwm, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gadael â chanlyniad addysg cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau llythrennedd a rhifedd ar lefel ddigon uchel i'w galluogi i symud ymlaen yn uniongyrchol i addysg bellach.

Ym Mai 2016, cyhoeddodd y Fonesig Sally Coates ei hadolygiad o addysg mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr (Coates, 2016). Roedd ei hadroddiad yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â'r canlynol:

- y fframwaith atebolrwydd presennol ar gyfer cyflwyno addysg mewn carchardai
- capasati'r gweithlu
- anghenion dysgu gwahanol fathau o garcharorion
- gallu carcharorion i fanteisio ar ddysgu lefel uwch
- y potensial i TGCh ategu addysg
- y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo carcharorion i ddod o hyd i gyflogaeth a/neu barhau â'u haddysg ar ôl cael eu rhyddhau

Nid yw'r rhan fwyaf o'r carchardai sefydledig yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r argymhellion hyn hyd yn hyn. Yn y lleiafrif o garchardai lle mae rheolwyr strategol yn rhoi blaenoriaeth i addysg, mae darpariaeth ac ansawdd yr addysgu wedi gwella. Mae cyflwyno rheolwyr rhanbarthol yn ddiweddar i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu addysg yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi arwain at weithio'n well mewn partneriaeth rhwng Penaethiaid Dysgu a Medrau. Fodd bynnag, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid yw mwyafrif y carcharorion yng ngharchardai'r sector cyhoeddus wedi gallu manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i wella eu medrau a'u potensial o ran cyflogaeth. Mae'r asesiad cychwynnol o anghenion dysgu carcharorion wedi gwella. Nid oes gan arweinwyr a rheolwyr strategaethau effeithiol i sicrhau bod yr holl staff yn canolbwyntio digon ar y ffordd orau i wella llythrennedd a rhifedd carcharorion. Nid yw carchardai'n arfarnu'n ddigon da o hyd effaith eu darpariaeth o ran cynorthwyo carcharorion i leihau ymddygiad sydd yn arwain at aildroseddu ar ôl iddynt adael y carchar.

Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, mae deilliannau i ddysgwyr wedi elwa ar gryfhau tîm rheoli'r uned. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwella eu llythrennedd a rhifedd o leiaf un lefel. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ennill cymwysterau sy'n eu galluogi i symud ymlaen i lefelau addysg uwch ac sy'n eu paratoi ar gyfer gwaith. Fodd bynnag, mae cyfleoedd profiad gwaith yn gyfyngedig iawn.

Mewn llawer o wasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru, cryfhawyd y trefniadau i gasglu gwybodaeth am ddysgwyr gan ysgolion a'r awdurdod lleol. Mae llawer o weithwyr achos yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gweithgareddau sy'n helpu dysgwyr i symud ymlaen a pharhau â'u haddysg. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o sylw i ddatblygu llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Dim ond ychydig o wasanaethau sy'n annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr achos yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol dysgwyr, fel gwella hunan-barch a lleihau ymddygiad heriol, ond nid yw gwasanaethau wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ffyrdd i olrhain gwelliannau yn y mathau hyn o ymddygiad. Mae gwasanaethau'n cynorthwyo'r dysgwyr hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn dda i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu galluogi i wneud cynnydd. Fodd bynnag, mae gormod o bobl ifanc o oed ysgol statudol nad ydynt yn derbyn eu hawl i gael addysg amser llawn, ac nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau yn dadansoddi effaith y gwaith maent yn ei wneud ar lwyddiant dysgwyr o ran symud ymlaen i gyfleoedd.

Yn Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Gyfiawnder Ieuenctid a'i hymateb, yn cynnwys ystod o argymhellion a fyddai'n ailstrwythuro gwasanaethau i bobl ifanc sy'n troseddu (Taylor, 2016). Bydd Llywodraethau'r DU a Chymru yn cydweithio â'i gilydd i fwrw ymlaen â'r argymhellion yng Nghymru.

# Atodiad: 1



# Atodiad 1
# Trosolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.  Rydym yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ein hariannu ganddo.  Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

## Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Nod ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGGCC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid (TTI) sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ac arolygiadau o garchardai sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai EM. Weithiau, rydyn ni'n ymuno ag Ofsted i arolygu colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru. Efallai y byddwn hefyd yn ymuno ag arolygiadau o garchardai yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o garcharorion o Gymru. Yn ogystal, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Mae gennym safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant a gyflwynwyd ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma:

**www.estyn.llyw.cymru**

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a disgrifwyr barn a ddefnyddiwyd dros y cyfnod arolygu 2010-2017

Pan fuon ni'n arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru rhwng 2010-2017, defnyddiom ein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn gymwys ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach hyd nes 2018. Roedd y fframwaith hwn yn cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
1.1 Safonau
1.2 Lles

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**
3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaeth
3.4 Rheoli adnoddau

Mewn arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, rydyn ni'n adrodd ar y ddarpariaeth dan bedwar pennawd:

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol
2.3 Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles
2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

Rhoddon ni ddwy farn gyffredinol ar y perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Defnyddion ni'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r disgrifwyr barn ar gyfer y peilotau o'r trefniadau arolygu newydd yn 2016-2017 ac ar gyfer y cylch arolygu nesaf

Bydd y fframwaith yn berthnasol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach o 2018.

Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu pum maes arolygu a 15 o ofynion adrodd.

**1 – Safonau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**
2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**
3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**
4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

## Y Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

**1 – Deilliannau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Lles ac agweddau at ddysgu

**2 – Ansawdd Gwasanaethau Addysg**
2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed
2.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

**3 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
3.2 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
3.3 Dysgu proffesiynol
3.4 Defnyddio adnoddau

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro neu adolygu gan Estyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Arfer ragorol** | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol, ac y nodir felly bod ganddo arfer sy'n arwain y sector mewn un maes neu fwy, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| **Monitro gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. O Fedi 2017, Adolygu gan Estyn fydd y categori hwn. |
| **Adolygu gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Bydd pob ysgol yn y categori hwn yn cael adolygiad desg. Cynhelir yr adolygiad yn Hydref/Tachwedd, ar ôl i ddata CA4 dros dro gael ei gyhoeddi. O ganlyniad i'r adolygiad desg, bydd ysgolion sy'n dangos tystiolaeth glir o gynnydd yn cael eu tynnu o'r categori hwn. Bydd ysgolion nad ydynt wedi dangos tystiolaeth glir o gynnydd naill ai'n aros yn y categori Adolygu gan Estyn am 12 mis arall, neu byddant yn cael ymweliad monitro ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd honno. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Gwelliant â ffocws** | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| **Angen gwelliant sylweddol** | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| **Mesurau arbennig** | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Monitro gan Estyn: ôl-16** | Os nodir bod angen i ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu hyfforddiant cychwynnol i athrawon gael ei fonitro gan dîm Estyn, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os yw arolygwyr yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud, gallai hyn arwain at ailarolygiad llawn. Yn dilyn monitro gan Estyn, bydd llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymweliad monitro. |
| **Ailarolygiad** | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |

## Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiir i ddisgrifio'n harfarniadau

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl canlynol yw'r rheini rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.

| | |
|---|---|
| bron pob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | agos at 50% |
| lleiafrif | islaw 40% |
| ychydig | islaw 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

# Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad hwn yn dod o gronfa ddata deilliannau arolygu Estyn yn bennaf. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o adrannau Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Wrth ddadansoddi deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr ym mhob sector. Er enghraifft, yn ystod 2016-2017, arolygom 194 (14%) o ysgolion cynradd a 31 (16%) o ysgolion uwchradd. Gall ymddangos bod newidiadau mawr wrth gymharu'r deilliannau arolygu rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, ers i ni gyflwyno'r Fframwaith Arolygu Cyffredin presennol ym Medi 2010, nid yw unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn wedi bod yn arwyddocaol yn ystadegol.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod angen cymryd cryn ofal wrth gymharu deilliannau arolygu, a data arall, rhwng sectorau ac o fewn sectorau pan fydd nifer y darparwyr yn fach.

Cyhoeddom ein deilliannau arolygu ar gyfer 2016-2017 fel ystadegau swyddogol. Cafodd yr ystadegau eu datgan ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar wefan Estyn, ac fe'u paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae ein gwefan ddata ryngweithiol yn rhoi crynodebau o'n deilliannau arolygu ac ymatebion i holiaduron gan ddisgyblion a rhieni. Gall defnyddwyr weithredu hidlwyr i addasu eu golygon data a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'r wefan yn cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2017.

I gael mwy o wybodaeth am yr adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol, ewch i: **estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio**


10

# Atodiad 2



Coates, S. (2016) *Unlocking Potential: A review of education in prison*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/524013/education-review-report.pdf [Darllenwyd 15 Tachwedd 2017] (Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/3234/pdfs/wsi_20033234_mi.pdf [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2011a) *Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/lythrennedd-ar-cyfnod-sylfaen-medi-2011 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2011b) *Dysgu yn yr Awyr Agored: Arfarnu dysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/dysgu-yn-yr-agored-arfarnu-dysgu-yn-yr-awyr-agored-i-blant-o-dan-bump-oed-yn-y [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2011c) *Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/mynd-ir-afael-thlodi-ac-anfantais-mewn-ysgolion-cydweithio-ar-gymuned-gwasanaethau [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2011d) *Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effaith-amddifadedd-ar-gyrhaeddiad-dysgwyr-mewn-addysg-bellach-dysgu-yn-y-gwaith [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2012a) *Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effaith-rhaglenni-dysgu-teuluol-ar-godi-lefelau-llythrennedd-rhifedd-plant-ac [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2012b) *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/llythrennedd-yng-nghyfnod-allweddol-3-mehefin-2012 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2012c) *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfer-effeithiol-wrth-fynd-ir-afael-thlodi-ac-anfantais-mewn-ysgolion-tachwedd-2012 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2012d) *Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl-16 oed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effeithiolrwydd-strategaethau-ar-gyfer-cynnwys-y-dysgwyr-mewn-dysgu-%C3%B4l-16-oed-mai [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2012e) Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/penderfyniadau-gwybodus-gweithredur-fframwaith-gyrfaoedd-ar-byd-gwaith-hydref-2012 [Darllenwyd 28 Tachwedd 2017]

Estyn (2013a) *Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/cymraeg-yn-y-cyfnod-sylfaen-datblygu-cymraeg-fel-iaith-gyntaf-mewn-ysgolion-cynradd [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013b) *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/datblygur-gymraeg-yn-y-cyfnod-sylfaen-ionawr-2013 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013c) *Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/rhifedd-yng-nghyfnodau-allweddol-2-3-astudiaeth-gwaelodlin-mehefin-2013 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013d) *Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effaith-tgch-ar-ddysgu-disgyblion-mewn-ysgolion-cynradd-gorffennaf-2013 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013e) *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gweithio-gyda%E2%80%99n-gilydd-i-fynd-i%E2%80%99r-afael-ag-effaith-tlodi-ar-gyflawniad-addysgol [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013f) *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/datblygur-gymraeg-yn-y-cyfnod-sylfaen-ionawr-2013 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2013g) *Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/teithiau-gwella-deuddeg-ysgol-uwchradd-rhagfyr-2013 [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2013h) *Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effeithiolrwydd-strategaethau-cynnwys-dysgwyr-mewn-sefydliadau-addysg-bellach [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2013i) *Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianneg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/adolygiad-o-safonau-ac-ansawdd-y-ddarpariaeth-ar-gyfer-peirianneg-mewn-colegau [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2013j) *Adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith Llywodraeth Cymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/adolygiad-cychwynnol-o-effeithiolrwydd-rhaglenni-hyfforddeiaethau-chamau-waith [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2014a) *Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: adroddiad interim.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/rhifedd-yng-nghyfnodau-allweddol-2-3-adroddiad-interim-tachwedd-2014 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2014b) *TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/tgch-yng-nghyfnod-allweddol-3-effaith-tgch-ar-ddysgu-disgyblion-yng-nghyfnod [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2014c) *Difreintedd Disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/difreintedd-disgyblion-mai-2014 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2014d) *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/dilyniant-ieithyddol-safonau%E2%80%99r-gymraeg-mewn-deg-ysgol-ddwyieithog-tachwedd-2014 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2014e) *Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effeithiolrwydd-strategaethau-cynnwys-dysgwyr-mewn-dysgu-oedolion-yn-y-gymuned [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2014f) *Rhwystrau rhag prentisiaeth.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/rhwystrau-rhag-prentisiaeth-tachwedd-2014 [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2015a) *Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effaith-athrawon-ymgynghorol-ar-leoliadau-nas-cynhelir-ariennir-mai-2015 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2015b) *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/llythrennedd-yng-nghyfnod-allweddol-3-adroddiad-interim-ionawr-2015 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2015c) *Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfer-dda-mewn-mathemateg-yng-nghyfnod-allweddol-4-hydref-2013 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2015d) *Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfer-dda-mewn-mathemateg-yng-nghyfnod-allweddol-3-chwefror-2015 [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2015e) *Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/cymorth-chydweithio-rhwng-ysgolion-mehefin-2015 [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2015f) *Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfer-orau-o-ran-datblygu-arweinyddiaeth-mewn-ysgolion-mehefin-2015 [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2015g) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwasanaethau-cymorth-dysgwyr-mewn-colegau-addysg-bellach-ar-gyfer-dysgwyr-16-19 [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2015h) *Arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arsylwi-addysgu-dysgu-yn-effeithiol-mewn-colegau-addysgu-bellach [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2015i) *Pa mor dda y mae sefydliadau addysg bellach yn rheoli cwynion gan ddysgwyr?* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/pa-mor-dda-y-mae-sefydliadau-addysg-bellach-yn-rheoli-cwynion-gan-ddysgwyr-mai-2015 [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2015j) *Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/chwalu-rhwystrau-rhag-prentisiaethau-hydref-2015 [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2015k) *Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol*. Caerdydd, Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gwella-ysgolion-trwy-gonsortia-addysg-rhanbarthol-mehefin-2015 [Darllenwyd 12 Ionawr 2018]

Estyn (2016a) *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-awdurdodau-lleol [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2016b) *Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arweinyddiaeth-gwella-ysgolion-cynradd [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2016c) *Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ansawdd-addysg-hyfforddiant-ym-maes-iechyd-gofal-cymdeithasol-oedolion [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2016d) *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/dysgu-oedolion-yn-y-gymuned-yng-nghymru [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2016e) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynnydd-chyrchfannau-dysgwyr-mewn-colegau-arbenigol-annibynnol [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Estyn (2016f) *Addysg heblaw yn yr ysgol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol [Darllenwyd 20 Rhagfyr]

Estyn (2017a) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad – Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2*. Caerdydd: Estyn, [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/dysgu-gweithredol-thrwy-brofiad-arfer-effeithiol-yn-y-cyfnod-sylfaen-wrth [Darllenwyd 4 Ionawr 2018]

Estyn (2017b) *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysgu-dysgu-cyfrwng-cymraeg-dwyieithog-mewn-addysg-bellach [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2017c) *Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/adolygiad-o-waith-y-ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Estyn (2017d) *Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-chydweithio-rhwng-ysgolion-%E2%80%93-crynodeb-phapur-trafod [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Estyn (2017e) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynnydd-chyrchfannau-dysgwyr-mewn-meysydd-dysgu-medrau-byw-yn-annibynnol-mewn [Darllenwyd 20 Tachwedd 2017]

Estyn (2017f) *Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gyrfaoedd-gweithredu%E2%80%99r-fframwaith-gyrfaoedd-a%E2%80%99r-byd-gwaith-mewn-ysgolion [Darllenwyd 28 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2010a) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2012a) *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-cy.pdf [Darllenwyd 13 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130712-review-welsh-for-adults-cy.pdf [Darllenwyd 15 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140217-national-model-for-regional-working-cy-v2.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Qualified for life: An education improvement plan for 3-19-year-olds in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/21054/1/141001-qualified-for-life-en_Redacted.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015a) *Cymwys am oes: Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2015b) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014-15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150715-welsh-medium-annual-report-cy.pdf [Darllenwyd 4 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Adroddiad Blynyddol 2015-15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/welsh-language/publications/160929-wls-annual-cy.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl – Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cyraeddiadau a'r hawl i brydau am ddim*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?lang=cy [Darllenwyd 15 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o gyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-welshmediumtype [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017d) *Disgyblion yn ôl ysgol a grŵp blwyddyn, 2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-school-yeargroup [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Absenoldeb o ysgolion cynradd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017f) *Canlyniadau arholiadau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017g) *Cyraeddiadau a'r hawl i brydau am ddim*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017h) *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-chracteristics/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017i) *Absenoldeb o ysgolion uwchradd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-secondary-schools/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017j) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017k) *Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 20 Rhagfyr 2017]

Llywodraeth Cymru (2017l) *Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2017m) *Canlyniadau yn ôl ardal ddysgu a blwyddyn*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/results-by-areaoflearning-year [Darllenwyd 4 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017n) *Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o gyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupils-by-localauthorityregion-welshmediumtype [Darllenwyd 4 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130424-framework-for-childrens-learning-cy.pdf [Darllenwyd 17 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/11297/2/SKILLS_FRAMEWORK_2007_Welsh.pdf%3Flang%3Dcy [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective*. Paris: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017]  (Saesneg yn unig)

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A rapid policy assessment*. Paris: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/edu/The-Welsh-Education-Reform-Journey-FINAL.pdf [Darllenwyd 14 Tachwedd 2017] (Saesneg yn unig)

Taylor, C. (2016) *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577103/youth-justice-review-final-report.pdf [Darllenwyd 15 Tachwedd 2017]  (Saesneg yn unig)



**estyn.llyw.cymru**
@EstynAEM

Estyn